



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant

Adolygiad seiliedig ar dystiolaeth o'r
perygion i blant a phobl ifanc sy'n cael
eu haddysgu gartref
Adroddiad Terfynol

Donald Forrester
Nina Maxwell
Tom Slater
Julie Doughty

Comisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol
Hydref 2017

Cynnwys

CYNNWYS	2
Rhestr tablau	3
Rhestr ffigurau	4
Termau a diffiniadau allweddol	5
Gair am Ddatganoli	6
1.0 CRYNODEB	7
1.1 Cefndir	7
1.2 Dull	7
1.3 Prif ganfyddiadau	7
1.3.1 Adolygiad o'r dystiolaeth bresennol	7
1.3.2 Adolygiadau Achos Difrifol ac Adolygiadau Ymarfer Plant:	8
1.3.3 Ymatebion rhanddeiliaid: cyfweiliadau ac ymatebion i'r arolwg	8
1.4 Trafodaeth	10
1.5 Argymhellion	10
2.0 CYFLWYNIAD	14
3.0 DULLIAU	19
3.1 Adolygiad llenyddiaeth	19
3.2 Adolygiad o Adolygiadau Achos Difrifol ac Adolygiadau Ymarfer Plant	19
3.3 Cyfweiliadau: Gweithwyr Proffesiynol	20
3.4 Cyfweiliadau: Addysgwyr yn y cartref	20
3.5 Ymatebwyr i'r arolwg ar-lein	21
4.0 CRYNODEB O'R CYD-DESTUN CYFREITHIOL A PHOLISI	22
4.1 Addysg	22
4.2 Diogelu	23
5.0 ADOLYGIAD CYFLYM O'R DYSTIOLAETH BRESENNOL AR ADDYSG YN Y CARTREF A LLESIANT PLANT	24
5.1 Pwy sy'n cael addysg yn y cartref?	24
5.2 Pam mae plant yn cael eu haddysgu gartref?	25
5.2.1 Bwlio	26
5.2.2 Anghenion Addysgol Arbennig	27
5.2.3 Sipsiwn a Theithwyr	28
5.3 Prif Bwyntiau	28

DADANSODDIAD O ADOLYGIADAU YMARFER PLANT AC ADOLYGIADAU ACHOS DIFRIFOL	30
6.1 Tynnu'n ôl:	32
6.2 Osgoi:	33
6.3 Prif Bwyntiau	34
7.0 YMATEBION RHANDEILIAID: CYFWELIADAU AC YMATEBION I'R AROLWG	36
7.1 Safbwyntiau rhieni sy'n addysgu gartref	36
7.1.1 Pam mae teuluoedd yn addysgu gartref?	36
7.1.2 Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i gefnogi Addysg yn y Cartref yng Nghymru ar hyn o bryd?	38
7.1.3 Addysg yn y cartref a diogelu	41
7.1.4 Prif Bwyntiau	45
7.2 Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol	46
7.2.1 A yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod am blant sy'n cael eu haddysgu gartref?	46
7.2.2 Enghreifftiau o blant sydd angen gofal neu gefnogaeth	49
7.2.3 Prif Bwyntiau	50
8.0 TRAFODAETH	51
9.0 ARGYMHELLION	57
10.0 CYFEIRIADAU	61
ATODIAD A: DULL	70
ATODIAD B: TREFN Y CYFWELIAD	75
ATODIAD C: AROLWG AR-LEIN	78
ATODIAD D: BETH YW CYD-DESTUN CYFREITHIOL A PHOLISI ADDYSG YN Y CARTREF?	83
ATODIAD E: DATGANIAD EDUCATION OTHERWISE	95
ATODIAD F: DOGFENNAU POLISI CYMRU	101
ATODIAD G: DATA YR AROLWG AR-LEIN AR GYFER ADDYSGWYR YN Y CARTREF	102

Rhestr tablau

Tabl 1: Trosolwg o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol	31
Tabl G2: Nodweddion addysgwyr yn y cartref	103
Tabl G3: Nifer y plant	103
Tabl G4: Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn addysgu eich plentyn gartref?	104
Tabl G5: Cyswllt â'r awdurdod lleol	104
Tabl G6: Rôl addysg o ran asesu lles plant	105

Rhestr ffigurau

Ffigur A1: Strategaeth chwilio'r adolygiad llenyddiaeth

71

Termau a diffiniadau allweddol

- *Plentyn/plant/pobl ifanc* - Oni nodir fel arall, dylid ystyried unrhyw berson dan 18 oed yn blentyn/person ifanc (gweler adran 105 Deddf Plant 1989 ac Erthygl 1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae'r termau 'plentyn/plant' a 'person ifanc/pobl ifanc' yn gyfnewidiol.
- *Oedran addysg orfodol* - Mae'n rhaid i bob plentyn rhwng 5 ac 16 oed gael addysg 'yn yr ysgol neu fel arall'. I'r rheini mewn addysg brif ffrwd, mae blwyddyn derbyn ddewisol ar gael i blant 4 oed. Mae amryw o gyfleoedd ar gyfer addysg nad yw'n orfodol ar ôl troi'n 16 oed¹. Gall plentyn gael rhan o'i addysg orfodol gartref, neu ei chael yn gyfan gwbl gartref.
- *EHE* - Addysg ddewisol yn y cartref yw'r term mae Llywodraeth Cymru a'r Adran Addysg yn Lloegr yn ei ddefnyddio i gyfeirio at blant sy'n cael eu haddysgu fel arall (h.y. nid ydynt yn cael addysg drwy EOTAS (gweler isod) nac mewn lleoliad ysgol, boed yn ysgol y wladwriaeth, yn ysgol breifat neu'n fath arall o ysgol). Dim ond y term hwn mae'r adroddiad hwn yn ei ddefnyddio wrth ddyfynnu ffynonellau sy'n defnyddio EHE.
- *EOTAS* - Mae Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cynnwys darpariaeth addysg y tu allan i leoliad ysgol. Mae hyn yn gallu cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, Unedau Cyfeirio Disgyblion, llwybrau unigol, a mathau eraill o ddarpariaeth sector gwirfoddol neu annibynnol.
- *Addysg hyblyg* - Gallai plant fod wedi cofrestru ag ysgol ar gyfer eu haddysg, ond bod elfennau o'u haddysg yn cael eu darparu y tu allan i'r ysgol (h.y. oddi ar y safle). Mae hyn yn cael ei ganiatáu o dan A444(9) Deddf Addysg 1996, ac mae'n cael ei alw'n addysg hyblyg yn aml.
- *Addysg yn y cartref* - Ar y cyfan, mae'r adolygiad hwn yn defnyddio'r term addysg yn y cartref, yn hytrach na EHE (addysg ddewisol yn y cartref) i gyfeirio at blant sy'n cael eu haddysgu gartref neu rywle arall gan eu rhieni.
- *Addysgwr yn y cartref* - Mae'r adolygiad hwn yn defnyddio'r term addysgwr yn y cartref i gyfeirio at rieni/gofalwyr sy'n addysgu eu plant y tu allan i'r ysgol.
- *Rhiant* - Mae hyn yn cynnwys person sydd â Chyfrifoldeb Rhiant dros blentyn (gweler adran 3(1) Deddf Plant 1989² ac adran 576 Deddf Addysg 1996).

¹ Yn wahanol i Loegr, does dim gofyniad yng Nghymru i bobl ifanc 17 neu 18 oed fod mewn addysg, neu ddilyn hyfforddiant neu brentisiaeth.

² Mae rhagor o wybodaeth am Gyfrifoldeb Rhiant hefyd ar gael yn Adrannau 2 a 4 yr un Ddeddf.

- *Ysgol* - Oni nodir fel arall, mae hyn yn cyfeirio at ysgol, coleg neu leoliad arall a ddarperir, neu y cynhelir fel arall, gan y Wladwriaeth. Nid yw'n cynnwys Addysg Heblaw yn yr Ysgol nac Ysgolion Annibynnol³.
- *Gwladwriaeth* - Mae hyn yn cyfeirio at Wladwriaeth Genedlaethol (h.y. gwlad).
- *Lles* - Dylid dehongli lles yn nhermau Adran 1 Deddf Plant 1989.
- *Llesiant* - Dylid dehongli llesiant yn nhermau'r meysydd a nodir yn Adran 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddai'r term llesiant yn cynnwys lles. Llesiant yw'r term sy'n cael ei ffafrio yn yr adroddiad hwn gan ei fod yn caniatáu dull mwy cyfannol ar gyfer deall sefyllfa plentyn/plant.

Gair am Ddatganoli

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth a pholisi cyfoes Cymru ynghylch addysg yn y cartref, diogelu plant/pobl ifanc a phynciau cysylltiedig. O dan y Deddfau datganoli⁴, mae Addysg a Gofal Cymdeithasol o fewn cylch gwaith deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd cyn datganoli yn dal ar waith nes ei bod yn cael ei diwygio neu ei diddymu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar waith. Mae system gyfreithiol gyffredin ar draws Cymru a Lloegr ac, fel cyfiawnder troseddol, mae'n fater a gedwir sy'n dal o dan awdurdodaeth Senedd y DU a Llywodraeth EM. O ganlyniad, mae deddfwriaeth a pholisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU ill dau yn dal i effeithio ar rai elfennau o ddiogelu.

³ Mae hyn yn cynnwys ysgolion preifat, dielw, gwirfoddol ac elusennol.

⁴ Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2014. Nid yw Deddf Cymru 2017 wedi cael ei rhoi ar waith ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

1.0 Crynodeb

1.1 Cefndir

Yn sgil marwolaeth Dylan Seabridge ym mis Rhagfyr 2011, codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r systemau diogelu presennol yn ddigonol i blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Cafodd yr adolygiad hwn ei gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ym mis Chwefror 2017 i archwilio'r peryglon posibl yng nghyswllt diogelu, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref.

1.2 Dull

Mae'r adolygiad yn cynnwys pedair elfen o gasglu data ynghyd â chrynodeb o ddeddfwriaeth a pholisi cyfredol yng Nghymru. Dyma'r elfennau o gasglu data:

1. Adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth bresennol ers 2000, lle daethpwyd o hyd i 57 ffynhonnell o dystiolaeth yn y DU.
2. Adolygiad o 11 adolygiad ymarfer plant ac adolygiad achos difrifol lle roedd addysg yn y cartref yn ffactor.
3. Cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn â 45 o randdeiliaid yn cynnwys addysgwyr yn y cartref a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, grwpiau iechyd, elusennol a gwirfoddol, a Chomisiynwyr Plant Cymru a'r Alban.
4. Arolwg ar-lein o rieni sy'n addysgu gartref, a gafodd 134 o ymatebion.

1.3 Prif ganfyddiadau

1.3.1 Adolygiad o'r dystiolaeth bresennol

- Dim ond cyfran fach o blant sy'n cael eu haddysgu gartref - 2,000-3,000 yng Nghymru efallai.
- Mae arwyddion fod y niferoedd yn codi - mae'n bosibl eu bod wedi dyblu dros y chwe blynedd ddiwethaf.
- Maent yn grŵp amrywiol o blant, sy'n cynnwys y rheini mae eu rhieni wedi penderfynu ar addysg yn y cartref ers eu geni, a grŵp mwy sy'n gadael yr ysgol. Yn aml, mae'r rhesymau dros blant yn gadael yr ysgol yn cynnwys bwlio, anghenion ychwanegol, neu blentyn yn cael problemau eraill yn yr ysgol.

- Mae plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn dueddol o gael mynediad salach at wasanaethau cyffredinol ac arbenigol sy'n cael eu darparu i blant mewn ysgol.

1.3.2 Adolygiadau Achos Difrifol ac Adolygiadau Ymarfer Plant:

- Cafodd addysg yn y cartref ei nodi fel nodwedd mewn 11 adolygiad. Roedd modd rhannu'r rhain yn ddau fath o achos:
 - "Tynnu'n ôl" - mewn pedwar teulu, roedd addysg yn y cartref yn rhan o broses o dynnu'n ôl o wasanaethau ar ôl nodi pryderon. Roedd tystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol wedi methu ymateb i hyn yn ddigon cadarn.
 - "Osgoi" - mewn saith teulu, roedd addysg yn y cartref yn rhan o strategaeth rhieni a oedd yn osgoi, yn cyfyngu neu'n rheoli cyswllt proffesiynol â phlant. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â rhieni a oedd yn rheoli ac yn ecsentrig yn ôl pob golwg. Mae'n bosibl fod gan nifer ohonynt broblemau iechyd meddwl heb eu diagnosisio.
- Mae'n amlwg fod rhai plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Nid oes gennym reswm i gredu bod hyn yn fwy - neu'n llai - cyffredin nag yn y boblogaeth gyffredinol.
- Yr hyn sy'n glir yw ei bod yn anoddach adnabod plant sy'n dioddef camarfer os yw rhiant yn dymuno cyfyngu ar fynediad at y plentyn, ac mae addysg yn y cartref wedi, ac yn, cyfrannu at hynny. Mae rhieni sy'n cam-drin neu'n esgeuluso eu plant yn defnyddio addysg yn y cartref fel un ffordd o gyfyngu ar gyswllt proffesiynol, ac felly amddiffyniad.
- Mae ymarfer presennol yn rhoi rhai plant mewn perygl gan fod eu rhieni'n defnyddio addysg yn y cartref fel ffordd o reoli a chyfyngu ar gyswllt â'u plant.

1.3.3 Ymatebion rhanddeiliaid: cyfweiliadau ac ymatebion i'r arolwg

1.3.3.1 Safbwyntiau addysgwyr yn y cartref

- Mae'r rhesymau dros addysgu yn y cartref yn adlewyrchu'r rhieni a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae addysgwyr yn y cartref yn grŵp amrywiol iawn, ond roedd dau grŵp eang.

- Roedd y rheini a oedd wedi tynnu plentyn o'r ysgol yn dueddol o fod yn siomedig iawn gydag ansawdd yr addysg a'r gofal yr oedd eu plentyn wedi'i gael. Yn aml, roedd gan y plant hyn anghenion ychwanegol nad oedd yr ysgol wedi eu diwallu.
- Roedd y rheini a oedd wedi dewis peidio ag anfon plant i'r ysgol yn dueddol o fod yn feirniadol o natur darpariaeth yr ysgol, ac roedd yn well ganddynt ddulliau sy'n "canolbwyntio ar y plentyn". I rai, roedd hyn yn rhan o wrthwynebiad ehangach i'r wladwriaeth.
- Roedd gan y ddau grŵp brofiadau negyddol ar y cyfan o weithwyr proffesiynol.
- Roeddent bron yn llwyr unfrydol mai ychydig iawn o wasanaethau a chymorth sy'n cael eu darparu i blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Roedd llawer o hanesion am gyfraniadau a oedd yn ymddangos yn ddi-fudd neu'n ymwithiol gan weithwyr proffesiynol.
- Roedd y profiadau negyddol hyn o addysg a gwasanaethau eraill wedi cyfrannu at wrthwynebiad eang - ond nid llwyr - ymysg addysgwyr yn y cartref i unrhyw gynnig i gofrestru plant sy'n cael eu haddysgu gartref neu i asesu ansawdd eu haddysg neu eu llesiant.
- Cwestiynodd nifer a fyddai cofrestr a/neu ragor o asesu yn cyflawni unrhyw beth pe na bai gwasanaethau cefnogi'n gysylltiedig â hynny.
- Roedd y rhan fwyaf yn digio wrth yr ensyniad fod unrhyw fath o gysylltiad rhwng addysg yn y cartref a chamdriniaeth neu esgeulustod.
- Cafodd nifer fach o enghreifftiau o broblemau diogelu o ran plant sy'n cael eu haddysgu gartref eu nodi, ac roedd yr ymatebwyr yn awgrymu eu bod wedi cael eu hatgyfeirio'n briodol, a bod Gwasanaethau Plant wedi ymdrin â hwy'n dda.

1.3.3.2 Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol

- Nododd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol agweddau cadarnhaol ar addysg yn y cartref, megis ansawdd y profiad addysgol ac ymrwymiad y rhieni.

- Roedd bron i bob gweithiwr proffesiynol yn gallu nodi nifer fach o blant sy'n cael eu haddysgu gartref a oedd yn destun camdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol, neu fod amheuaeth o hynny yn eu cylch.
- Roedd y rhain yn cynnwys plant a oedd wedi cael eu haddysgu drwy gydol eu plentyndod, lle teimlwyd y gallai camdriniaeth neu esgeulustod osgoi sylw.
- Roedd y plant a oedd wedi gadael yr ysgol oherwydd problemau difrifol, problemau a fyddai ond yn gwaethygu o ganlyniad i'r plentyn yn cael ei addysgu gartref, yn rhan o ail grŵp lle roedd gweithwyr proffesiynol yn bryderus ynglŷn â diogelwch a llesiant y plant.

1.4 Trafodaeth

Mae'r dull cyffredinol sydd wedi'i ymgorffori ar draws y ddeddfwriaeth yn eithaf syml: mae plant yn cael eu magu orau gan eu rhieni fel arfer, ond mae gan y wladwriaeth ddyletswydd i helpu rhieni i wneud hyn, ac i ymyrryd yn gymesur pan efallai fod plant yn dioddef niwed difrifol. Dylai'r dull hwn ategu ymatebion o ran polisi ac ymarfer i blant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Mae ein tystiolaeth ni yn dangos yn glir nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Nid yw ein dyletswyddau fel cymdeithas i gefnogi, amddiffyn a sicrhau addysg plant yn dod i ben os ydynt yn cael eu haddysgu gartref. Nid yw'r wladwriaeth yn cefnogi plant sy'n cael eu haddysgu gartref, na'u teuluoedd. Yn yr un modd, ni allwn fod yn hyderus fod y lleiafrif o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, ac yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, yn cael eu hadnabod na'u diogelu.

Rydym felly yn argymhell dull newydd ar gyfer addysg yn y cartref yng Nghymru. Dylai'r dull hwn fod yn seiliedig ar egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a rhoi blaenoriaeth i gefnogi a chydgynhyrchu. Fodd bynnag, mae hefyd yn rhesymol i gymdeithas wybod sawl plentyn sy'n cael ei addysgu gartref, ac i'r wladwriaeth asesu diogelwch, llesiant ac addysg y plant hyn. Nod ein hargymhellion yw creu partneriaeth fwy adeiladol a thryloyw rhwng rhieni a'r wladwriaeth yng nghyswllt plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

1.5 Argymhellion

Argymhelliad 1: Gwasanaeth cefnogi ehangach o lawer i blant sy'n cael eu haddysgu gartref, sy'n cynnwys:

- a. Dyletswyddau clir i awdurdodau lleol i gefnogi addysg a llesiant plant sy'n cael eu haddysgu gartref.
- b. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod arian ar gael i gyflawni'r ddyletswydd hon i blant sy'n cael eu haddysgu gartref, er enghraifft drwy ddarparu cyfran o'r cyllid fesul disgybl sy'n cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol.
- c. Dylai'r gwasanaeth cefnogi hwn gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol sy'n deall anghenion ac amodau penodol plant sy'n cael eu haddysgu gartref a'u teuluoedd.
- d. Dylid datblygu'r gefnogaeth mewn partneriaeth â'r gymuned addysg yn y cartref leol, yn unol ag egwyddorion cydgynhyrchu.
- e. Dylai'r gwasanaeth cefnogi arfaethedig ar gyfer addysg yn y cartref dalu cost sefyll arholiadau fel hawl i bob plentyn yng Nghymru, nid y rheini sydd yn yr ysgol yn unig.
- f. Pan fydd plentyn yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol, dylai'r teulu allu cael asesiad annibynnol o anghenion addysgol eu plentyn. Byddai'r asesiad hwn yn nodi a fyddai gwasanaethau addysg yn gallu cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr bod y plentyn yn aros yn yr ysgol a/neu'r gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn addysgu'r plentyn gartref.
- g. Dylid annog ysgolion i fod yn greadigol wrth fynd i'r afael ag anghenion plant a allai ddechrau cael eu haddysg gartref lle nad yw hynny'n ddewis cadarnhaol gan rieni, a'u hannog yn arbennig i ymchwilio i ddewisiadau addysg ar y cyd. Dylid cydnabod hyn fel dewis dilys i rai plant wrth arolygu ysgolion a gwerthuso ffigurau presenoldeb, er enghraifft drwy eu heithrio o'r mesurau presenoldeb.
- h. Pan fydd plentyn yn cael ei dynnu o'r ysgol a'i addysgu gartref, dylai'r ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill asesu a allai'r newid hwn arwain at anghenion cefnogaeth a gofal, neu beri risg i lesiant neu ddiogelwch y plentyn. Os mai dyna'r achos, dylid atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol.

Argymhelliad 2: Asesu anghenion a llesiant plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn gliriach, sy'n gwneud y canlynol yn ofynnol:

- a. Creu cofrestr o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, yn debyg i gofrestr ysgol.
- b. Cynnal asesiad mwy cyfannol o lesiant ac addysg plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn rheolaidd. Byddai asesiadau o'r fath yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod y plentyn yn ffynnu a bod ei addysg yn ddigonol. Byddent hefyd yn helpu i ddarparu a chynllunio ar gyfer gwasanaethau cefnogi priodol.
- c. Dylai asesiadau o'r fath gynnwys plant, fel y bo'n briodol o ran oedran a gallu. Dylent hefyd gael eu cynnal yng nghartref y plentyn, sef ei leoliad addysg.
- d. Un o'r prif benderfyniadau yw a ddylid gosod rheidrwydd cyfreithiol ar rieni i gofrestru a/neu gydweithredu â'r asesiad. Byddai gwneud cofrestru ac asesu yn orfodol yn arwain at gryn dipyn o wrthwynebiad gan gyfran uchel o'r rhieni sy'n addysgu gartref. Er hynny, mae'n annhebygol y byddai cynllun gwirfoddol wedi diogelu Dylan Seabridge neu blant eraill sydd wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod difrifol wrth gael eu haddysgu gartref. Rydym felly'n argymhell y dylid gosod rheidrwydd cyfreithiol ar rieni sy'n dewis addysgu gartref i gofrestru a chael asesiadau rheolaidd.

Argymhelliad 3: Gwella'r ymateb i blant lle nodir niwed gwirioneddol neu amheuaeth o hynny, a bod y plentyn yn cael ei addysgu gartref.

Nid yw addysgu yn y cartref yn ffactor risg ar gyfer cam-drin neu esgeuluso plant. Serch hynny, lle mae pryderon ynghylch diogelwch neu lesiant plentyn, mae addysg yn y cartref yn lleihau'r cyfleoedd o ran mynediad proffesiynol a monitro diogelwch plentyn yn sylweddol. Mae'n rhaid i'r ymatebion i unrhyw berygl o gamdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael ei nodi yng nghyswllt plentyn sy'n cael ei addysgu gartref ystyried y lefel lai hon o graffu o ddifrif.

- a. Gallai peidio ag addysgu plentyn niweidio ei lesiant, a gall hynny fod yn fath o esgeulustod ynddo'i hun. Os oes lle i gredu nad yw plentyn yn cael addysg, dylid atgyfeirio hyn at wasanaethau cymdeithasol, un ai ar gyfer asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth posibl y plentyn a'r

teulu, neu os yw'r perygl yn uwch, fel plentyn sydd mewn perygl o esgeulustod.

- b. Pan fydd camdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol, neu amheuaeth o hynny, wedi arwain at blentyn yn cael ei ddyrannu fel plentyn sydd angen gofal a chefnogaeth, neu ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a bod y plentyn hwnnw'n cael ei addysgu gartref, dylai'r cynllun gynnwys y canlynol, fel y bo'n briodol:
 - i. Nifer sylweddol uwch o ymweliadau lle rhoddir rhybudd a rhai dirybudd nag y byddai plentyn mewn ysgol yn eu cael.
 - ii. Cyfarfodydd proffesiynol mwy rheolaidd a mwy o rannu gwybodaeth.
 - iii. Ymweliadau ar y cyd gyda staff diogelu plant ac addysg.
- c. Lle nodir camdriniaeth ac esgeulustod gwirioneddol, neu amheuaeth o hynny, dylai gweithwyr proffesiynol asesu a yw addysg yn y cartref yn ymddangos yn ymgais i osgoi craffu proffesiynol. Lle bo tystiolaeth o hyn, mae'n cynyddu'r perygl o niwed i'r plentyn. Dylid defnyddio gweithdrefnau diogelu statudol a chymryd camau cyfreithiol priodol i wneud yn siŵr bod y plentyn yn ddiogel.
- d. Os credir bod addysg yn y cartref yn cynyddu'r peryglon i blentyn, dylai gweithwyr proffesiynol gofio na fydd deddfwriaeth addysg yn darparu amddiffyniad. Bydd angen defnyddio darpariaethau diogelu Deddf Plant 1989 fel y bo'n briodol ar gyfer y plentyn a'i amodau.
- e. Dylai pob awdurdod lleol gael unigolyn a enwir sydd â chyfrifoldeb ac arbenigedd yng nghyswllt addysg yn y cartref a diogelu. Dylai'r unigolyn hwn ddarparu cyngor ac ymgynghoriaeth ar gyfer y nifer gymharol fach o deuluoedd lle mae problemau o ran addysg yn y cartref a diogelu yn codi.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell gosod dyletswydd ar Estyn i arolygu pa mor ddigonol yw darpariaeth awdurdodau lleol o ran cefnogi ac asesu addysg yn y cartref.

Byddai'n rhaid i arolygon o'r fath gynnwys arbenigedd ym meysydd addysg a gofal cymdeithasol, a gwybodaeth am ymarfer da ym maes addysg yn y cartref. Dylai hyn gynnwys llunio meini prawf ar gyfer arolygu, lle nad yw'r meini prawf hyn yn mabwysiadu agwedd negyddol at drefniadau addysg hyblyg. Dylai'r arolygiadau hyn hefyd ystyried pa mor ddigonol yw'r gefnogaeth a'r diogelwch ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref ym mhob awdurdod lleol.

2.0 Cyflwyniad

Bu farw Dylan Seabridge ychydig wythnosau cyn Nadolig 2011. Roedd Dylan yn 8 oed. Canfu'r archwiliad post mortem bod Dylan yn dioddef o anaemia difrifol, annormaleddau deintyddol a gwaedlif ar y feinwe feddal yn rhan isaf ei goesau; pe bai unrhyw weithiwr proffesiynol gofal plant wedi ei weld, byddai wedi sylwi ar ei ddioddef yn gyflym iawn (Rhodes-White, 2016). Diffyg fitamin C tymor hir oedd achos ei farwolaeth. Y llwg (scurvy) yw'r enw cyffredin ar gyfer hyn. Mae'n gyflwr sy'n gallu cael ei adnabod a'i drin yn hawdd. Mae'r ffaith fod plentyn wedi marw ohono yn yr 21^{ain} ganrif yn frawychus. Yr un mor frawychus efallai yw bod yr Adolygiad o farwolaeth Dylan wedi canfod nad oedd unrhyw weithiwr proffesiynol wedi gweld Dylan ers iddo gael ei frechiadau yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl ei eni. Nid oedd wedi gweld ei feddyg teulu na deintydd. Nid oedd ei rieni wedi mynd ag ef i'w brofion datblygiadol, ac roeddent wedi penderfynu na fyddai'n cael ei addysg yn yr ysgol, felly ni chafodd Dylan ei weld gan athrawon. Pan oedd swyddogion lles addysg yn ymweld, roedd tad Dylan yn gwrthod iddynt ddod i mewn i'r tŷ neu weld Dylan, fel sy'n cael ei ganiatáu dan Ddeddf Addysg 1996. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod Dylan wedi dod yn "anweledig". Arweiniodd marwolaeth hynod drist a brawychus Dylan at ofyn cwestiynau difrifol am ddiogelwch a llesiant plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Nghymru. Y cwestiynau hyn oedd yr ysgogiad ar gyfer comisiynu'r adroddiad hwn, sy'n archwilio hyd a lled a natur addysg yn y cartref, a yw'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn ddigonol, a sut gallem wella ein hymatebion i wneud yn siŵr bod plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Nghymru yn ddiogel ac yn iach.

Nid marwolaeth Dylan yw'r tro cyntaf mewn blynyddoedd diweddar mae marwolaeth plentyn sy'n cael ei addysgu gartref wedi arwain at adroddiad ar addysg yn y cartref a diogelu. Fe wnaeth Khyra Ishaq ddioddef camdriniaeth ddychrynlyd wrth gael ei "haddysgu gartref". Arweiniodd hyn at gomisiynu Graham Badman (2009) i gynhyrchu adroddiad ar gyfer Llywodraeth y DU. Daeth Badman i'r casgliad fod y darpariaethau cyfreithiol a pholisi ar gyfer addysg yn y cartref yn y DU yn debygol o fod y mwyaf rhyddfrydig ymysg pob gwlad ddatblygedig, a bod hynny'n golygu mai ychydig iawn o amddiffyniadau sydd yno i blant o ran ansawdd addysg neu les a diogelwch. Argymhellodd, ymysg pethau eraill, gofrestr orfodol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref ac ymweliadau monitro rheolaidd.

Yn sgil argymhellion Badman, gwnaeth yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd gynt (yr Adran Addysg bellach) yn Lloegr gynigion i gyflwyno cofrestru gorfodol ac ymweliadau cartref, a hawl i blant gael eu gweld ar eu pen eu hunain. Roedd y rhain yn destun un o ymgyrchoedd lobio mwyaf effeithiol ein hoes. Cafodd Aelodau Seneddol nifer aruthrol o wrthwynebiadau gan addysgwyr yn y cartref. Yn sgil yr ymgyrch hon yn rhannol, adolygodd y Pwyllgor Dethol Seneddol yr argymhellion, a phenderfynodd eu bod yn ormodol. Tua'r un adeg, cafodd y nifer fwyaf erioed o ddeisebau, a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion, eu cyflwyno yn y senedd. Yn y pen draw, chafodd ddim un o gynigion Badman eu rhoi ar waith.

Ond er gwrthod yr argymhellion hyn, roedd pryderon ynglŷn â diogelwch a llesiant rhai plant a oedd yn cael eu haddysgu gartref yn dal i godi. Er enghraifft, yn 2015 nododd Ei Hanrhydedd y Barnwr Lynn Roberts mewn dyfarniad ynghylch person ifanc ag anableddau difrifol a oedd wedi cael ei esgeuluso'n ddifrifol gartref wrth gael ei "addysgu gartref", *Re S (a child with disabilities)* [2015] EWFC B40:

It is of great concern to me that it is possible for a child who is home-educated not to be seen in his home environment. It cannot be right and I shall want those responsible for home education locally to consider this and this judgment must be disclosed to the Education Department. It cannot be right that a school-educated child has his school premises inspected but that a home-educated child does not have his home inspected. As this case shows, such a child can be being educated in a harmful environment and the State neither knows nor acts for years. It must be, in my judgment, incumbent on the Home Education Service to visit and assess a child in his home environment. [para 25]

Yn ei sylwadau ar y dyfarniad, dywedodd Barry Sheerman AS, a oedd yn gadeirydd y Pwyllgor Dethol Seneddol ar Addysg am gyfnod hir:

If we do not take action, there will be tragic consequences that we will regret. People will say, just as they did with child neglect and Baby P, that we all knew what was going on and no one did anything to stop it... the law severely, and potentially dangerously, curbs local authorities' ability to monitor home-educated children (The Guardian, 2015)

Yn fuan ar ôl y datganiad hwn, gwnaeth olynydd Sheerman fel cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Addysg sylwadau hefyd:

I find it absolutely amazing people who are home educated are not registered as being home educated. It's an absolute scandal that that should be allowed. (Schools Week, 2015)

Felly nid marwolaeth arswydus Dylan Seabridge yw unig gyd-destun yr adroddiad hwn. Mae'n fwy cywir ystyried Dylan Seabridge yn un enghraifft o batrwm pryder sy'n cael ei ailadrodd ynghylch prinder cyfraniad proffesiynol o ran plant sy'n cael eu haddysgu gartref sy'n dioddef niwed difrifol. Efallai nad yw'r rhain yn arbennig o reolaidd, ond serch hynny, pan fo gweithwyr proffesiynol neu lunwyr polisi yn adolygu'r sefyllfa gyfreithiol, maent yn synnu gweld nad oes gofyniad i blant sy'n cael eu haddysgu gartref gael eu cofrestru, ac nad oes gan weithwyr proffesiynol hawl i'w cyfarfod, i arolygu priodoldeb y cartref nac i wneud yn siŵr bod y plentyn yn cael yr addysg mae ei rieni'n honni ei fod yn ei chael.

Ar y llaw arall, mae rhai wedi dadlau bod adnabod problemau diogelu ym maes addysg yn y cartref yn anodd. Mae Bhopal a Myers (2016) yn awgrymu bod nifer fach o achosion o esgeulustod neu gamdriniaeth wedi creu panig moesol, a bod addysg yn y cartref yn cael ei ddisgrifio'n aml fel perygl o ran amddiffyn plant. Mae rhai addysgwyr yn y cartref wedi dadlau:

much of the fear surrounding home education and safeguarding, stems from lack of understanding of existing powers and legislation and in some cases a lack of willingness to use those powers appropriately. (Charles-Warner, 2015:3)

Mae addysgwyr yn y cartref hefyd wedi 'gwrthod yn chwyrn' unrhyw awgrym fod cysylltiad rhwng addysg yn y cartref a phroblemau diogelu (Monk, 2009:169). Cafodd Adroddiad Badman(2009) ei feirniadu am ragdybio cysylltiad o'r fath o'r cychwyn cyntaf:

The [Badman] review ...was commissioned because of (unsubstantiated) allegations that home education was being used as a cover for child abuse. This concern meant that from the very beginning the review conflated education and child safeguarding issues. (Stafford, 2012:363)

Mae Conroy (2010) yn dadlau bod pryderon o'r fath ynghylch diogelu yn cael eu hecsbloetio er mwyn i'r Wladwriaeth allu mynd y tu hwnt i'w ffiniau, yn hytrach na

chyfrannu mewn ffordd sy'n cael ei rheoleiddio'n ofalus at achosion lle mae lles plentyn mewn perygl.

Cafodd yr adolygiad hwn ei gomisiynu yng ngoleuni'r ystyriaethau cymhleth yn y maes hwn. Y cylch gwaith yw darparu tystiolaeth ac, fel y bo'n briodol, argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer addysg yn y cartref yng Nghymru. Dyma amcanion yr adolygiad hwn:

- a. Adolygu'r ddeddfwriaeth, y strwythurau a'r canllawiau ymarfer yng Nghymru.
- b. Canfod y dystiolaeth bresennol yn y DU sydd wedi nodi pryderon ynglŷn ag addysg yn y cartref a'r themâu iechyd, diogelu neu lesiant.
- c. Canfod pa fesurau sydd wedi cael eu hargymell yn y dystiolaeth, a'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r peryglon a nodwyd ynghylch y themâu iechyd, diogelu neu lesiant.
- d. Canfod effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yng nghyswllt Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru
- e. Ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn llywio casgliadau o ran y newidiadau sydd eu hangen.

I gyflawni'r amcanion hyn, cafodd data eu casglu o bedair ffynhonnell:

- Adolygiad o dystiolaeth yn y DU ynghylch addysg yn y cartref a materion diogelu.
- Adolygiad o adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau achos difrifol o farwolaethau plant neu ddigwyddiadau difrifol lle cafodd addysg yn y cartref ei nodi fel problem.
- Cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys addysgwyr yn y cartref a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, grwpiau iechyd, elusenol a gwirfoddol, a Chomisiynwyr Plant Cymru a'r Alban.
- Arolwg ar-lein ar gyfer rhieni sy'n addysgu gartref

Mae'r adolygiad yn cloi gydag argymhellion ar gyfer gwella polisi ac ymarfer. Wrth gyflwyno ein canfyddiadau mae'r adroddiad yn cynnwys y rhannau canlynol:

- Crynodeb o'n dulliau casglu data (gwybodaeth lawn yn Atodiad A)
- Crynodeb o'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi (gwybodaeth fanylach yn Atodiad D)
- Adolygiad o'r llenyddiaeth ers 2000
- Dadansoddiad o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol
- Safbwyntiau addysgwyr yn y cartref
- Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol
- Trafodaeth ac Argymhellion

3.0 Dulliau

Roedd y data a gasglwyd yn cynnwys:

- adolygiad llenyddiaeth,
- dadansoddiad o nifer fach o adolygiadau achos difrifol lle cafodd addysg yn y cartref ei nodi fel problem,
- cyfweiliadau ffôn â gweithwyr proffesiynol ac addysgwyr yn y cartref,
- arolwg ar-lein ar gyfer addysgwyr yn y cartref.

Yma ceir gwybodaeth gryno am bob un o'r rhain. Mae manylion llawnach i'w gweld yn Atodiad A.

3.1 Adolygiad llenyddiaeth

Defnyddiwyd dull adolygiad cyflym er mwyn gallu chwilio a dadansoddi'n drwyadl ac yn strwythuredig o fewn amserlen gyfyngedig yr adolygiad (gweler Thomas, Newman a Sandy, 2013). Defnyddiodd y strategaeth chwilio amrywiaeth o gronfeydd data a ffynonellau data electronig i sicrhau bod dogfennau polisi diweddar, llenyddiaeth lwyd a thystiolaeth academaidd a gyhoeddwyd ers 2000 yn cael eu cynnwys. Cafodd y broses chwilio ei hategu gan chwilio ar y rhynggrwyd a chwilio drwy gyfnodolion â llaw, yn ogystal ag argymhellion gan weithwyr proffesiynol. Mae Atodiad A yn darparu diagram llif a gwybodaeth bellach am y termau chwilio a'r eithriadau.

Cafodd 96 o ffynonellau posibl eu nodi, a chafodd 41 o'r rheini eu heithrio gan nad oeddent yn cyfateb i'r paramedrau chwilio. Felly cafodd 57 o ffynonellau eu cynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae'r prif ganfyddiadau wedi'u crynhoi yng nghyswllt y themâu a ddaeth i'r amlwg.

3.2 Adolygiad o Adolygiadau Achos Difrifol ac Adolygiadau Ymarfer Plant

Yng Nghymru a Lloegr, mae marwolaethau plant neu ddigwyddiadau difrifol yn cael eu hadolygu er mwyn dysgu gwersi o ran polisi ac ymarfer. Adolygiadau Ymarfer Plant yw enw'r adolygiadau hyn yng Nghymru, ac Adolygiadau Achos Difrifol yn Lloegr. Nid oes storfa mae modd chwilio drwyddi ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru. Yn hytrach, cafodd cwestiwn ei ychwanegu at bob cyfweiliad â gweithiwr proffesiynol er mwyn pennu a oedd yr ymatebydd yn ymwybodol o unrhyw adolygiadau achos yn ymwneud â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref. Cafodd pedwar achos ei ddatgelu yn sgil hynny, ond dim ond dau adolygiad ymarfer yr oedd modd cael gafael arnynt. Er mwyn canfod Adolygiadau Achos Difrifol, aethom ati i

chwilio drwy storfa'r NSPCC o adolygiadau achos cenedlaethol gan ddefnyddio'r term chwilio 'home education'. Cafodd un o'r 16 adroddiad a gynhyrchwyd ei eithrio gan mai'r rhiant, nid y plentyn yn yr adroddiad oedd wedi cael ei addysgu gartref. O'r gweddill, roedd adroddiadau ar gael ar gyfer 11 o'r 15. Felly cafodd 13 eu hystyried yn yr adolygiad o Adolygiadau Achos, ond roedd addysg yn y cartref yn ymddangos yn ymylol mewn dau o'r teuluoedd hyn. Felly mae'r adolygiad yn dadansoddi 11 Adolygiad Ymarfer Plant/Adolygiad Achos Difrifol.

3.3 Cyfweiliadau: Gweithwyr Proffesiynol

Roedd y cyfweiliad ffôn (Atodiad B) a'r arolwg ar-lein (Atodiad C) yn gwahodd yr ymatebwyr i roi eu barn am y ddarpariaeth addysg yn y cartref bresennol yng Nghymru, a'r ystyriaethau o ran diogelu a lles plant. Roedd y cyfweiliad a'r holiadur yn dechrau drwy ofyn i randdeiliaid am faint o gyswllt sydd rhwng addysgwyr yn y cartref a'r awdurdod lleol, y rhesymau dros gysylltu a chryfderau a gwendidau'r mesurau presennol. Roedd yr ail adran yn canolbwyntio ar ddiogelu, gan gynnwys a yw'r mesurau presennol yn ddigonol, ac a yw'n briodol i staff awdurdod lleol sy'n gyfrifol am addysg yn y cartref asesu lles plant.

Cafodd 82 o randdeiliaid eu gwahodd i gael eu cyfweld. Roeddent yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector. Ymatebodd 45 o'r rhain (cyfradd ymateb o 55%). Fe wnaeth cynrychiolwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan yn y cyfweiliadau ffôn. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Addysg, Rheolwyr Gwasanaeth ar gyfer dysgu, cynhwysiant a diogelu, ynghyd â chydlynwyr a Swyddogion Lles Addysg. Cyfrannodd tri o'r chwe Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant at yr adolygiad, fel y gwnaeth chwech o'r un ar ddeg cynrychiolwr diogelu o'r Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru ac, ar ôl cysylltu ag addysgwr yn y cartref yn yr Alban, Comisiynydd Plant yr Alban.

3.4 Cyfweiliadau: Addysgwyr yn y cartref

Gwnaethon ni nodi grwpiau cefnogi a sefydliadau addysg yn y cartref yng Nghymru. Ymysg y tri a nodwyd, cyhoeddodd un ddatganiad ysgrifenedig (Atodiad E), dywedodd un ei fod yn cael anawsterau technegol, ac ni ymatebodd y llall. O ran y grwpiau cefnogi addysg yn y cartref, nid oedd modd anfon 4 o'r 15 e-bost oherwydd fod y manylion cyswllt yn hen. Ni dderbyniodd un o'r 11 arall y gwahoddiad i gael eu cyfweld. Felly nid yw un o'r chwe addysgwr yn y cartref sydd wedi cael eu cyfweld yn perthyn i'r grwpiau hyn. Cafodd pedwar eu canfod drwy'r awdurdod lleol, un drwy

grŵp gwirfoddol (ddim yn benodol i addysgwyr yn y cartref), a gwirfoddolodd un pan glywodd am yr ymchwil. Felly, mae'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn ymwneud yn bennaf ag ymatebwyr o'r sector gwirfoddol ac o wasanaethau cyhoeddus.

3.5 Ymatebwyr i'r arolwg ar-lein

Roedd yr arolwg ar-lein wedi'i anelu at addysgwyr yn y cartref. Mae'r 134 o ymatebion i'r arolwg yn darparu amrywiaeth o safbwyntiau ar addysg yn y cartref a materion diogelu - ac mae'n sampl fawr o ran ymchwil ar y maes hwn yn y DU - ond nid ydym yn honni eu bod yn gynrychioladol gan nad ydym yn gwybod sawl unigolyn oedd wedi cael yr holiadur, na sut maent yn cymharu â'r boblogaeth gyfan o addysgwyr yn y cartref.

Er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau, gwelsom ei bod yn haws cyfuno ymatebion addysgwyr yn y cartref i'r cyfweiliadau a'r arolwg ar-lein.

4.0 Crynodeb o'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi

Mae trafodaeth gyfreithiol gynhwysfawr ynghylch addysg yn y cartref a diogelu i'w gweld yn Atodiad D. Yr hyn a geir yma yw crynodeb o gyd-destun cyfreithiol addysg yn y cartref a diogelu.

4.1 Addysg

Mae hawl plentyn i gael addysg wedi'i nodi yn Erthygl 2, Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac Erthygl 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae rôl rhieni a'r Wladwriaeth yn rhan hanfodol o'r Confensiynau hyn. Mae gan rieni hawl i sicrhau bod eu plant yn cael eu haddysgu a'u magu (h.y. yn cael bywyd preifat a theuluol) mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u credoau crefyddol, athronyddol a diwylliannol. Yng Nghymru, mae'n rhaid i rieni sicrhau bod eu plant yn cael addysg amser llawn addas ac effeithlon drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall (gweler adran 7 Deddf Addysg 1996)⁵.

Mae'n rhaid i rieni roi gwybod i'r awdurdod lleol os ydynt yn bwriadu tynnu plentyn o'r ysgol yn seiliedig ar ddarpariaeth addysgol, ond nid oes gorfodaeth arnynt i gwrdd â chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol nac i adael iddynt ddod i mewn i'w heiddo. Fodd bynnag mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod plant yn cael addysg addas, neu fod addysg addas ar gael iddynt (gweler adran 436A Deddf Addysg 1996)⁶. Pan fo angen, gall awdurdodau lleol gyhoeddi neu wneud cais am Orchmynion Mynychu'r Ysgol a Gorchmynion Goruchwylio Addysg⁷. Canllawiau anstatudol (Llywodraeth Cymru, 2017) sy'n sail i'r dull ymgysylltu sydd orau gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Yn ogystal â'r Ddeddf Addysg, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi addysg fel maes llesiant. O ganlyniad, mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw priodol i les addysg plentyn fel rhan o'u gwaith (mae hyn yn wir waeth pa fath o addysg mae'r plentyn yn ei chael). Mae modd i rieni dderbyn neu wrthod asesiadau a gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer amrywiaeth o

⁵ Gweler *R v Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth, ex parte Talmud Torah Machzikei Hadass School Trust* Times Law Reports 12 Ebrill 1985 am esboniad o'r termau 'effeithlon' ac 'addas'.

⁶ Ar hyn o bryd, nid oes gorfodaeth ar Estyn i fonitro prosesau cefnogi ac asesu awdurdodau lleol ar gyfer addysg yn y cartref.

⁷ Mae Gorchmynion Mynychu'r Ysgol yn cael eu disgrifio yn adran 437 Deddf Addysg 1996, a Gorchmynion Goruchwylio Addysg yn adran 36 Deddf Plant 1989.

anghenion gofal a chefnogaeth o dan y Ddeddf hon (gweler Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf, a'r Codau Ymarfer ategol).

4.2 Diogelu

Yn ogystal â sicrhau bod plant yn cael addysg, mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan y Wladwriaeth ddyletswydd i amddiffyn plant rhag trais, camdriniaeth, esgeulustod, camfanteisio a thriniaeth wael gan rieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt. Yn gryno, mae'r hawl i fywyd preifat a theuluol yn hawl amodol sy'n caniatáu i'r Wladwriaeth ymyrryd pan fo angen, cyhyd â bod yr ymyriad yn gymesur ac yn unol â'r gyfraith ar gyfer nod dilys (cyfeiriwch at Ddeddf Hawliau Dynol 1998).

O ran plant yng Nghymru, mae hawl y Wladwriaeth i ymyrryd wedi'i hwyluso'n bennaf drwy Ddeddf Plant 1989⁸. O dan adran 47, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ymchwilio os oes 'ganddynt achos rhesymol dros amau bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol'. O ganlyniad i ymchwiliadau; (i) *gall* y plentyn a'i deulu gael cefnogaeth ar sail wirfoddol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; (ii) *gallai* enw'r plentyn gael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, neu (iii) *efallai* y gwneir cais am orchymyn llys dan Rannau 4 a 5 o Ddeddf Plant 1989.

Mae'r dyletswyddau ymchwilio hyn yn berthnasol i bob plentyn sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol. Fel y nodir yn y canllawiau anstatudol presennol ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017), nid yw addysg yn y cartref yn rheswm ynddo'i hun dros ystyried bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Fodd bynnag pan fydd plentyn 'wedi'i guddio' rhag gwasanaethau (h.y. does dim cysylltiad â gwasanaethau addysg, iechyd nac asiantaethau statudol eraill), boed hynny drwy fwriad ai peidio, nid yw'n glir sut mae modd i'r Wladwriaeth gyflawni ei dyletswyddau dan Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (*Governments must do all they can to ensure that children are protected from all forms of violence, abuse, neglect and bad treatment by their parents or anyone else who looks after them*). Yn yr un modd, mae'r pŵer cyfyngedig i fonitro darpariaeth addysg yng nghyd-destun addysg yn y cartref yn golygu ei bod yn gallu bod yn anodd i'r Wladwriaeth wybod a yw'r addysg sy'n cael ei darparu yn addas ac yn effeithlon.

⁸ Cyfeiriwch hefyd at Ddeddf Plant 2004 a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (Llywodraeth Cymru, 2006).

5.0 Adolygiad cyflym o'r dystiolaeth bresennol ar addysg yn y cartref a llesiant plant

5.1 Pwy sy'n cael addysg yn y cartref?

Gan nad oes gofyniad cyfreithiol i gofrestru addysg yn y cartref, mae'r ffigurau swyddogol yn seiliedig ar y niferoedd mae'r awdurdod lleol yn gwybod amdanynt. O ran plant sydd wedi mynychu'r ysgol, mae Education (Pupil Registration) (England) (Amendment) Regulations 2016, yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi gwybod i'r awdurdod lleol pan fydd enw plentyn yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr mynediad. Mae rhai wedi cwestiynu pa mor ddibynadwy yw'r ffigurau hyn, gyda Hopwood, O'Neill, Castro, & Hodgson (2007) yn dweud y gallai rhai plant fynd ar goll wrth symud i awdurdod lleol arall, wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a bod rhannu gwybodaeth yn gallu digwydd ar sail ad hoc. O ran plant sy'n cael eu haddysgu gartref ers eu geni, nid oes gofyniad i gofrestru â'r awdurdod lleol, er gall rhai teuluoedd wneud hynny'n wirfoddol. Mae canfyddiadau'r ymchwili yn awgrymu nad yw'r ffigurau swyddogol yn nodi pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref yn gywir. Er enghraifft, canfu Rothermel (2002) fod 31% o deuluoedd (N=206) yn anhysbys i'r awdurdod lleol. Felly, nid oes ffigurau dibynadwy ar gael ar gyfer nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod rhwng 45,250 a 150,000 o blant yn cael eu haddysgu gartref yn y DU, gydag 1% o deuluoedd â phlant dibynnol sy'n cael eu haddysgu gartref ar ryw adeg (Arora, 2006; Hopwood, O'Neill, Castro, & Hodgson, 2007; Smith & Nelson, 2015). Y cydsyniad cyffredinol yw bod y niferoedd yn cynyddu, gydag un addysgwr yn y cartref yn amcangyfrif cynnydd blynyddol o tua 17% (Fortune-Wood, 2015), ac yn ôl adolygiad o gofnodion awdurdodau lleol, mae nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref wedi dyblu dros y chwe blynedd ddiwethaf (Schools Weekly, 2017). Yng Nghymru, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol dros y chwe blynedd ddiwethaf, o 986 i 1,724 (Llywodraeth Cymru, 2017b). Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y teuluoedd mae'r awdurdod lleol yn gwybod amdanynt. Felly, mae'n ymddangos yn rhesymol amcangyfrif bod rhwng 2,000 a 3,000 o blant yn cael eu haddysgu gartref yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli 0.4%-0.6% o'r 451,966 o blant a phobl ifanc rhwng 5 ac 17 oed yng Nghymru (yn seiliedig ar ffigurau 2015 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o addysgwyr yn y cartref yn deuluoedd Prydeinig gwyn (Association of Directors of Children's Services, 2016; Hopwood et al., 2007;

Arora, 2002), ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n darparu addysg yn y cartref yn famau (Kendall a Taylor, 2016; Parsons a Lewis, 2010; Morton, 2007). Yn ôl pob golwg, mae'r niferoedd yn debyg o ran bechgyn a merched, ac mae mwy o blant o oedran uwchradd yn cael eu haddysgu gartref (Hopwood et al, 2007). Mae Burke (2007) yn nodi bod deddfwriaeth y DU yn seiliedig ar y dybiaeth fod gan deuluoedd ddau riant, gyda'r potensial i ariannu addysg yn y cartref ar un incwm. Ond yn ôl ymchwil Arora (2006), roedd traean y sampl yn rhieni sengl, ac mae eraill wedi canfod bod teuluoedd yn cael trafferth ariannu addysg yn y cartref (Kendall a Taylor, 2016; Parsons a Lewis, 2010).

5.2 Pam mae plant yn cael eu haddysgu gartref?

Mae'r boblogaeth addysg yn y cartref yn amrywiol. Ymhlith y rhesymau dros addysg yn y cartref mae credoau ideolegol, diwylliant, crefydd, addysgeg, iechyd, anghenion addysgol arbennig, bwlio, neu ffactorau eraill sy'n ymwneud â'r ysgol, fel y pellter i'r ysgol neu anfodlonrwydd ar yr addysgu (Thomas, dyfynnwyd gan Axis Educational Trust, 2012; Llywodraeth Cymru, 2017; Nelson, 2014; Morton, 2010; Burke, 2007; Rothermel, 2002). Mae aelodaeth o grwpiau cefnogi a sefydliadau addysg yn y cartref yn dueddol o fod yn seiliedig ar y cysylltiadau hyn, er nad yw pob addysgwyr yn y cartref yn ymwneud â grwpiau o'r fath (Ofsted, 2010; Burke, 2007; Rothermel, 2003).

Mae'r syniad o 'addysg ddewisol yn y cartref' wedi cael ei herio gan ymchwil Burke (2007) mewn Bwrdeistref yn Llundain, sy'n awgrymu bod nifer o rieni yn teimlo eu bod wedi cael eu gorfodi o addysg o ganlyniad i gredoau crefyddol neu anfodlonrwydd ar yr ysgol ynghylch eu darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig, bwlio ac anghydfodau â'r awdurdod lleol (gan gynnwys un posibilrwydd o achos cyfreithiol yn sgil absenoldeb, a dau achos yn ymwneud â phroblemau amddiffyn plant parhaus). Ar gyfer y teuluoedd hyn, nid oedd bwriad i ddechrau i addysgu yn y cartref ac, mewn rhai achosion, nid oedd y teuluoedd yn llawn ddeall hyd a lled eu cyfrifoldebau (Burke, 2007). Ymhlith y rheini sydd yn teimlo eu bod wedi cael eu gorfodi o'r ysgol, efallai fod rhai rhieni'n teimlo nad oedd ganddynt ddewis ond datgofrestru, ac efallai fod eraill yn cael eu hannog i ddatgofrestru, neu'n gwneud hynny trwy orfodaeth (Pwyllgor Plant, Ysgolion a Theuluoedd Tŷ'r Cyffredin, 2009); Ofsted, 2010; McIntyre-Bhatty, 2008). Yn yr achosion hyn, gall presenoldeb, ymddygiad neu gyrhaeddiad gwael yn yr ysgol achosi i'r ysgol neu'r awdurdod lleol annog rhieni i ddatgofrestru eu plant (Ofsted, 2010, McIntyre-Bhatty, 2008; Anderson et al, 2002). Yn olaf, efallai fod rhai rhieni'n dewis addysg yn y cartref fel ffordd o

osgoi erlyniad yn sgil absenoldeb o'r ysgol (Ofsted, 2010). Yn ôl pob golwg, y rheini sy'n gadael ysgol yw'r grŵp sy'n cynyddu gyflymaf ac yn sbarduno'r cynnydd cyflym yn y nifer sy'n addysgu gartref (Schools Weekly, 2017).

Mae llawer o'r rheini sy'n datgofrestru am gyfnod yn ailgofrestru eu plant mewn ysgol yn nes ymlaen. Yn ôl astudiaeth Arora (2002), roedd 41 o'r 65 o deuluoedd sy'n addysgu gartref yn Kirklees wedi ailgofrestru eu plentyn mewn ysgol ddeunaw mis yn ddiweddarach. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw astudiaeth sy'n archwilio'r rheini a oedd wedi ailgofrestru, a'u profiadau o addysg yn y cartref (Jennens, 2011). Er hynny, mae Burke (2007) a Smith a Nelson (2016) yn awgrymu bod y mwyafrif o addysgwyr yn y cartref yn gwneud hynny dros dro.

Mae'r rhesymau amrywiol dros addysgu gartref yn golygu ei bod yn anodd rhoi plant sy'n cael eu haddysgu gartref mewn categorïau. Mae rhai yn defnyddio'r gwahaniaeth eang rhwng y rheini sy'n addysgu gartref yn hytrach nag anfon plentyn i'r ysgol, a'r rheini sy'n datgofrestru o'r ysgol, ond mae eraill wedi datgelu gwahaniaethau o fewn y grwpiau hyn, yn ogystal â *rhyngddynt*. Er enghraifft, efallai fod y rheini sy'n addysgu gartref oherwydd credoau crefyddol yn wahanol i'w gilydd o ran a ydynt yn addysgu athrawiaeth grefyddol, neu'n dewis ymchwiliad dan arweiniad y plentyn yn lle (Rothermel, 2003). Mae teuluoedd yn symud rhwng categorïau yn aml, neu'n perthyn i fwy nag un ar yr un pryd.

O ran y teuluoedd sy'n datgofrestru eu plant o'r ysgol, mae'n ymddangos mai Anghenion Addysgol Arbennig a bwlio yw'r prif resymau dros addysgu yn y cartref. Er enghraifft, canfu Brown, Clery a Ferguson (2011) mai'r prif resymau a roddwyd dros addysg yn y cartref oedd nad oedd y plentyn yn hoffi'r ysgol neu nad oedd yn addas iddi oherwydd yr addysgu (54%), cyfyngiadau academaidd neu gymdeithasol yr ysgolion yn eu hardal (52%) a/neu fwlio (43%). Mae'r adrannau nesaf yn ystyried tri o'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddir dros addysg yn y cartref, sef bwlio, anghenion arbennig a bod yn aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

5.2.1 Bwlio

Mae Brown et al (2011) yn amcangyfrif bod cynifer ag 1 plentyn o bob 5 yn cael eu haddysgu gartref o ganlyniad i fwlio. Mae'n ymddangos bod bwlio wrth wraidd anfodlonrwydd ar yr ysgol, boed hynny'n arwain yn uniongyrchol at ddatgofrestru (Smith a Nelson, 2015; Wray a Thomas, 2013; Morton, 2010; Hopwood et al, 2007; Arora, 2002; Anderson et al, 2002), neu'n anuniongyrchol, wrth i bryderon rhieni eu

hatal rhag anfon eu plant i'r ysgol (Bhopal a Myers, 2016). Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd ger bron y Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Fwlio 2011-2016 (2017), nid yw ysgolion yn cydnabod y gallai rhai plant 'ddiflannu' o'r ysgol yn sgil bwlio difrifol. Efallai fod rhai ysgolion yn mynd ati i annog datgofrestru, ac eraill yn dewis nodi pryder fel achos y diflaniad, yn arbennig os yw'n digwydd tua'r adeg mae'r plentyn yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd (Hopwood et al, 2007). Yn yr achosion hyn, mae addysg yn y cartref yn ddihangfa rhag sefyllfa anodd, yn hytrach nag adlewyrchu dewis neu allu'r rhieni, gan gynnwys gallu ariannol, academaidd a/neu emosiynol i gefnogi eu plentyn a'i addysgu gartref.

5.2.2 Anghenion Addysgol Arbennig

O ran plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), mae'n ymddangos mai anfodlonrwydd ar ysgolion yw'r prif reswm dros addysgu yn y cartref (Parsons a Lewis, 2010; Morton, 2010; Hopwood et al, 2007; Rothermel, 2004; Arora, 2006). Gallai'r anfodlonrwydd hwn ddeillio o agwedd ysgolion at rieni a'u parodrwydd i weithio gyda nhw (Kendall a Taylor, 2016) a/neu eu hagwedd at y plentyn a'u parodrwydd i weithio gyda'r plentyn i ddiwallu ei anghenion cymdeithasol, emosiynol ac addysgol (Kendall a Taylor, 2016; Parsons a Lewis, 2010; Arora, 2006), i reoli materion ymddygiadol neu ddarparu ar gyfer anghenion addysgu arbennig penodol, megis y rheini ar y sbectrwm awtistiaeth neu'r dawnus a'r talentog (Kendall a Taylor, 2016; Arora, 2014; Morton, 2010). Felly, daw Morton (2010) i'r casgliad nad yw'r penderfyniad i addysgu yn y cartref yn cael ei wneud yn ddifeddwl, ac mae'n cael ei ystyried yn 'gam eithaf' ar ôl i rieni geisio anfon eu plant i'r ysgol am gyfnod, ond gweld nad oedd hynny'n llwyddiannus. Gall effaith ymgeisiau aflwyddiannus o'r fath wneud niwed i iechyd a llesiant emosiynol y plentyn (Kendall a Taylor, 2016; Taylor, Kendall a Forrester, 2011).

Mae angen cefnogaeth arbenigol ar rai teuluoedd AAA, ond yn ôl yr adroddiad Support for Home Education (Education Committee, 2012), ceir arferion gwahaniaethol ar draws awdurdodau lleol, gyda rhai yn gwrthod darparu cymorth pan fydd plentyn yn cael ei addysgu gartref. Mae hyn yn tynnu'n groes i'r gofyniad awdurdod lleol i wneud yn siŵr y darperir ar gyfer y plentyn, a bod addysg yn diwallu'r angen hwnnw (Pwyllgor Addysg, 2012). Er hynny, mae'n ymddangos bod hwn yn arfer cyffredin. Canfu Arora (2003) nad oes gan blant sy'n cael eu haddysgu gartref yr un mynediad at wasanaethau cefnogi â phlant ysgol. Mae'n dadlau y dylai seicolegwyr addysgol gefnogi plant sy'n cael eu haddysgu gartref o ganlyniad i fwlio, anawsterau dysgu, AAA neu broblemau ymddygiadol, ac archwilio'r dulliau addysgu

a dysgu mae addysgwyr yn y cartref yn eu defnyddio, yn arbennig y rheini sy'n teilwra addysg i anghenion plentyn. Mae'r diffyg cefnogaeth i blant sy'n cael eu haddysgu gartref hefyd yn rhoi'r baich ariannol ar gyfer gwasanaethau o'r fath, fel therapi lleferydd ac iaith, neu ffisiotherapi, ar rieni (Taylor, Kendall a Forrester, 2011). Mae mynediad gwahaniaethol i'w weld hefyd yn y monitro iechyd sy'n cael ei gynnig mewn ysgolion fel arfer (Ofsted, 2010). Mae'n ymddangos felly nad yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn elwa ar wasanaethau sy'n ymwneud ag addysg, a'u bod hefyd yn llai tebygol o gael mynediad at rywfaint o ddarpariaeth monitro a gwasanaethau cyffredinol at ddibenion iechyd.

5.2.3 Sipsiwn a Theithwyr

Mae cyfran uchel o blant Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu haddysgu gartref, yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae mwy nag un rheswm dros hyn, ac er bod ffordd o fyw a diwylliant yn ffactorau yn aml, mae profiadau negyddol o fwlio neu ddiffyg hyblygrwydd ysgolion hefyd yn cyfrannu (Bhopal a Myers, 2016; Fensham-Smith, 2014; D'Arcy, 2012, 2014). Mae plant Sipsiwn a Theithwyr yn dioddef lefelau uchel o fwlio, hiliaeth, gwahaniaethu a diffyg dealltwriaeth o'u diwylliant, ac mae disgwyliadau academaidd gweithwyr proffesiynol ar eu cyfer yn is nag ydynt ar gyfer plant eraill. Mae anghydraddoldebau o'r fath yn eithrio plant agored i niwed yn y gymuned yn benodol, megis y rheini ag anghenion arbennig (D'Arcy, 2014). Ar ben hynny, mae cysylltiad rhwng cyfoeth rhieni ac ansawdd y ddarpariaeth addysg wedi cael ei ganfod (D'Arcy, 2012). Roedd teuluoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn ei chael hi'n anoddach addysgu yn y cartref, ac yn disgwyl i'r Wladwriaeth ddarparu addysg mewn amgylchedd diogel, heb y bwlio a'r gwahaniaethu a geir mewn ysgolion (Bhopal a Myers, 2016). Roedd y teuluoedd hyn hefyd yn llai tebygol o ymuno â sefydliadau a grwpiau addysg yn y cartref o ganlyniad i'r canfyddiad nad oes ganddynt ddigon o ddealltwriaeth a gwybodaeth am ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr.

5.3 Prif Bwyntiau

- Dim ond cyfran fach o blant sy'n cael eu haddysgu gartref - 2,000-3,000 yng Nghymru efallai
- Mae arwyddion fod y niferoedd yn codi'n sylweddol - mae'n bosibl eu bod wedi dyblu dros y chwe blynedd ddiwethaf

- Maent yn grŵp amrywiol o blant, sy'n cynnwys y rheini mae eu rhieni wedi penderfynu ar addysg yn y cartref ers eu geni, a grŵp mwy sy'n gadael yr ysgol. Yn aml, mae'r rhesymau dros blant yn gadael yr ysgol yn cynnwys bwlio, anghenion ychwanegol neu blentyn yn cael problemau yn yr ysgol
- Mae plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn dueddol o gael mynediad salach at y gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol sy'n cael eu darparu i blant mewn ysgol

Dadansoddiad o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol

Fel y nodwyd ar y dechrau, mater dadleuol yw cysylltu addysg yn y cartref â diogelu plant. Yn sgil y feirniadaeth hallt cafodd adolygiad yr NSPCC (2014) o addysg yn y cartref a'u hadolygiadau achos gan rai addysgwyr yn y cartref, mae'r adroddiad wrthi'n cael ei ddiwygio. Un enghraifft o hyn yw Charles-Warner (2015) (addysgwr yn y cartref o ogledd Cymru). Mae ei dadansoddiad o'r un adolygiadau achos yn dod i'r casgliad fod addysg yn y cartref yn cael ei defnyddio fel bwch dihangol, ac mai camenw yw 'anweledigrwydd' y plant hyn, gan fod gwasanaethau'n ymwybodol o nifer o'r plant.

Dyma gasgliad adolygiad teirblwydd Sidebotham et al (2016) o Adolygiadau Achos Difrifol, a oedd yn cynnwys ystyriaeth o bedwar teulu lle roedd y plant wedi cael eu haddysgu gartref:

It is not home education per se that is the issue here but the isolation from peers, teachers and agencies who could provide a protective function, and if any abuse or neglect is present this may continue undetected for prolonged periods... If there is no requirement for any professional to see a child who is being home educated, or to scrutinise the quality of their education and welfare in the same way as would be expected in a school, any deficits will not be picked up. This can be compounded if the parents also choose to opt out of universal health services for their child (Sidebotham et al 2016:94)

Roeddent yn dadlau pe bai'r plant yn y nifer fach hon o achosion wedi bod yn yr ysgol, byddai staff wedi sylwi ar yr arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod, ac wedi rhoi gwybod i staff gofal cymdeithasol.

Yng ngoleuni'r mathau hyn o sylwadau, aethom ati i gasglu cynifer o adolygiadau lle nodwyd addysg yn y cartref ag yr oedd modd (gweler yr adran dulliau). Ar ôl eithrio dau Adolygiad Achos Difrifol, lle nad oedd cysylltiad pendant ag addysg yn y cartref, cafodd 11 adolygiad o Gymru a Lloegr eu dadansoddi i ganfod y cyfraniad yr oedd addysg yn y cartref wedi'i wneud i broblemau o ran llesiant y plant hyn. Mae enwau'r adolygiadau, y rheswm a gyflwynir a chrynodeb byr iawn o'r elfen addysg yn y cartref i'w gweld yn Nhabl 1.

Tabl 1: Trosolwg o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol

	Enw'r Adolygiad	Crynodeb o'r Rheswm dros Adolygu a Gyflwynir	Elfen Addysg yn y Cartref
1	W – 2013 - Amrywiol	Y fam wedi semenu'r plentyn mabwysiedig hynaf yn artiffisial ac wedi ceisio mabwysiadu'r babi. Camdriniaeth ac esgeulustod tymor hir wedi'u datgelu yn yr ymchwiliad	Cafodd addysg yn y cartref (HE) ei nodi fel elfen allweddol, gan ganiatáu i'r fam gyfyngu ar gyswllt â gweithwyr proffesiynol, a rheoli a cham-drin plant
2	Plentyn Y – Leeds - 2015	Bu farw babi, yr achos yn ansicr ond roedd yn dioddef o ddiffyg maeth. Materion esgeulustod cysylltiedig o ran y plant hŷn.	HE yn rhan fach o ddarlun cymhleth. HE yn dilyn presenoldeb gwael iawn; wedi'i ddefnyddio fel ffordd o dynnu o'r ysgol mewn ymateb i wasanaethau'n ymyrryd.
3	Megan – Thurrock - 2016	Unigolyn 17 oed. Problemau iechyd a chalon difrifol, wedi'u cysylltu â gordewdra plant ac esgeulustod cronig tymor hir.	Patrwm hir o esgeulustod. HE yn ymateb i fwlio canfyddedig a/neu'r ysgol yn nodi anghenion gofal a chefnogaeth. CSC yn dod i ben pan fydd plant yn cael eu haddysgu gartref.
4	ST – Enfield - 07	Bu farw ST yn 16 oed. Y corff wedi'i adael am 4 mis felly dim modd pennu'r achos.	Ychydig iawn o wybodaeth broffesiynol am blant. HE yn fater allweddol. Iselder difrifol y fam, a oedd heb ei ganfod, yn ganolog i achos "rhyfedd a gofidus"
5	Sion D – Sir y Fflint - 2012	Marwolaeth plentyn ag anghenion ychwanegol. Tystiolaeth o esgeulustod.	HE wedi cyfrannu at y diffyg cyswllt proffesiynol a gwybodaeth am y plentyn
6	Teulu A – Southampton - 2001	Patrwm o esgeuluso a cham-drin plant yn ddifrifol	Y tad camdriniol wedi defnyddio HE fel rhan o strategaeth i gyfyngu ar gyswllt proffesiynol â'r plentyn
7	KI - Birmingham - 2010	Plentyn wedi marw yn 7 oed, wedi dioddef camdriniaeth a diffyg maeth difrifol.	Anghenion gofal a chefnogaeth wedi'u nodi cyn HE. HE yn elfen allweddol o dynnu'n ôl o graffu proffesiynol
8	Conwy – Fforwm Proffesiynol	Plentyn wedi marw yn 17 oed. Yn ddifrifol or-dew ac yn amlwg wedi'i esgeuluso, er nad oedd hynny'n	HE wedi cyfrannu at beidio â chanfod problemau'r plentyn a'r ymateb proffesiynol cyfyngedig

	Amlasiantaeth - 2015	gysylltiedig â'r farwolaeth o reidrwydd	
9	Dylan S.- CYSUR - 2015	Plentyn wedi marw - y llwg (scurvy), diffyg maeth, esgeulustod	HE yn ffactor allweddol o ran trafferthion yr asiantaeth yn gwybod pa broblemau oedd gan y plentyn a sut i ymateb yn briodol
10	Mrs Spry – Swydd Gaerloyw - 2007	Rhiant mabwysiadu a gofalwr maeth a oedd wedi cam-drin plant mewn gofal.	HE wedi lleihau goruchwyliaeth o'r plant a'i gwneud yn anoddach adnabod y gamdriniaeth
11	Plentyn S – South Tees - 2008	Camdriniaeth ddifrifol iawn gan fam yn ymwneud â salwch a achoswyd yn fwriadol (gan gynnwys gwenwyno)	Rhestr faith o wendidau proffesiynol. HE yn rhan o ddarlun lle roedd y fam yn rheoli'r plentyn a mynediad ato, ond yn un rhan o sefyllfa gymhleth.

Gellir rhannu'r adolygiadau yn ddau grŵp:

- Tynnu'n ôl: Y rheini lle roedd addysg yn y cartref yn ymateb i bryderon hysbys am blentyn neu blant, neu'n datblygu ohonynt (2,3,6,7);
- Osgoi: Y rheini lle roedd addysg yn y cartref wedi cyfrannu at wybodaeth broffesiynol gyfyngedig am blentyn neu blant (1,4,5,8,9,10,11)

Mae nodweddion y grwpiau hyn yn dra gwahanol.

6.1 Tynnu'n ôl:

Ymysg y teuluoedd hyn roedd camdriniaeth ac esgeulustod dychrynlyd o ddifrifol, megis llwgu a churo creulon Khyra Ishaq, neu'r gamdriniaeth oedd bron yr un mor erchyll (er nad oedd yn angheuol) yn rheulu A. Yn y teuluoedd eraill, hyd a lled yr esgeulustod oedd y nodwedd fwyaf nodedig, gydag amodau cartref budr, anghenion plant ddim yn cael eu diwallu a phresenoldeb gwael yn yr ysgol dros sawl blwyddyn. Roedd gan yr holl deuluoedd hyn ddwy brif nodwedd yn gyffredin. Yn gyntaf, roedd gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys Gwasanaethau Plant, yn ymwybodol o'r pryderon cyn i'r plant gael eu tynnu o'r ysgol. Yn ail, roedd addysg yn y cartref yn ymddangos yn rhan o batrwm o dynnu'n ôl o wasanaethau er mwy osgoi rhagor o ymyriad.

Nid oedd y rhain yn blant 'anweledig' mewn unrhyw ffordd. Roeddent yn dra chyfarwydd, fel yr oedd y pryderon am eu gofal. Mae'n anodd gwybod yn sicr beth oedd cymhellion y teuluoedd hyn i addysgu gartref. Yn gyffredinol, roedd y rhieni'n

dweud mai'r rheswm oedd anfodlonrwydd ar elfennau o'r ddarpariaeth ysgol, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'r rheini yn yr adolygiad llenyddiaeth. Roedd mam Khyra Ishaq yn honni hiliaeth a bwlio, ac roedd wedi cael ffræ ddifrifol ag athro. Soniodd y tad yn rheulu A am broblemau tebyg. Cafodd bwlio ei nodi yn achos Megan hefyd. Eto, wrth allu edrych yn ôl, mae'n anodd peidio ag ystyried addysg yn y cartref yn ymgais i dynnu'n ôl o graffu proffesiynol, un ai i ddwysáu'r rheolaeth a'r gamdriniaeth a oedd yn digwydd, neu i rwystro gweithwyr proffesiynol rhag canfod y gamdriniaeth a'r esgeulustod.

Waeth beth fo'r cymhellion, yr hyn sy'n glir yw, yn gyntaf, ni chafodd yr un o'r plant hyn eu haddysgu gartref go iawn. Yn ail, fe wnaeth camdriniaeth Khyra a theulu A ddwysáu'n sylweddol ar ôl tynnu'n ôl o'r ysgol a'r diffyg monitro llwyr yn sgil hynny. O ran Megan, mae'n debygol fod hynny wedi galluogi'r esgeulustod parhaus i barhau, yn ogystal â goruchwyllo proffesiynol cyfyngedig.

Wrth allu edrych yn ôl, mae'n amlwg y dylai mesurau mwy pendant fod wedi cael eu defnyddio ar ôl penderfyniad rhai o'r teuluoedd hyn i addysgu gartref. Fodd bynnag, ar yr adeg roedd fel petai'r gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad oedd llawer y gallent ei wneud. Roedd addysg yn y cartref - a'r drefn rheoleiddio gymharol wan sy'n gysylltiedig â hynny - yn golygu nad oedd llawer y gellid ei wneud i atal y plant hyn rhag cael eu haddysgu gartref. Un peth y methodd y gweithwyr proffesiynol ei wneud dro ar ôl tro oedd sylweddoli, pan fo pryderon ynghylch diogelwch plentyn, bod addysg yn y cartref yn cynyddu'r perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod i'r plentyn yn sylweddol. Mae hyn yn rhannol oherwydd fod gan blant lai o gysylltiad â gweithwyr proffesiynol, ac felly'n cael eu monitro'n wael. Mae hefyd oherwydd fod ysgol yn gallu bod yn lle diogel, ac yn gyfle i feithrin gwydnwch, i blant sy'n byw mewn amodau anodd.

Pwynt dysgu clir o'r adolygiad hwn yw pan fo *tystiolaeth bresennol o gamdriniaeth neu esgeulustod* yng nghyswllt plentyn, a bod y rhieni'n penderfynu addysgu gartref, mae angen sylweddoli bod hyn yn *cynyddu'r peryglon i'r plentyn yn sylweddol*. Mae angen i gynlluniau diogelu plant ystyried y peryglon uwch hyn o ddifrif. Gallai hyn olygu cymryd camau cyfreithiol i amddiffyn y plentyn, neu roi proses fonitro ar waith sy'n fwy rheolaidd ac ymwithiol o lawer na'r un a fyddai'n berthnasol i blant sy'n cael eu gweld yn rheolaidd yn yr ysgol, neu i'r rheini sy'n cael eu haddysgu gartref ac nad oes unrhyw anghenion gofal a chefnogaeth wedi cael eu nodi yn eu cylch.

6.2 Osgoi:

Roedd saith o'r achosion yn ymwneud â theuluoedd lle roedd y gamdriniaeth neu'r esgeulustod wedi cael ei guddio rhag gweithwyr proffesiynol. Nid yw hynny'n golygu bod y plant yn anweledig neu heb gael unrhyw gyswllt â gwasanaethau; mae'n golygu bod eu cyswllt cyfyngedig a rheoledig â gwasanaethau wedi ei gwneud yn anoddach o lawer i adnabod anghenion y plentyn.

Roedd amrywiaeth o ran i ba raddau yr oedd y plant wedi cael eu cuddio. Ar y pegwn pellaf mae Dylan Seabridge, ST a W. Yn yr achosion hyn, roedd gweithwyr proffesiynol yn cael ychydig iawn o gyswllt, neu ddim cyswllt o gwbl, â'r teulu. Mewn achosion eraill, megis Mrs Spry neu Blentyn S, roedd y gwasanaethau'n ymwybodol o'r plentyn neu'r plant, ond roedd natur y cyswllt hwn dan reolaeth dynn y rhiant. Yn benodol, nid oedd gweithwyr proffesiynol yn cael gweld plant ar eu pen eu hunain. Yn y teuluoedd hyn, roedd addysg yn y cartref yn helpu'r rhieni i reoli'r cyswllt â'r plant drwy rwystro unrhyw berthynas neu gyfarfod annibynnol â'r plentyn.

Wrth ddarllen ar draws y saith adolygiad, mae rhai cysondebau nodedig i'w gweld o ran ymddygiad y rhieni. Ym mhob achos heblaw achos 8, cafodd y rhieni eu nodi fel bod yn ddeallus, yn huawdl ac yn gallu gwrthwynebu cyfraniad proffesiynol i'w teulu yn gadarn. Roedd y dadleuon a wnaed a'r rhesymau a roddwyd ganddynt yn debyg iawn i ddadleuon a rhesymau'r bobl sy'n llobio dros addysg yn y cartref - sef eu bod yn dymuno osgoi unrhyw ymyrraeth ddiangen mewn bywyd teuluol gan y Wladwriaeth, y byddai unrhyw ymyrraeth o'r fath yn torri eu hawliau fel rhieni, a bod ganddynt amheuan dwys ynglŷn â gweithwyr proffesiynol sy'n cynrychioli'r Wladwriaeth. Roeddent yn aml yn ymglyfreithio neu'n bygwth hynny, yn cwyno neu'n cyflwyno dadleuon pendant iawn i gadw gweithwyr proffesiynol i ffwrdd o'u plant.

Yn ail, roedd nifer o'r rhieni hyn yn ymddangos yn ecsentrig ac yn anarferol. Yn achos rhai, cafwyd tystiolaeth o broblemau seiciatrig yn nes ymlaen. Ac yn achos eraill, mae'n ymddangos yn debygol fod posibilrwydd o anawsterau iechyd meddwl heb eu diagnosio. Roedd gan y rhan fwyaf neu bob un amheuaeth o weithwyr proffesiynol a oedd yn ymylu ar baranoia, ac mae salwch a achoswyd yn fwriadol i'r plant/plentyn neu ymddygiad cysylltiedig yn nodwedd mewn tri achos.

6.3 Prif Bwyntiau

- Cafodd addysg yn y cartref ei nodi fel nodwedd mewn 11 adolygiad. Roedd modd rhannu'r rhain yn ddau fath o achos:

- o "Tynnu'n ôl" - mewn pedwar teulu, roedd addysg yn y cartref yn rhan o broses o dynnu'n ôl o wasanaethau ar ôl nodi pryderon. Roedd tystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol wedi methu ymateb i hyn yn ddigon cadarn.
 - o "Osgoi" - mewn saith teulu, roedd addysg yn y cartref yn rhan o strategaeth rhieni a oedd yn osgoi, yn cyfyngu neu'n rheoli cyswllt proffesiynol â phlant. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â rhieni a oedd yn rheoli ac yn ecsentrig yn ôl pob golwg. Mae'n bosibl fod gan nifer ohonynt broblemau iechyd meddwl heb eu diagnosisio.
- Mae'n amlwg fod rhai plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Nid oes gennym reswm i gredu bod hyn yn fwy - neu'n llai - cyffredin nag yn y boblogaeth gyffredinol.
 - Yr hyn sy'n glir yw ei bod yn anoddach adnabod plant sy'n dioddef camarfer os yw rhiant yn dymuno cyfyngu ar fynediad at y plentyn, ac mae addysg yn y cartref wedi, ac yn, cyfrannu at hynny. Mae rhieni sy'n cam-drin neu'n esgeuluso eu plant yn defnyddio addysg yn y cartref fel un ffordd o gyfyngu ar gyswllt proffesiynol, ac felly amddiffyniad.
 - Mae ymarfer presennol yn rhoi rhai plant mewn perygl gan fod eu rhieni'n defnyddio addysg yn y cartref fel ffordd o reoli a chyfyngu ar gyswllt â'u plant.

7.0 Ymatebion rhanddeiliaid: cyfweiliadau ac ymatebion i'r arolwg

7.1 Safbwyntiau rhieni sy'n addysgu gartref

7.1.1 Pam mae teuluoedd yn addysgu gartref?

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am y cymhellion dros addysgu gartref, roedd modd eu rhannu'n eang yn ddau grŵp; y rheini a oedd wedi dewis addysgu gartref yn sgil y manteision canfyddedig i'r plentyn, a'r rheini a oedd wedi dewis addysgu gartref yn sgil profiadau negyddol o ysgolion. Roedd teimlad cyffredinol fod y system ysgol yn methu, un ai'n gyffredinol neu yng nghyswllt eu plentyn:

Mae'r system ysgol yn methu'n ddifrifol o ran safonau addysgu. Mae'r cwricwlwm yn hen ffasiwn ac mae llawer i'w ddweud ynghylch ein safle rhyngwladol o ran ein pynciau craidd fel Saesneg a Mathemateg ... Dydy addysg brif ffrwd ddim yn darparu ar gyfer gwahanol fathau o arddulliau dysgu, mae ysgolion yn poeni mwy am dicio bocsys a chael sgoriau da, yn hytrach nag addysgu eu disgyblion. Am y rhesymau hyn, penderfynais addysgu fy mhlant gartref, ac maen nhw wedi datblygu'n llawer cyflymach nag oedden nhw mewn amgylcheddau dysgu didactig (Addysgwr yn y cartref D).

Cafodd safbwyntiau negyddol ynghylch y ddarpariaeth yn yr ysgol eu hamlygu gan yr ymatebwyr, a hynny yng nghyswllt maint dosbarthiadau, y dull 'un ateb sy'n addas i bawb' (Addysgwyr yn y cartref AA, BH, L a CE) ac 'addysgu ar gyfer yr arholiad' (Addysgwr yn y cartref CB), sef y canfyddiad fod ysgolion yn canolbwyntio ar 'roi tic mewn bocsys' (Addysgwr yn y cartref DW). Pwysleisiodd llawer fanteision addysg yn y cartref, yn cynnwys treulio amser â'u plant, mabwysiadu agwedd fwy hyblyg a rhwydd at ddysgu sy'n rhydd rhag cyfyngiadau cwricwlwm sydd wedi'i bennu ymlaen llaw, a'r gallu i ddarparu dull personol wedi'i deilwra i anghenion a diddordebau'r plentyn:

Darparu addysg sy'n addas i'w hanghenion unigol; gallu addysgu yn unol ag athroniaeth addysg wahanol; rydyn ni'n darparu addysg bersonol o safon uchel i'n plant, lle dydyn nhw ddim yn cael eu dal yn ôl gan system ddosbarth yn yr ysgol (Addysgwr yn y cartref CZ)

Daeth teilwra addysg i anghenion y plentyn i'r amlwg fel thema gyson ymysg y rheini a oedd wedi penderfynu addysgu gartref yn sgil anfodlonrwydd ar yr ysgol. Gellir

rhannu'r grŵp hwn ymhellach, yn blant ag anghenion ychwanegol (yn cynnwys anghenion anabledd, meddygol a/neu AAA), ac yn rheini a oedd wedi cael profiadau negyddol o'r ysgol, gan gynnwys bwlio - er nad oedd y categorïau hyn yn annibynnol ar ei gilydd:

Bwlio (gan staff yn ogystal â disgyblion), addysgu ar gyfer profion (a hynny'n wael), gormod o bwysau a rheolau eithriadol yr ysgol (gwrthododd un ysgol i mi adael fy mab ddefnyddio'r toiledau, er gwaethaf nodyn meddygol gan ei ymgynghorwyr ynghylch cyflwr meddygol gydol oes yr oedd yr ysgol yn gwybod amdano cyn i fy mab ddechrau yno). Gyda'i gilydd fe wnaeth y rhain wneud yr ysgol yn hunllef nad oeddwn i'n fodlon gadael i fy mhlant ei ddioddef ddim mwy (Addysgwr yn y cartref AH)

Cyfeiriwyd sawl gwaith at 'ymddygiad ofnadwy staff yr ysgol' (Addysgwr yn y cartref A), gan awgrymu diffyg dealltwriaeth canfyddedig o'r ffordd orau o gefnogi plant ag anghenion ychwanegol:

Roeddwn i'n teimlo nad oedd e'n cael digon o gefnogaeth a dealltwriaeth, ac fe wnes i weld staff yn gweiddi arno a'i ddychryn. Roeddwn i'n teimlo hefyd nad oedd yn cael ei gadw'n ddiogel yn yr ysgol, gan fod modd iddo adael yr eiddo heb i unrhyw un sylwi arno. (Addysgwr yn y cartref BS)

Fel y mae'r dyfyniad uchod yn ei ddangos, roedd y diffyg dealltwriaeth a darpariaeth yn yr ysgol wedi dwysáu anghenion y plentyn, gan arwain at lefelau uwch o bryder. Felly mae'r penderfyniad i addysgu gartref yn gallu bod yn gam eithaf ar ôl ceisio anfon plant i'r ysgol am gyfnod hir ond gweld nad oedd hynny'n llwyddiannus (cymharer Morton, 2010). Er hynny, dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn fodlon ailystyried yr ysgol ar yr amod fod yr ysgolion yn gwneud mwy i ddiwallu anghenion eu plentyn, neu'n wir ar ôl i'w plentyn gael amser i ddod dros eu profiadau negyddol:

Cafodd fy merch ei haddysgu gartref o ganlyniad i lawer iawn o fwlio a bygythiadau o drais gan blant ysgol eraill, felly fe wnes i benderfynu ei haddysgu gartref er mwyn ceisio magu ei hyder a'i galluogi i ddod dros yr anawsterau. Roedd hyn am gyfnod o 8 mis, ac yn y pen draw fe aeth hi'n ôl i ysgol arall, ac mae hi'n gwneud yn dda (Addysgwr yn y cartref DR)

Gallai profiadau negyddol gydag ysgolion fod yn emosiynol iawn i blant ac i rieni, gan arwain at ddieter, ofn, a diffyg cysylltiad â gweithwyr proffesiynol - yn enwedig athrawon (hyd yn oed os ydynt yn gweithredu yn rôl y cynghorydd addysg yn y cartref) (*Addysgwr yn y cartref 3*).

7.1.2 Pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i gefnogi Addysg yn y Cartref yng Nghymru ar hyn o bryd?

Fel yr amlygwyd gan addysgwr yn y cartref ar ddechrau'r adolygiad (*cyfathrebu personol*), efallai mai camenw yw presenoldeb gwasanaeth addysg yn y cartref, gan mai ei absenoldeb yw ei brif nodwedd. Nid oes dyletswyddau ffurfiol ar awdurdodau lleol yng nghyswllt addysg yn y cartref, ac felly nid oes angen darparu cyllid ar gyfer darpariaeth. Yn wir, nid oes rôl addysg yn y cartref bendant mewn awdurdod lleol, ac yn hytrach mae'n cael ei hychwanegu at amrywiaeth o rolau eraill yn cynnwys diogelu, swyddogion lles addysg, plant sy'n derbyn gofal, cynhwysiant, neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol, gydag addysg yn y cartref yn cyfrif am gyn lleied â 0.20 o rôl o'r fath. Nid yw amrywiaeth o'r fath yn gyfyngedig i Gymru. Mae tystiolaeth o 'loteri cod post' wedi dangos anghysondebau mewn ymarfer ar draws awdurdodau lleol yn Lloegr, gan arwain at argymhell y dylid lleoli'r swyddogion sy'n gyfrifol am addysg yn y cartref mewn gwasanaethau niwtral, megis gwasanaethau llyfrgell neu ddysgu (Association of Directors of Children's Services, 2016; Education Committee, 2012). Nododd yr addysgwyr yn y cartref y byddai'n well ganddynt leoli rôl o'r fath yn y tîm Addysg Heblaw yn yr Ysgol, gan eu bod yn tybio y byddai hyn yn cynnwys agwedd fwy agored a chefnogol, lle gallai gweithwyr proffesiynol ddarparu cyngor ac arweiniad.

Pan holwyd ynghylch cyswllt â'r awdurdod lleol yn ystod y deuddeg mis blaenorol, dim ond 34% (N=45) o'r addysgwyr yn y cartref a ddywedodd fod cyswllt wedi bod. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi cael llythyr (60%, N=27), roedd 22% wedi siarad â rhywun wyneb yn wyneb (N=10), a 18% wedi siarad â rhywun ar y ffôn (N=8). Roedd y rhesymau am y cyswllt yn amrywio o geisio eglurhad ar statws addysgwr yn y cartref a/neu gyfeiriad cartref, i drefnu ymweliad neu gynnig cefnogaeth.

Roedd y rhan fwyaf o addysgwyr yn y cartref yn negyddol ynghylch agwedd yr awdurdod lleol at addysg yn y cartref. Roedd rhai yn ei weld fel maes rhieni yn unig, ac felly roedd ceisiadau'r awdurdod lleol am ymweliadau yn cael eu hystyried yn anghyfreithlon, yn feirniadol ac yn ddiangen:

*Maen nhw'n aml yn mynd yn rhy bell wrth ddehongli'r Ddeddf
Addysg. Weithiau maen nhw'n bwlio teuluoedd i mewn i gyfweliad,
ac yn gofyn iddyn nhw ddarparu adroddiadau a thystiolaeth o
addysg (Addysgwr yn y cartref U)*

Yn ychwanegol at hyn oedd y rheini a gafodd brofiad o 'gnocio ar ddrws', lle mae gweithwyr proffesiynol yn dod draw heb rybudd ac yn disgwyl cael dod i mewn i'r cartref a gwirio lles y plentyn. Arweiniodd hyn at deimladau o ddieter tuag at weithwyr proffesiynol, ac ofn y gallai pobl ddieithr fynnu dod i mewn i'w heiddo preifat er mwyn beirniadu eu gallu fel rhiant:

*Swyddogion Lles Addysg sy'n delio â'r ddarpariaeth Addysg
Ddewisol yn y Cartref bresennol ... Mae archwiliadau lles dirybudd
yn annefnyddiol ac yn ymwithiol - ond rydyn ni wedi cael addewid na
fydd [awdurdod lleol] yn gweithredu yn y modd hwn o hyn ymlaen
(Addysgwr yn y cartref DO)*

Mewn gwirionedd, nid oes hawl i ymweld ag eiddo nac i weld plentyn er mwyn asesu'r addysg yn y cartref sy'n cael ei darparu. Ym marn yr addysgwyr yn y cartref, mae'r prinder o bwerau statudol yn un o gryfderau ymarfer proffesiynol presennol. Roedd y rhyddid i ddewis y cwricwlwm a'r agweddau dysgu yn cael ei werthfawrogi'n arbennig.

O ran gwendidau'r ymarfer presennol, nodwyd y diffyg ymddiriedaeth a chefnogaeth o ran addysg yn y cartref, megis peidio â chefnogi mynediad at arholiadau a diffyg gwybodaeth arbenigol staff am addysg yn y cartref. Roedd yr ymatebion yn adleisio honiad Thomas a Pattison (2012), sef 'Education at home is nothing like education at school', ac felly credir nad yw gweithwyr proffesiynol, sy'n tueddu i ddod o gefndir addysgu, yn gymwys i gynnal asesiadau. Roedd eithriadau i hynny fodd bynnag, gyda chyfeiriadau'n cael eu gwneud at gynghorwyr addysg yn y cartref uchel eu parch:

*Roedd yr arolygydd [addysg yn y cartref] yn ardderchog. Roedd yn
gefnogol iawn ac yn llawn cymorth, heb fod yn feirniadol. Union beth
oedd ei angen arnom ni. Rydw i'n fwy na bodlon iddi ymweld
unwaith y flwyddyn o leiaf (Addysgwr yn y cartref T)*

Ond roedd hyd yn oed yr addysgwyr yn y cartref a ddywedodd eu bod yn fodlon ymgysylltu yn mynegi pwyll ynghylch ymweliadau cartref, oherwydd:

Byddai hyn yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen, a sut byddai'n effeithio ar fy mab. O ganlyniad i'w anghenion iechyd meddwl, rydyn ni'n dilyn ffordd o ddysgu sydd heb lawer o strwythur, a byddai dangos tystiolaeth o hynny yn anodd. Gallai dieithryn yn dod i mewn i'w gartref gael effaith niweidiol arno (Addysgwr yn y cartref BW)

O ran cefnogaeth, nodwyd y canlynol o ran arian ac amser rhieni:

Mae addysg yn y cartref yn ddrud - mae'n rhywbeth dosbarth canol yn gyffredinol - nid yw'n opsiwn i riant sengl neu deulu incwm isel yn aml, oherwydd y gost. Fe allai'r awdurdod lleol gynnig prisiau is ar gyfer deunyddiau addysgol, a helpu'r ymgeiswyr sydd ddim yn yr ysgol i allu defnyddio canolfannau arholi (Addysgwr yn y cartref DO)

Dadleuwyd y gallai awdurdodau lleol, hyd yn oed gydag ychydig iawn o gyllid, ddatblygu cynnig lleol sy'n cynnwys cynadleddau addysg yn y cartref, cefnogaeth ariannol ar gyfer arholiadau TGAU, a chefnogaeth penodol i Gymru, megis deunyddiau addysgol yn Gymraeg, neu wersi Cymraeg. Awgrymwyd hefyd y gellid llunio rhestr o'r tiwtoriaid preifat sydd wedi cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cafodd Pen-y-Bont ar Ogwr ei nodi gan weithwyr proffesiynol ac addysgwyr yn y cartref fel enghraifft o ymarfer da yn seiliedig ar feithrin perthnasau. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Pen-y-Bont ar Ogwr a grŵp Addysgwyr yn y Cartref Pen-y-Bont ar Ogwr, sy'n cynnwys tua 200 o blant sydd wedi cofrestru fel aelodau, ac sy'n cael ei hyrwyddo yn y canllawiau anstatudol, wedi cael ei ddisgrifio fel bod yn unigryw yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017). O dan y cytundeb hwn, mae'r grŵp yn cael grant blynyddol o £5,000 (swm nodedig o fach), sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i dalu am arholiadau TGAU, neuadd gymunedol ar gyfer y grŵp cefnogi wythnosol, ac mae dau aelod o'r grŵp wedi cael hyfforddiant goruchwylio arholiadau a diogelu plant. Yn gyfnewid am yr arian, cefnogodd yr addysgwyr yn y cartref y coleg lleol drwy lenwi'r gwaith papur perthnasol ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu gartref, goruchwylio arholiadau a darparu canlyniadau TGAU dienw i'r awdurdod lleol. Datganwyd bod yr awdurdod lleol, o dan y cytundeb hwn, yn derbyn na fyddent yn gwybod am bob plentyn sydd wedi cofrestru. Er bod Pen-y-Bont ar Ogwr wedi dod i'r amlwg fel enghraifft o ymarfer da, ychydig o awdurdodau lleol a nododd y byddent yn mabwysiadu'r dull hwn.

Er bod yna rai addysgwyr yn y cartref sy'n dymuno elwa ar ystod ehangach o adnoddau a chefnogaeth, roedd un ymatebydd yn gwahaniaethu rhwng addysgwyr yn y cartref 'traddodiadol', a rhai 'modern', lle bo'n well gan addysgwyr yn y cartref traddodiadol fyw i ffwrdd o brysurdeb y byd mewn lleoliadau anghysbell, gyda chyswllt cyfyngedig â chymdeithas a dim ymyrraeth gan y Wladwriaeth (*Addysgwr yn y cartref 3*):

*Maen nhw'n hen ffasiwn, yn fwy traddodiadol o lawer. Dydyn nhw ddim yn hoffi'r teledu, a dydyn nhw ddim am gyflwyno eu plant i'r cyfryngau a'r holl bethau sy'n gwneud plant yn fwy datblygedig o ran rhyw. Rydw i'n eu gweld yn sinigaidd iawn ac yn ofalus iawn, maen nhw wir yn credu bod y Llywodraeth ar eu hôl nhw. Cefais i sioc aruthrol o weld cymaint maen nhw'n gwrthwynebu'r Llywodraeth a'r byd addysg. Maen nhw wir yn credu bod y system ar eu hôl nhw, a rhoddodd hynny dipyn o sioc i mi (*Addysgwr yn y cartref 3*).*

Ar y llaw arall, un o nodweddion addysgwyr yn y cartref "modern" oedd eu bod yn agored i dderbyn cymorth gan staff sy'n derbyn addysg yn y cartref fel dewis arall yn lle'r ysgol. Roedd y grŵp hwn yn croesawu cymorth ariannol i helpu i roi'r addysg orau i'w plant. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheini a oedd yn addysgu gartref gan fod yr ysgol wedi methu cefnogi eu plant:

*Rydw i'n teimlo dylech chi gael help ariannol os nad yw eich plentyn yn gallu mynychu'r ysgol o ganlyniad i resymau fel ASD⁹ (*Addysgwr yn y cartref DB*)*

O ran y teuluoedd hynny sy'n troi at addysg yn y cartref fel cam eithaf gan fod ysgolion wedi methu, yn eu barn nhw, diwallu anghenion eu plentyn, mae'r diffyg cefnogaeth yn bwynt hynod o negyddol.

7.1.3 Addysg yn y cartref a diogelu

Pan holwyd a oedd gan weithwyr proffesiynol rôl i'w chwarae yn asesu lles, roedd mwyafrif helaeth yr addysgwyr yn y cartref yn gwrthwynebu'r syniad hwn, ond roedd lleiafrif yn credu bod ganddynt rôl lawn neu rannol i'w chwarae o bosibl:

Does gan addysg plentyn ddim i'w wneud â'i les. Does dim ateb hawdd i'w gael yn fy marn i, serch hynny rydw i yn teimlo bod llawer

⁹ Anhwyllder y Sbectrwm Awtistig (ASD)

*o blant yn yr ysgol sydd mewn perygl, ac mae rhywun yn eu gweld
nhw bob dydd ond eto does dim yn cael ei wneud ynghylch eu
diogelwch a'u llesiant. Yn fy marn i, mae gwneud addysg yn y cartref
yn rheswm dros bryderu ynglŷn â lles plentyn yn dweud, i bob
pwrpas, bod pob addysgwr yn y cartref yn euog, ac nid yw hynny'n
wir. (Addysgwr yn y cartref J)*

Felly, roedd sefydlu systemau diogelu penodol ar gyfer addysg yn y cartref yn cael ei ystyried yn ddiangen ac yn ddifriol. O ganlyniad, roedd addysgwyr yn y cartref yn cefnogi dull mwy cyffredinol ar gyfer diogelu:

*Pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phlentyn sy'n cael
ei addysgu gartref - yn yr un modd â phlant ysgol. I bob plentyn, mae
hyn yn cynnwys: - Meddyg Teulu - Ymwelydd Iechyd - Deintydd -
Staff awdurdod lleol mewn llyfrgelloedd, canolfannau chwaraeon, ac
ati - Unrhyw weithiwr cymdeithasol neu swyddog cefnogi teuluoedd
sy'n chwarae rhan o ganlyniad i faterion diogelu. (Addysgwr yn y
cartref AG)*

Roedd mwyafrif yr addysgwyr yn y cartref yn erbyn y syniad o ymweliadau cartref blynyddol. Roedd y rhan fwyaf yn credu bod ymweliadau cartref yn torri eu hawliau, ac roedd yn well ganddynt ohebiaeth ysgrifenedig. Roeddent yn credu na fyddai staff yr awdurdod lleol yn gallu helpu mewn unrhyw ffordd. Hyd yn oed o ran y rheini a oedd yn fwy cadarnhaol ynghylch cefnogaeth, roedd y diffyg cyllid yn lleihau budd y gefnogaeth ac yn dwysáu'r drwgdeimlad tuag at fonitro:

*Does dim cyllid ar gyfer cynnig unrhyw beth o werth, felly dim ond
biwrocratiaeth, gwaith papur ac ymyrraeth gyffredinol mae modd i'r
awdurdod lleol eu cynnig - yr union bethau mae teuluoedd wedi
dewis eu hosgoi drwy dynnu plant o'r ysgol. (Addysgwr yn y cartref
V)*

*Mae bod ar gofrestr ar gyfer dim un gwasanaeth go iawn, dim ond
rhywun yn dod draw i ddweud wrthy ch i a ydy ch chi'n gwneud
popeth yn "gywir neu'n anghywir" i weld yn fusneslyd ac yn
ddiangen. Yn enwedig pan nad oes gennych chi ffydd y bydd eich
arddull addysgu chi'n cael ei gydnabod a'i ddeall. (Addysgwr yn y
cartref AA)*

Ond roedd lleiafrif yn cydnabod y gallai monitro fod yn addas i nifer fach o deuluoedd:

Rwy'n cytuno bod angen cadw llygad ar y plant hyn, rwy'n cytuno bod modd i'r plant hyn lithro drwy'r rhwyd a bod camdriniaeth yn gallu digwydd. (Addysgwr yn y cartref 3)

Ond roedd nifer o addysgwyr yn y cartref i weld yn digio wrth honiad o'r fath, gan ddadlau bod y penderfyniad i addysgu yn y cartref yn seiliedig ar yr hyn sydd orau ar gyfer eu plant, a hefyd:

Dylid tybio bod rhieni a gofalwyr sy'n addysgu gartref yn cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu llesiant eu plant ac i hybu eu buddiannau. (dyfyniad o ddatganiad Education Otherwise, Atodiad E)

Ar ben hynny, cafodd yr honiadau fod rhai plant yn anhysbys eu gwrthod gan addysgwyr yn y cartref, a oedd yn honni eu bod yn 'hysbys ond heb eu cofrestru' (*Addysgwr yn y cartref 5*). Hynny yw, bydd addysgwyr yn y cartref yn hysbys i rwydweithiau addysg yn y cartref, ond nid i'r awdurdod lleol. Nododd yr addysgwyr yn y cartref eu bod yn elwa ar nifer fawr o weithgareddau, megis grwpiau gwirfoddol (e.e. Brownies), gweithgareddau hamdden (e.e. nofio, gymnasteg a chlwb merlod), atyniadau addysgol i ymwelwyr (e.e. Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sŵau), a gwasanaethau'r awdurdod lleol (e.e. llyfrgelloedd ac amgueddfeydd). Daeth gwahaniaethau rhwng y rheini sy'n elwa ar weithgareddau prif ffrwd, a'r rheini sy'n dewis gweithgareddau penodol i addysg yn y cartref, i'r amlwg. Dangosodd y canfyddiadau nad yw rhai yn defnyddio unrhyw grwpiau, bod rhai yn elwa ar gefnogaeth ar-lein, ac eraill yn defnyddio 'cannoedd yn llythrennol' o grwpiau cefnogi (*Addysgwr yn y cartref BP*):

Mae amryw byd o gefnogaeth gan gymheiriaid ar gael: mynd i grwpiau addysg uwch lleol, aelodaeth o grwpiau cenedlaethol, a phresenoldeb cefnogol cryf ar rwydweithiau cymdeithasol. Yn y bôn, mae addysgwyr yn y cartref wedi creu eu cymunedau ymarfer eu hunain, a phrin yw eu hangen am gyfraniadau o'r tu allan - mae'n glir iawn mai chi sy'n talu'r holl gostau os ydych chi'n addysgu gartref; felly pam dylen ni orfod dioddef ymyrraeth anwybodus o'r tu allan?
(*Addysgwr yn y cartref U*)

Roedd amharodrwydd i rannu manylion yr amryw o grwpiau addysg yn y cartref, rhag ofn y byddai awdurdodau lleol yn ymyrryd, 'oherwydd mae gan awdurdodau lleol hanes o droi fyny heb rybudd' (*Addysgwr yn y cartref BC*), neu er mwyn diogelu'r plant rhag ymyriad direswm pobl eraill:

Rydyn ni'n aelodau o 14 o grwpiau sy'n ymwneud yn benodol ag addysg yn y cartref sy'n trefnu gwersi, gweithgareddau a thripiâu. Dydyn ni ddim am eu henwi, gan fod llawer yn grwpiau caeedig er mwyn diogelu plant. (Addysgwr yn y cartref AZ)

Roedd rhai yn teimlo y byddai cofrestru yn mynd yn gwbl groes i'w hawliau dynol, gan ei ystyried yn un o adnoddau rheoli'r Wladwriaeth, neu'n fath o wahanu:

Mae gan hyn adleisiau o'r Holocaust - gorfod cofrestru yn erbyn eich gwirfodd, yn perthyn i grŵp penodol, fel bod y Wladwriaeth yn gallu eich gwyllo chi a'ch cosbi os ydyn nhw'n dweud eich bod wedi gwneud rhywbeth o'i le, a hynny oherwydd dim mwy nag anwybodaeth eang o addysg yn y cartref. Beth bynnag, nid cyfrifoldeb y Wladwriaeth yw addysgu'r plentyn - hawl a chyfrifoldeb rhiant yw dewis a darparu'r addysg i'w blentyn. Nid oes gan y Wladwriaeth hawl i ymyrryd â hawl rhiant i fagu ac addysgu ei blant fel y gwêl orau, ac ni ddylai byth gael yr hawl honno. (Addysgwr yn y cartref 64)

Er hynny, roedd eraill yn agored i'r syniad o gofrestr, gan nodi 'nad oedd ganddynt unrhyw beth i'w guddio' (*Addysgwr yn y cartref BM*), ac roeddent yn hapus i gael eu hadnabod fel addysgwyr yn y cartref. Roedd hyd yn oed y rheini â safbwyntiau cadarnhaol yn ofni y byddai cofrestru'n arwain at ymweliadau monitro gorfodol gan weithwyr proffesiynol heb ddealltwriaeth o addysg yn y cartref, ac asesiadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar un ymweliad byr:

Rwy'n fodlon bod yn agored o ran sut mae fy merch yn cael ei haddysgu. Cyn belled â bod yr awdurdodau ddim yn ceisio gorfodi cwricwlwm neu agweddau fel y ceir yn yr ysgol, rwy'n gwbl hapus i bobl weld beth ry'n ni'n ei wneud. Yn ôl pob golwg does gan [awdurdod lleol] ddim diddordeb o fath mewn sut addysg neu ofal mae fy merch yn ei gael, er bod ganddi Ddatganiad. Yn bersonol

*rwyn pryderu pa mor gyflym ry'n ni wedi diflannu a llithro drwy'r
rhwyd heb drïo!! (Addysgwyr yn y cartref Z)*

Er fe wnaeth yr addysgwyr yn y cartref grybwyll heriau ymarferol o ran cofrestru hefyd:

*Does dim digon o dystiolaeth y byddai plant ar eu hennill yn
sylweddol drwy gofrestru, ond byddai'n sicr yn faich ar deuluoedd
sy'n addysgu gartref ac ar y Wladwriaeth, sydd eisoes wedi'i
hymestyn yn ormodol. Byddai cytuno i gofrestru yn esgus ei fod yn
ateb rhyw ddiben defnyddiol. (Addysgwyr yn y cartref T)*

I gloi, er mwyn archwilio natur diogelu ac addysg yn y cartref yng Nghymru, gofynnwyd i'r addysgwyr yn y cartref a oeddent erioed wedi dod ar draws unrhyw broblemau diogelu yng nghyswllt plentyn sy'n cael ei addysgu gartref, neu'n ymwybodol o unrhyw broblemau o'r fath. Cafodd 16 enghraifft eu hadrodd lle roedd addysgwyr yn y cartref un ai wedi clywed neu wedi bod yn rhan o sgysiau a oedd yn codi problemau ynghylch lles plentyn. Gwnaed 14 atgyfeiriad at Wasanaethau Plant (roedd un eisoes yn cael cefnogaeth gwaith cymdeithasol, ac roedd un wedi cael ei annog i geisio cefnogaeth a chymorth meddygol). Dywedodd bron i bob addysgwyr yn y cartref fod Gwasanaethau Plant wedi ymyrryd a chefnogi'r teuluoedd hyn, ac roedd rhai enghreifftiau o waith cadarnhaol:

Yn y pen draw fe wnaeth iechyd y fam wella i'r graddau fod modd i'r plant fyw gyda hi eto, ac mae'r teulu wedi parhau i ffynnu gyda chefnogaeth lawn gweithwyr cymdeithasol. (Addysgwyr yn y cartref N)

7.1.4 Prif Bwyntiau

- Mae'r rhesymau dros addysgu yn y cartref yn adlewyrchu'r rhieni a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae addysgwyr yn y cartref yn grŵp amrywiol iawn, ond roedd dau grŵp eang.
- Roedd y rheini a oedd wedi tynnu plentyn o'r ysgol yn dueddol o fod yn siomedig iawn gydag ansawdd yr addysg a'r gofal yr oedd eu plentyn wedi'i gael. Yn aml, roedd gan y plant hyn anghenion ychwanegol nad oedd yr ysgol wedi eu diwallu.
- Roedd y rheini a oedd wedi dewis peidio ag anfon plant i'r ysgol yn dueddol o fod yn feirniadol o natur darpariaeth yr ysgol, ac roedd yn well ganddynt

ddulliau sy'n "canolbwyntio ar y plentyn". I rai, roedd hyn yn rhan o wrthwynebiad ehangach i'r wladwriaeth.

- Roedd gan y ddau grŵp brofiadau negyddol ar y cyfan o weithwyr proffesiynol.
- Roeddent bron yn llwyr unfrydol mai ychydig iawn o wasanaethau a chymorth sy'n cael eu darparu i blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Roedd llawer o hanesion am gyfraniadau a oedd yn ymddangos yn ddi-fudd neu'n ymwithiol gan weithwyr proffesiynol.
- Roedd y profiadau negyddol hyn o addysg a gwasanaethau eraill wedi cyfrannu at wrthwynebiad eang - ond nid llwyr - ymysg addysgwyr yn y cartref i unrhyw gynnydd i gofrestru plant sy'n cael eu haddysgu gartref neu i asesu ansawdd eu haddysg neu eu llesiant.
- Cwestiynodd nifer a fyddai cofrestru a/neu ragor o asesu yn cyflawni unrhyw beth pe na bai gwasanaethau cefnogi'n gysylltiedig â hynny.
- Roedd y rhan fwyaf yn digio wrth yr ensyniad fod unrhyw fath o gysylltiad rhwng addysg yn y cartref a chamdriniaeth neu esgeulustod
- Cafodd nifer fach o enghreifftiau o broblemau diogelu o ran plant sy'n cael eu haddysgu gartref eu nodi, ac roedd yr ymatebwyr yn awgrymu eu bod wedi cael eu hatgyfeirio'n briodol, a bod Gwasanaethau Plant wedi ymdrin â hwy'n dda.

7.2 Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol

7.2.1 A yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod am blant sy'n cael eu haddysgu gartref?

Ni fynegodd un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru hyder fod y ffigurau addysg yn y cartref diweddaraf (Llywodraeth Cymru, 2017b) yn cynrychioli pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref:

Wel, rydyn ni'n gwybod am y rhai sydd gennym yn ein cronfa ddata, ond dydyn ni ddim yn gwybod faint sydd yn y wlad ... na, dydw i ddim yn hyderus fod hynny'n cynnwys yr holl blant. Byddwn i ddim yn hyderus o gwbl (ALI 4)

Cafodd y safbwynt hwn ei ailadrodd gan nifer o weithwyr proffesiynol sy'n credu bod rhai plant yn 'gwbl ddiarth i ni'.

Roedd y plant sy'n anhysbys i wasanaethau yn destun cryn bryder proffesiynol. Cafodd y plant hyn eu nodi fel bod yn arbennig o debygol o fod mewn perygl o gamdriniaeth:

dewch i ni beidio â thwylo ein hunain, mae yna nifer fach iawn o bobl sy'n cadw eu plant gartref fel bod modd eu cam-drin (Gweithiwr proffesiynol ieched 1)

Mynegodd y gweithwyr proffesiynol eu pryder ynghylch llesiant a diogelwch plant a allai beidio â chael eu gweld na siarad ag unrhyw un; y gallent fod, i bob pwrpas, yn "anweledig" i unrhyw un a fyddai'n gallu eu diogelu o bosibl.

Yn nhyb y gweithwyr proffesiynol, y plant sy'n cael eu haddysgu gartref ers eu geni sydd fwyaf tebygol o fod yn anhysbys. Mewn ymateb i'r awgrym y gellid defnyddio cofnodion geni i gadw cofnod o blant, roedd rhai gweithwyr proffesiynol o blaid (AL14, AL110), ond roedd eraill yn credu ei fod yn rhy drafferthus ac annibynadwy (AL19), yn enwedig mewn awdurdodau mwy neu lle mae'r boblogaeth yn fwy tueddol o fynd a dod.

Roedd tybiaeth fod plant sy'n cael eu datgofrestru o'r ysgol yn llai tebygol o fod yn anhysbys, yn bennaf oherwydd fod penaethiaid yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol, ond cafwyd cyfaddefiad y gallai plant sy'n symud i awdurdod lleol gwahanol gael eu 'colli' (AL15). Yn gyffredinol, ar ôl cael gwybod gan yr ysgol, mae awdurdodau lleol yn anfon llythyr at y teulu, gyda'r rhan fwyaf yn rhoi gwahoddiad ffurfiol i rieni i gyfarfod yn y cartref neu rywle o ddewis y rhiant. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn nodi bod yn well ganddynt gyfarfod â'r teulu, ond mae'r canllawiau anstatudol yn nodi y gellir darparu tystiolaeth ysgrifenedig os yw'n well gan rieni wneud hynny. Roedd nifer o eithriadau i'r dull cyffredinol hwn. Nid oedd rhai awdurdodau lleol yn disgwyl cyfarfodydd, ac yn hytrach roeddent yn gofyn i addysgwyr yn y cartref lenwi holiadur. Cafodd yr ymatebion hyn eu defnyddio wedyn i bennu'r achosion 'dilys' ymysg y rhai lle roedd problemau posibl. Cynhaliwyd ymweliadau lle roedd y teulu wedi gofyn am gefnogaeth, neu os oedd teimlad fod anghenion gofal a chefnogaeth yn bodoli.

Roedd pennu'r addysgwyr yn y cartref "dilys" yn broblem pan oedd teuluoedd yn gwrthod ymgysylltu, er enghraifft dywedodd un gweithiwr proffesiynol ei fod wedi cael ffeil achos a oedd yn nodi 'don't visit alone', ac un arall lle roedd y llythyr wedi cael ei

ddydwychwelyd gyda marc 'no unsolicited mail' (AL12). Roedd rhywfaint o rwystredigaeth yn amlwg, gan fod rhai awdurdodau lleol yn amau bod teuluoedd yn 'chwilio ar google am wybodaeth i'w hanfon' (AL15), yn cael gafael ar lythyrau safonol o'r rhynggrwyd neu gan sefydliad addysg yn y cartref (AL15), neu'n llai agored i ymweliad gan eu bod yn ymddangos yn fwy ymwybodol o'u hawliau.

Nododd y gweithwyr proffesiynol fod mynediad i gyfarfod â phlant yn fater hawliau plant weithiau. Er enghraifft, roedd achosion o blant yn cysylltu â'r awdurdod lleol yn gofyn am gael mynd i'r ysgol:

Mae gennym ni ddwy ferch sydd am fynd yn ôl i'r ysgol, ond mae'r fam yn rhwystro hynny rhag digwydd. Mae yn nwylo'r Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn hyn, ond rydw i wedi awgrymu eu bod yn cyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Fedraf i ddim ymyrryd bellach, ond dydy eu lleisiau ddim yn cael eu clywed o gwbl mewn gwirionedd (AL18)

Roedd y gweithwyr proffesiynol hefyd yn bryderus ynghylch y rhesymau dros addysgu rhai plant gartref. Er enghraifft, y gred oedd fod rhai plant yn cael eu haddysgu gartref er mwyn i rieni osgoi erlyniad am bresenoldeb gwael. Roed hyn yn codi cwestiynau am lesiant ac addysg y plant hyn:

Mae gennym ni ymarfer ardderchog yma, mae ein haddysgwyr yn y cartref yn gwneud gwaith gwych gyda'u teuluoedd, ond y rhai sy'n osgoi erlyniad, dyna lle mae'r pryderon am ddiogelu a lles y plant yn codi, oherwydd os nad ydych chi'n gallu cael eich plant i'r ysgol, ydych chi'n mynd i'w haddysgu nhw gartref? Dydych chi ddim, ydych chi? (AL18)

Yn ogystal, cafodd rhai patrymau eu nodi ymysg y bobl sy'n dechrau addysgu gartref, megis nifer uwch y teuluoedd sy'n penderfynu addysgu gartref ar ddechrau'r tymhorau ym mis Ionawr a mis Chwefror (AL20), a'r rheini sy'n datgofrestru yng Nghyfnod Allweddol 4. O ran y grŵp olaf, roedd addysgu gartref yn ystod y ddwy flwyddyn olaf o addysg yn yr ysgol (pan mae plant rhwng 14 ac 16 oed) yn cael ei weld fel techneg osgoi fwriadol yn aml, yn hytrach na dymuniad diffuant y rhieni i ddarparu addysg gartref. Roedd yr amheuaeth yn amlwg gan addysgwr yn y cartref, cynrychiolydd awdurdod lleol a gweithiwr proffesiynol iechyd, gyda phob un yn

cwestiynu a ddylid caniatáu i addysg yn y cartref ddechrau yng Nghyfnod Allweddol 4.

Roedd nifer o weithwyr proffesiynol yn cydnabod bod angen cefnogi'n gynnar a gwneud gwaith adferol i bennu'r cymhellion dros addysgu gartref, i gefnogi teuluoedd ac i wahaniaethu rhwng y rheini sy'n dymuno addysgu gartref a'r rheini sy'n teimlo nad oes dewis arall ar gael:

mae penderfyniad teulu i addysgu gartref ar y gweill am gyfnod fel arfer, anaml iawn mae'n digwydd yn gwbl annisgwyl. Er enghraifft, os nad yw'r rhieni'n meddwl bod yr ysgol wedi delio ag achos o fwlio yn ddigon da, maen nhw'n tynnu'r plentyn o'r ysgol er mwyn ei ddiogelu (gweithiwr proffesiynol o Lywodraeth Cymru)

Yn hyn o beth, cafodd rôl ysgolion yn cefnogi plant a datrys problemau â theuluoedd ei phwysleisio. Roedd gan rai awdurdodau lleol enghreifftiau o weithio rhyng-asiantaethol gyda'r nod o ddiwallu anghenion y plentyn, boed hynny drwy fesurau gwrth-fwlio, cefnogaeth AAA neu gysylltu â phartneriaeth rhieni. Roedd awdurdodau lleol eraill yn amlwg yn rhwystredig fod addysg yn y cartref yn cael ei hychwanegu at rolau eraill yn aml, gan gyfyngu ar y gallu i ymyrryd. Fodd bynnag nid oedd pob awdurdod lleol mor bendant yn eu hymgeision i fynd i'r afael ag anfonlonrwydd neu adfer perthynas sydd wedi chwalu rhwng y rhiant a'r ysgol. Roedd lleiafrif yn cymeradwyo'r ysgol yn glir iawn, ac yn ei gwneud yn glir i deuluoedd mai'r ysgol yw'r lle gorau i blant, waeth pa broblemau sy'n codi:

Byddwn yn ceisio annog er mwyn gweld a oes modd i ni gadw plentyn yn yr ysgol, oherwydd fel awdurdod rydyn ni yn credu ei bod yn well i blant wreiddio mewn ysgol, yn gymdeithasol ac yn academaidd (ALI23)

Mae hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau arolwg, sef bod awdurdodau lleol yn gwrthod credu'n aml fod manteision i addysg yn y cartref, ac mewn rhai achosion roedd awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar ddychwelyd plant i'r ysgol heb gydnabod mai 'ysgol yw'r problem i rai' (ALI8). Cafodd arwyddocâd gwasanaethau cefnogi ei ategu gan Gomisiynydd Plant Cymru:

Mae angen i ni weld mai cefnogi yw rôl bennaf awdurdodau lleol, dyna sydd ei angen ar rai rhieni, felly mae angen i ni ganfod rhai ffyrdd o feithrin ymddiriedaeth rhwng yr awdurdod lleol a theuluoedd.

Efallai nad yw'n syndod fod yr awdurdodau lleol hynny a ddangosodd dealltwriaeth well o addysg yn y cartref wedi nodi perthnasau gwell ag addysgwyr yn y cartref.

7.2.2 Enghreifftiau o blant sydd angen gofal neu gefnogaeth

Er mwyn archwilio natur a hyd a lled plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Nghymru sydd angen gofal a chefnogaeth, gofynnwyd i weithwyr proffesiynol a oeddent erioed wedi dod ar draws plentyn sy'n cael ei addysgu gartref lle roedd problemau diogelu, neu'n ymwybodol o achos o'r fath. O blith yr 18 o achosion a nodwyd gan weithwyr proffesiynol, roedd y rhan fwyaf wedi cael eu nodi gan weithwyr proffesiynol addysg, a chafodd pob un ei atgyfeirio at wasanaethau plant. Roedd methu cyrraedd trothwyon yn broblem benodol i rai:

*Mae'n fy nghadw i'n effro, oherwydd mae gennym ni bryderon dwys
ond mae ein dwylo wedi clymu (ALI20).*

O ran yr 18 achos, roedd y rhesymau dros atgyfeirio'n cynnwys amodau tai, esgeulustod, a phroblemau'n ymwneud yn benodol ag addysg yn y cartref, megis:

*Lle roedd plentyn erioed wedi mynd i'r ysgol ... roedd yn 6 oed,
doedd e ddim yn gallu defnyddio'r toiled, roedd yn eithaf gwyllt, a
dim ond ar hap, drwy atgyfeiriad dienw, daeth y plentyn i'n sylw
(Cyfwelai proffesiynol)*

Mewn achos arall, cafwyd datgeliad am gamdriniaeth ar ôl i blentyn ddechrau yn y coleg (cafodd y tad ei garcharu yn dilyn hynny). Roedd yr achos hwn wedi cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol yn y gorffennol, ac roedd yn destun asesiad lles. Fel y dywedodd un gweithiwr proffesiynol iechyd, mae'n anodd profi rhai mathau o gamdriniaeth, ond heb dystiolaeth nid oes modd i wasanaethau ymyrryd, sy'n golygu bod plentyn sy'n cael ei addysgu gartref:

*Allan o'r golwg, a oedd yn fy mhryderu'n fawr (Gweithiwr proffesiynol
iechyd 2)*

Lle roedd y problemau'n ymwneud â darpariaeth addysg, cawsant eu hatgyfeirio at wasanaethau plant, er dilynwyd nifer fach o achosion drwy'r llysoedd:

*oherwydd ry'n ni'n gwybod bod gennym ni ddau sydd wedi dod allan
o'r ysgol a dydyn nhw ddim yn cael dim byd, ac mae hynny'n
drywydd ofnadwy (ALI4)*

7.2.3 Prif Bwyntiau

- Nododd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol agweddau cadarnhaol ar addysg yn y cartref, megis ansawdd y profiad addysgol ac ymrwymiad y rhieni.
- Roedd bron i bob gweithiwr proffesiynol yn gallu nodi nifer fach o blant sy'n cael eu haddysgu gartref a oedd yn destun camdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol, neu fod amheuaeth o hynny yn eu cylch.
- Roedd y rhain yn cynnwys plant a oedd wedi cael eu haddysgu drwy gydol eu plentyndod, lle teimlwyd y gallai camdriniaeth neu esgeulustod osgoi sylw.
- Roedd y plant a oedd wedi gadael yr ysgol oherwydd problemau difrifol, problemau a fyddai ond yn gwaethygu o ganlyniad i'r plentyn yn cael ei addysgu gartref, yn rhan o ail grŵp lle roedd gweithwyr proffesiynol yn bryderus ynglŷn â diogelwch a llesiant y plant.

8.0 Trafodaeth

Mae'n anodd dychmygu maes diogelu mwy cymhleth nag addysg yn y cartref. Mae tystiolaeth yn brin, mae'n bwnc llawn emosiwn, ac mae'n teimlo'n aml fel bod gan wahanol bartïon ddealltwriaethau anghymesur o'r materion. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod addysgwyr yn y cartref a gweithwyr proffesiynol yn siarad heibio ei gilydd yn aml, yn hytrach na gyda'i gilydd.

Mae hyn yn rhannol oherwydd fod addysg yn y cartref yn ennyn emosiynau cryf ar y ddwy ochr. Efallai mai ofn yw'r emosiwn pennaf. Mae'r rhan fwyaf o addysgwyr yn y cartref yn fwy pwylllog na'r ymatebydd a oedd yn teimlo bod cofrestr o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn "adleisio'r holocaust", ond roedd y teimlad o bryder ynghylch cyfraniad di-ofyn-amdano, a diddefnydd efallai, gan y Wladwriaeth yn amlwg. Mae rhieni'n ofni y bydd eu rhyddid presennol yn lleihau neu'n dod i ben, a hynny dan rith "diogelu". Ar y llaw arall, mae llawer iawn o ofn ymysg gweithwyr proffesiynol hefyd. Mae gweithwyr proffesiynol yn ofni bod rhai plant yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a bod addysg yn y cartref yn caniatáu i hyn ddigwydd, gan gyfyngu ar wybodaeth broffesiynol am y plant hyn a mynediad atynt. Efallai eu bod ychydig yn ofn hefyd o'r rhieni sy'n addysgu gartref mwyaf pendant. Roedd hyn yn sicr yn nodwedd o rai Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol.

Yn ogystal â phryder ar y ddwy ochr, nid tasg syml yw penderfynu ar natur cyfraniad y Wladwriaeth yng nghyswllt plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Mae trafodaethau ynghylch cofrestru, ymweliadau monitro a chynigion eraill yn gorfod ystyried gwerthoedd sylfaenol o ran anghenion a hawliau plant, a hawliau a chyfrifoldebau rhieni a'r Wladwriaeth. Heb os, dyma pam mae adolygiad Badman yn dechrau â dyfyniad gan Isaiah Berlin:

The need to choose, to sacrifice some ultimate values to others, turns out to be a permanent characteristic of the human predicament. (2009:1)

Fel y mae'r dyfyniad hwn yn ei awgrymu, mae nifer o'r penderfyniadau pwysicaf yn y maes hwn yn ymwneud â gwerthoedd a chredoau sylfaenol.

Fel yr amlinellir yn Adran 4, ac y manylir arno yn Atodiad D, deddfwriaeth yn ymwneud ag addysg, diogelu a llesiant plant sy'n darparu cyd-destun yr adolygiad hwn. Mae hefyd yn hollbwysig ystyried egwyddorion ehangach Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ond er bod yr adrannau hyn yn ystyried

amrywiaeth o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, mae'r dull cyffredinol sydd wedi'i ymgorffori ar draws y ddeddfwriaeth yn un eithaf syml: rhieni sy'n magu eu plant orau fel arfer, ond mae dyletswydd ar y Wladwriaeth i helpu rhieni i wneud hynny, ac i ymyrryd yn gymesur pan fo posibilrwydd o niwed i blant. Dylai'r dull hwn ategu ymatebion o ran polisi ac ymarfer i blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Ond yn ôl ein canfyddiadau ni, mae'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn wahanol iawn i hynny.

Yn gyntaf, nid oes bron dim cefnogaeth i deuluoedd plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Mae ein hadolygiad yn amlygu'r ffaith fod gan y plant hyn anghenion ychwanegol yn aml. Mae eu rhieni'n cael trafferth darparu addysg i'w plant gartref yn aml hefyd. Eto yng Nghymru, mae'r Wladwriaeth yn cynnig y nesaf peth i ddim fel arfer. Ar ôl i benderfyniad i addysgu plant gartref gael ei wneud, mae'r Wladwriaeth, i bob pwrpas, yn golchi ei dwylo o unrhyw gyfrifoldeb dros addysg. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw adnoddau na chefnogaeth arall yn cael eu darparu. Nid yw'r Wladwriaeth yn talu i blant sy'n cael eu haddysgu gartref sefyll arholiadau hyd yn oed.

Does ryfedd felly bod canolbwyntio ar ddiogelu yn y cyd-destun hwn yn cael ei drin ag amheuaeth gan addysgwyr yn y cartref. Elfen sylfaenol o Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw'r gred fod diogelu plant yn gweithio orau pan mae'n seiliedig ar gefnogaeth i deuluoedd. Ym maes addysg yn y cartref, mae'r egwyddorion hyn wedi cael eu hanghofio yn ôl pob golwg.

Mae gwneud argymhellion manwl ar hyd a lled neu natur y gefnogaeth y dylid ei chynnig y tu hwnt i gylch gwaith yr adroddiad hwn. Serch hynny, byddem yn nodi pe bai hyd yn oed mymryn o'r arian sy'n cael ei roi i ysgol am bob plentyn yn cael ei gasglu ar gyfer y rheini sy'n cael eu haddysgu gartref mewn awdurdod lleol, byddai o bosibl yn gallu darparu lefel uchel o wasanaethau defnyddiol. Byddai'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnodd hwn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Yn wir, rydym yn teimlo mai'r peth gorau i'w wneud byddai ymgysylltu â'r gymuned addysg yn y cartref leol er mwyn canfod ei hanghenion. Mae'n ymddangos bod y cymunedau hyn yn cynnwys nifer o aelodau dyfeisgar ac egnïol, a byddai gweithio gyda nhw yn cyd-fynd ag egwyddorion cydgynhyrchu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er mwyn i ddull o'r fath weithio, byddai'n rhaid iddo gael ei hwyluso gan weithwyr proffesiynol sy'n deall ac yn cefnogi addysg yn y cartref fel dull dilys ar gyfer addysg, ac yn wir ar gyfer magu plant.

Mae'n debygol y byddai agwedd wirioneddol gefnogol at addysg yn y cartref yn lleihau'r angen am fesurau mwy awdurdodyddol. Er enghraifft, pe bai cofrestr leol o

addysgwyr yn y cartref yn arwain at gyllid i gefnogi addysg yn y cartref, efallai y byddai llawer - os nad y rhan fwyaf - o addysgwyr yn y cartref yn cymryd rhan o'u gwirfodd. Yn yr un modd, pe bai addysgwyr yn y cartref yn chwarae rhan weithredol yn y gefnogaeth, byddai'n hawdd sylwi ar unrhyw drafferthion mewn llawer o deuluoedd, a byddai'n bosibl darparu cefnogaeth gynnar a mwy defnyddiol a allai atal rhagor o ganlyniadau negyddol neu'r angen i ddefnyddio awdurdod.

Agwedd benodol lle byddai asesiad a chefnogaeth fwy defnyddiol yn cael eu croesawu yw'r adeg mae plentyn yn gadael cofrestr yr ysgol. Mae gan gyfran uchel o'r plant hyn anghenion ychwanegol a/neu brofiadau negyddol o ysgolion, ond ychydig iawn o baratoi mae rhieni'n gallu ei wneud ar gyfer eu haddysgu gartref yn aml. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 byddai asesiad ac, os nodir bod angen, gwasanaethau cefnogi yn briodol yn aml, neu efallai fel arfer.

Ond er bod agwedd fwy cefnogol at addysg yn y cartref yn hanfodol, byddai'n naif i gredu y byddai hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon ynglŷn â diogelwch a llesiant pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref. Nid oes tystiolaeth fod plant sy'n cael eu haddysgu gartref mewn mwy o berygl o niwed na phlant mewn ysgol. Serch hynny, yng nghyswllt y lleiafrif lle mae camdriniaeth neu esgeulustod, mae addysg yn y cartref yn gallu, ac yn, ei gwneud yn anodd adnabod, monitro ac asesu plant. Problem benodol yw nad oes hawl i gael gweld plentyn o dan y darpariaethau presennol. O ganlyniad, gallai'r dystiolaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod, a fyddai'n sbarduno asesiad ac ymyriad o bosibl, beidio â dod i'r wyneb. Nid oes modd i weithwyr proffesiynol ddiogelu plant os na chaiff materion neu broblemau posibl eu nodi, ac mae eu cyswllt â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref mor brin nes bod y plant yn anweledig fwy neu lai. Roedd hynny'n sicr yn wir yn achos Dylan Seabridge.

Efallai y byddai agwedd fwy cefnogol ac adeiladol at addysg yn y cartref yn lleihau nifer y plant sydd angen gofal a chefnogaeth ac yn cael ychydig iawn neu ddim cyfraniad proffesiynol. Ond roedd yr adolygiad o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol yn awgrymu mai'r rhieni hynny sy'n cam-drin neu'n esgeuluso eu plant a fyddai, yn anffodus, yn lleiaf tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau cefnogi. Mae'n hanfodol felly ystyried a oes mesurau eraill a allai wella diogelwch plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Un mesur sydd wedi cael ei awgrymu'n gyson yw cael cofrestr orfodol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Y ddadl yw y byddai'n cyfateb i gofrestr ysgol, ac y byddai

dyletswydd i gofrestru plentyn fel un sy'n cael ei addysgu gartref yn atal plant rhag "llithro drwy'r rhwyd". Hefyd, pe bai plentyn yn cael ei nodi fel heb ei gofrestru, byddai hyn yn arwydd posibl o blentyn sydd angen asesiad pellach, ac sydd mewn perygl o niwed o bosibl - yn ogystal â bod yn drosedd.

Mae addysgwyr yn y cartref wedi gwrthwynebu cofrestr yn groch. Maent wedi dadlau ei bod yn faich, nad yw'n ateb unrhyw ddiben (yn arbennig os nad yw'n gysylltiedig â chefnogaeth i blant), a'i bod yn aneglur sut byddai'n diogelu plant. Byddai cofrestru ar ei ben ei hun yn cyflawni ychydig iawn neu ddim o gwbl. Maent wedi dadlau hefyd bod modd adnabod plant drwy gofnodion iechyd a ffynonellau eraill.

Mae hefyd yn bosibl, fodd bynnag, credu y byddai cofrestr yn fesur priodol a chymesur. Yn yr un modd ag y mae angen cofrestru plentyn pan fydd yn cael ei eni, nid yw cael cofrestr sy'n nodi a ydynt yn yr ysgol neu'n cael eu haddysgu gartref yn ofyniad sy'n ymddangos yn llethol nac yn afresymol ar ei ben ei hun. Ar ben hynny, byddai'n sicrhau manteision. Un o'r manteision pwysig yw y byddai'n caniatáu i wasanaethau gael eu cynllunio a'u darparu ar lefel leol a chenedlaethol. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddarlun cywir o sawl plentyn sy'n cael ei addysgu gartref yng Nghymru, nac ym mhob awdurdod lleol. Nid yw'n bosibl cynllunio eu cefnogaeth heb y wybodaeth hon.

Os yw'r broses gofrestru am helpu i ddiogelu plant unigol, byddai'n rhaid iddi fod yn fwy nag ymarfer papur. Yn yr adolygiad o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol, a'r dystiolaeth a roddwyd gan weithwyr proffesiynol, ceir enghreifftiau o blant oedd heb weld na siarad ag unrhyw un ar eu pen eu hunain, heblaw am eu rhiant. Roedd rhai o'r plant hyn wedi dioddef niwed difrifol neu wedi marw, ond i eraill - yr enghreifftiau nad oeddent yn destun Adolygiad Ymarfer Plant neu Adolygiad Achos Difrifol - roeddent yn anhapus eu bod yn cael eu haddysgu gartref neu nad oeddent yn ennill cymwysterau. Ar ben hynny, roedd y gweithwyr proffesiynol yn cwestiynu a oes modd adnabod plant os ydynt yn cael eu haddysgu gartref mewn enw, heb gael addysg yn y cartref mewn gwirionedd. Mae hwn yn bwynt grymus. Rydym hefyd yn credu bod y ffaith nad yw safbwyntiau'r plant hyn yn cael eu clywed, na'u lles yn cael ei asesu gan unrhyw un ar wahân i'w rhiant, yn mynd yn groes i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n pwysleisio hawliau plant. Felly, er mwyn i'r broses gofrestru gyflawni ei nodau, byddai angen ei hategu ag ymweliadau asesu rheolaidd sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r teulu, asesu bod y

plant yn cael y ddarpariaeth addysg a fwriedir, a gwneud yn siŵr bod llais a diogelwch y plentyn yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am eu bywyd.

Byddai goblygiadau o ran costau yn gysylltiedig â gwasanaeth ehangach o'r fath ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Ond byddai'r argymhellion hyn yn gwbl fforddiadwy pe bai hyd yn oed cyfran fach o'r arian sy'n cael ei ddarparu ar gyfer lle mewn ysgol yn cael ei neilltuo ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref, er mwyn sicrhau cefnogaeth ddigonol i deuluoedd sy'n addysgu gartref a chaniatáu i blant gael eu hasesu a'u cofrestru'n briodol.

Mae arbenigwyr blaenllaw a llunwyr polisi wedi gwneud cynigion tebyg sawl gwaith yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhai addysgwyr yn y cartref wedi eu gwrthwynebu'n chwynn. Ond efallai y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r awgrymiadau hyn mewn cyd-destun. Awgrymodd Badman:

International comparison suggests that of all countries with highly developed education systems, England is the most liberal in its approach to elective home education. Legislation from the 1930s banning elective home education still persists in Germany and most European countries require registration, whereas New Zealand demands that the "person will be taught at least as well and regularly and as well as in registered school". The majority of other countries also have processes for registration and the systematic monitoring of elective home education and require evidence of progress, often specifically in mathematics and reading. (Badman, 2009:24)

Ers cyflwyno'r canllawiau anstatudol yn ddiweddar, mae'n bosibl mai Cymru sydd â'r agwedd fwyaf rhyddfrydol a lleiaf cyfyngol at addysg yn y cartref o gymharu ag unrhyw wlad ddatblygedig, er yn ymarferol nid oes llawer o wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr. Mae'n rhaid gofyn a yw'r agwedd hon wedi'i mabwysiadu oherwydd ei bod er budd gorau plant, oherwydd nad yw Cymru'n dymuno darparu'r adnoddau i weithio'n fwy effeithiol gyda phlant sy'n cael eu haddysgu gartref, neu oherwydd mae rhieni sy'n addysgu gartref yw un o'r grwpiau llosgi mwyaf effeithiol yn y DU.

Gallwn werthfawrogi y byddai'r penderfyniad i greu cofrestr orfodol gyda hawliau ategol i weld plant a chartrefi yn fesur a fyddai'n digio nifer o addysgwyr yn y cartref. Gallai hyn danseilio'r ffocws ar gefnogaeth, sydd wedi cael ei amlinellu gennym fel hanfod barn fwy cytbwys ar rôl y Wladwriaeth o ran teuluoedd sy'n addysgu gartref. Ar y llaw arall, heb ddarpariaethau o'r fath, y peryg yw y gallai'r nifer gymharol fach o

blant sydd yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso'n ddifrifol - plant fel Dylan Seabridge - yn parhau i fod yn anweledig a'u lleisiau ddim yn cael eu clywed.

Yr hyn sy'n glir yw bod rhaid ailystyried polisi ac ymarfer addysg yn y cartref yn ofalus. Mae digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad ydym ni, fel cymdeithas, yn darparu'n ddigonol ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Nghymru, a'i bod yn debygol fod nifer fach yn dioddef niwed difrifol, ond mai ychydig iawn, os o gwbl, o weithwyr proffesiynol sydd mewn safle i sylwi ar hynny. Er mwyn gwella yn y dyfodol, dylid canolbwyntio ar sut gallwn weithio gyda rhieni sy'n addysgu gartref i sicrhau lles a diogelwch plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Nghymru. Rydym yn credu bod ein hargymhellion yn cydbwyso ffocws ar waith mwy defnyddiol a chefnogol gyda theuluoedd sy'n addysgu gartref â chydabyddiaeth fod gan y Wladwriaeth gyfrifoldeb a diddordeb cyfiawn yn llesiant, diogelwch a hawliau plant yng Nghymru.

9.0 Argymhellion

Nid yw ein dyletswyddau fel cymdeithas i gefnogi, amddiffyn a sicrhau addysg plant yn dod i ben os ydynt yn cael eu haddysgu gartref. Rydym felly yn argymhell dull newydd ar gyfer addysg yn y cartref yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys y canlynol:

Argymhelliad 1: Gwasanaeth cefnogi ehangach o lawer i blant sy'n cael eu haddysgu gartref, sy'n cynnwys:

- a. Dyletswyddau clir i awdurdodau lleol i gefnogi addysg a llesiant plant sy'n cael eu haddysgu gartref.
- b. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod arian ar gael i gyflawni'r ddyletswydd hon i blant sy'n cael eu haddysgu gartref, er enghraifft drwy ddarparu cyfran o'r cyllid fesul disgybl sy'n cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol.
- c. Dylai'r gwasanaeth cefnogi hwn gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol sy'n deall anghenion ac amodau penodol plant sy'n cael eu haddysgu gartref a'u teuluoedd.
- d. Dylid datblygu'r gefnogaeth mewn partneriaeth â'r gymuned addysg yn y cartref leol, yn unol ag egwyddorion cydgynhyrchu.
- e. Dylai'r gwasanaeth cefnogi arfaethedig ar gyfer addysg yn y cartref dalu cost sefyll arholiadau fel hawl i bob plentyn yng Nghymru, nid y rheini sydd yn yr ysgol yn unig.
- f. Pan fydd plentyn yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol, dylai'r teulu allu cael asesiad annibynnol o anghenion addysgol eu plentyn. Byddai'r asesiad hwn yn nodi a fyddai gwasanaethau addysg yn gallu cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr bod y plentyn yn aros yn yr ysgol a/neu'r gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn addysgu'r plentyn gartref.
- g. Dylid annog ysgolion i fod yn greadigol wrth fynd i'r afael ag anghenion plant a allai ddechrau cael eu haddysg gartref lle nad yw hynny'n ddewis cadarnhaol gan rieni, a'u hannog yn arbennig i ymchwilio i ddewisiadau addysg ar y cyd. Dylid cydnabod hyn fel dewis dilys i rai plant wrth arolygu

ysgolion a gwerthuso ffigurau presenoldeb, er enghraifft drwy eu heithrio o'r mesurau presenoldeb.

- h. Pan fydd plentyn yn cael ei dynnu o'r ysgol a'i addysgu gartref, dylai'r ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill asesu a allai'r newid hwn arwain at anghenion cefnogaeth a gofal, neu beri risg i lesiant neu ddiogelwch y plentyn. Os mai dyna'r achos, dylid atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol.

Argymhelliad 2: Asesu anghenion a llesiant plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn gliriach, sy'n gwneud y canlynol yn ofynnol:

- a. Creu cofrestr o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, yn debyg i gofrestr ysgol.
- b. Cynnal asesiad mwy cyfannol o lesiant ac addysg plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn rheolaidd. Byddai asesiadau o'r fath yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod y plentyn yn ffynnu a bod ei addysg yn ddigonol. Byddent hefyd yn helpu i ddarparu a chynllunio ar gyfer gwasanaethau cefnogi priodol.
- c. Dylai asesiadau o'r fath gynnwys plant, fel y bo'n briodol o ran oedran a gallu. Dylent hefyd gael eu cynnal yng nghartref y plentyn, sef ei leoliad addysg.
- d. Un o'r prif benderfyniadau yw a ddylid gosod rheidrwydd cyfreithiol ar rieni i gofrestru a/neu gydweithredu â'r asesiad. Byddai gwneud cofrestru ac asesu yn orfodol yn arwain at gryn dipyn o wrthwynebiad gan gyfran uchel o'r rhieni sy'n addysgu gartref. Er hynny, mae'n annhebygol y byddai cynllun gwirfoddol wedi diogelu Dylan Seabridge neu blant eraill sydd wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod difrifol wrth gael eu haddysgu gartref. Rydym felly'n argymhell y dylid gosod rheidrwydd cyfreithiol ar rieni sy'n dewis addysgu gartref i gofrestru a chael asesiadau rheolaidd.

Argymhelliad 3: Gwella'r ymateb i blant lle nodir niwed gwirioneddol neu amheuaeth o hynny, a bod y plentyn yn cael ei addysgu gartref.

Nid yw addysgu yn y cartref yn ffactor risg ar gyfer cam-drin neu esgeuluso plant. Serch hynny, lle mae pryderon ynghylch diogelwch neu lesiant plentyn, mae addysg

yn y cartref yn lleihau'r cyfleoedd o ran mynediad proffesiynol a monitro diogelwch plentyn yn sylweddol. Mae'n rhaid i'r ymatebion i unrhyw berygl o gamdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael ei nodi yng nghyswllt plentyn sy'n cael ei addysgu gartref ystyried y lefel lai hon o graffu o ddifrif.

- a. Gallai peidio ag addysgu plentyn niweidio ei lesiant, a gall hynny fod yn fath o esgeulustod ynddo'i hun. Os oes lle i gredu nad yw plentyn yn cael addysg, dylid atgyfeirio hyn at wasanaethau cymdeithasol, un ai ar gyfer asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth posibl y plentyn a'r teulu, neu os yw'r perygl yn uwch, fel plentyn sydd mewn perygl o esgeulustod.
- b. Pan fydd camdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol, neu amheuaeth o hynny, wedi arwain at blentyn yn cael ei ddyrannu fel plentyn sydd angen gofal a chefnogaeth, neu ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a bod y plentyn hwnnw'n cael ei addysgu gartref, dylai'r cynllun gynnwys y canlynol, fel y bo'n briodol:
 - iv. Nifer sylweddol uwch o ymweliadau lle rhoddir rhybudd a rhai dirybudd nag y byddai plentyn mewn ysgol yn eu cael.
 - v. Cyfarfodydd proffesiynol mwy rheolaidd a mwy o rannu gwybodaeth.
 - vi. Ymweliadau ar y cyd gyda staff diogelu plant ac addysg.
- c. Lle nodir camdriniaeth ac esgeulustod gwirioneddol, neu amheuaeth o hynny, dylai gweithwyr proffesiynol asesu a yw addysg yn y cartref yn ymddangos yn ymgais i osgoi craffu proffesiynol. Lle bo tystiolaeth o hyn, mae'n cynyddu'r perygl o niwed i'r plentyn. Dylid defnyddio gweithdrefnau diogelu statudol a chymryd camau cyfreithiol priodol i wneud yn siŵr bod y plentyn yn ddiogel.
- d. Os credir bod addysg yn y cartref yn cynyddu'r peryglon i blentyn, dylai gweithwyr proffesiynol gofio *na* fydd deddfwriaeth addysg yn darparu amddiffyniad. Bydd angen defnyddio darpariaethau diogelu Deddf Plant 1989 fel y bo'n briodol ar gyfer y plentyn a'i amodau.

- e. Dylai pob awdurdod lleol gael unigolyn a enwir sydd â chyfrifoldeb ac arbenigedd yng nghyswllt addysg yn y cartref a diogelu. Dylai'r unigolyn hwn ddarparu cyngor ac ymgynghoriaeth ar gyfer y nifer gymharol fach o deuluoedd lle mae problemau o ran addysg yn y cartref a diogelu yn codi.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell gosod dyletswydd ar Estyn i arolygu pa mor ddigonol yw darpariaeth awdurdodau lleol o ran cefnogi ac asesu addysg yn y cartref.

Byddai'n rhaid i arolygon o'r fath gynnwys arbenigedd ym meysydd addysg a gofal cymdeithasol, a gwybodaeth am ymarfer da ym maes addysg yn y cartref. Dylai hyn gynnwys llunio meini prawf ar gyfer arolygu, lle nad yw'r meini prawf hyn yn mabwysiadu agwedd negyddol at drefniadau addysg hyblyg. Dylai'r arolygiadau hyn hefyd ystyried pa mor ddigonol yw'r gefnogaeth a'r diogelwch ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref ym mhob awdurdod lleol.

10.0 Cyfeiriadau

Deddf Mabwysiadu a Phlant (2002) Llundain: TSO.

Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Fwlio (2017) *Tystiolaeth a gyflwynwyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Fwlio 2011-2016*. Llundain.

Anderson, K., Claridge, J., Dorling, K. a Hall, E. (2002) *The right to education in England. Alternative report to the UN committee on the rights of the child*, The Children's Legal Centre.

Arora, T. (2003) School-aged children who are educated at home by their parents: Is there a role for educational psychologists? *Educational Psychology in Practice*, 19(2), 103-112.

Arora, T. (2002) *Research report on home education in Kirklees*. Ar gael yn: <http://ahed.pbworks.com/f/Arora+2002.doc> Arora, (Cyrchwyd: 10 Ebrill 2017).

Arora, T. (2006). Elective home education and special educational needs. *Journal of Research in Special Educational Needs*, 6(1), 55–66.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Plant (2016) *Overview of the ADCS survey on elective home education*. Ar gael yn: <http://adcs.org.uk/education/article/elective-home-education-survey-summary>. (Cyrchwyd: 10 Ebrill 2017).

Axis Educational Trust (2012). Interview with Dr Alan Thomas. Available at: <http://axiseducationaltrust.org/interview-with-dr-alan-thomas/> (Accessed 30th August 2017).

Badman, G. (2009) *Report to the Secretary of State on the Review of Elective Home Education in England*. HC 610, Llundain: TSO.

Bhopal, K. a Myers, M. (2016) Marginal groups in marginal times: Gypsy and Traveller parents and home education in England, UK, *British Educational Research Journal*, 42(1), 5-20.

Deddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo (2009). Llundain: TSO

Brown, V., Clery, E. a Ferguson, C. (2011) *Estimating the prevalence of young people absent from school due to bullying*. Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol.

Burke, B. (2007). *Home education: the experience of parents in a divided community*. EdD, y Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain. Ar gael yn: <http://eprints.ioe.ac.uk/20536/1/558291.pdf> (Cyrchwyd: 11 Ebrill 2017).

Charles-Warner, W. (2015). *Home education and the safeguarding myth: Analysing the facts behind the rhetoric*. Ar gael yn: <http://www.educationotherwise.net/attachments/article/350/home-education-and-the-safeguarding-myth-WCW.pdf> (Cyrchwyd: 24 Ionawr 2017).

Deddf Plant (1989). Llundain: TSO.

Deddf Plant (1989). Llundain: TSO.

Deddf Plant a Phobl Ifanc (2008). Llundain: TSO.

Plant yng Nghymru (2008) *Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*. A gael yn: <http://www.childreninwales.org.uk/our-work/safeguarding/wales-child-protection-procedures-review-group/> (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017)

Conroy, J. (2010). The parenting, state and populist energies of anxiety. *Educational Theory*, 60(3), 325-340.

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015). Llundain: TSO.

D'Arcy, K. (2012) *Elective home education and Traveller families in contemporary times: Educational spaces and equality*. Ar gael yn: http://etheses.whiterose.ac.uk/3761/1/KD_Thesis.pdf (Cyrchwyd: 11 Ebrill 2017)

D'Arcy, K. (2014) Home education, school, Travellers and educational inclusion, *British Journal of Sociology of Education*, 35(5), 818-835.

Deddf Addysg (1996). Llundain: TSO.

Deddf Addysg (2002). Llundain: TSO.

Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (2013). Caerdydd: TSO.

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Lloegr) (Diwygio) (2016). Llundain, TSO.

Bwrdd Lleol Diogelu Plant Enfield (2009) *ST: a serious case review: executive summary*. [Llundain]: Bwrdd Lleol Diogelu Plant Enfield.

Estyn (2016) *Addysg heblaw yn yr ysgol*. Ar gael yn:
<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/EOTAS%20cy.pdf>
(Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017)

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) (1950). Ar gael yn:
http://www.echr.coe.int/Documents/Convention_ENG.pdf (Cyrchwyd: 25 Mehefin 17)

Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (2003). Llundain: TSO.

Fensham-Smith, A. (2014) *Gypsy and Traveller education: Engaging families, a research report*, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru.

Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir y Fflint (2012) *Executive summary in respect of Sion D*. [Yr Wyddgrug, Sir y Fflint]: Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir y Fflint.

Fortune-Wood, M. (2015) *Home Education UK*. Ar gael yn:
<http://www.home-education.org.uk/about.htm> (Cyrchwyd: 10 Ebrill 2017).

Re G (Children) [2012] EWCA Civ 1233
<http://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2012/1233.html>

Gillick v West Norfolk and Wisbech Area Health Authority and Department of Health and Social Security [1986] AC 112
<http://www.bailii.org/uk/cases/UKHL/1985/7.html>

Bwrdd Diogelu Plant Swydd Gaerloyw, Lock, R. a Butcher, S. (2008) *Executive summary 0105: Mrs Spry*. [Swydd Gaerloyw]: Bwrdd Diogelu Plant Swydd Gaerloyw.

Griggs, S., Payne, R., a Bhabra, S. (2006). *Children missing education: Experiences of implementing the DfES guidelines (RR797)*. Llundain: Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth.

Harrington, K. (2014) *Serious case review: Family A*. Southampton: Bwrdd Lleol Diogelu Plant Southampton.

Llywodraeth Ei Mawrhydi (2015) *Revised Prevent Duty Guidance for England and Wales*. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445977/3799_Revised_Prevent_Duty_Guidance__England_Wales_V2-Interactive.pdf
(Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Y Swyddfa Gartref (2015) *Mandatory reporting of female genital mutilation: procedural information*. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/573782/FGM_Mandatory_Reporting_-_procedural_information_nov16_FINAL.pdf
(Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Y Swyddfa Gartref (2015b) *Channel Duty Guidance: Protecting vulnerable people from being drawn into terrorism*. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/425189/Channel_Duty_Guidance_April_2015.pdf (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Hopwood, V., O'Neill, L., Castro, G. a Hodgson, B. (2007) *The prevalence of home education in England: A feasibility study*. Caerefrog, York Consulting Ltd.

Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin (2012). *Support for Home Education Fifth Report of Session 2012–13 Volume I*, Ar gael yn:

<https://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmselect/cmeduc/559/559.pdf>
(Cyrchwyd: 23 Ionawr 2017).

Tŷ'r Cyffredin. Pwyllgor Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2009). *The Review of Elective Home Education: Government response to the Committee's second report of session 2009–10*. Second Special Report of Session 2009–10. Llundain: TSO [ar-lein]. Ar gael yn:

<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200910/cmselect/cmchilsch/423/423.pdf>
(Cyrchwyd: 23 Ionawr 2017).

Jennens, R. (2011) Professional knowledge and practice in health, welfare and educational agencies in England in relation to children being educated at home: An exploratory review, *Child Care in Practice*, 17(2), 143-161.

Kendall, L. a Taylor, E. (2016) 'We can't make him fit into the system': parental reflections on the reasons why home education is the only option for their child who has special educational needs, *Education 3-13*, 44(3), 297-310.

Konrad v Germany (rhif cais 35534/03, 11 Medi 2006
<https://hudoc.echr.coe.int/eng#%7B%22itemid%22:%5B%22002-3185%22%5D%7D>) (Cyrchwyd 24 Medi 2017).

McClusky, G., Lloyd, G., Riddell, S., Weedon, E. a Fordyce, M. (2013) *Evaluation of education provision for children and young people educated outside the school setting: Final report*. Ar gael yn:
http://www.docs.hss.ed.ac.uk/education/creid/Reports/31_WAG_EOTAS_FinalRpt.pdf (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

McIntyre-Bhatty, K. (2008) Truancy and coercive consent: Is there an alternative? *Educational Review*, 60:4, 375-390.

McMenemy, P. (2008). *Executive summary of a serious case review in respect of Child S*, Bwrdd Lleol Diogelu Plant South Tees.

Deddf Galluedd Meddyliol (2005). Llundain: TSO.

Deddf Iechyd Meddwl (1983) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007). Llundain: TSO

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010). Caerdydd. TSO.

Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015). Llundain: TSO.

Monk, D. (2009) Regulating home education: Negotiating standards, anomalies and rights. *Child and Family Law Quarterly*, 21(2), 155-184.

Morton, R (2010) Home education: Constructions of choice, *International Electronic Journal of Elementary Education*, 3(1), 45-56.

Nelson, Jeanette. (2014) *Home education: exploring the views of parents, children and young people*. Prifysgol Birmingham (Y Deyrnas Unedig), ProQuest Dissertations Publishing, 2014. U613568.

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (2015) *Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth 1 Conwy*, Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru.

NSPCC (2014) *Home education: learning from case reviews: What case reviews tell us about elective home education*.

Ofsted (2010). *Local authorities and home education*. Ar gael yn:
<http://dera.ioe.ac.uk/1123/1/Local%20authorities%20and%20home%20education.pdf>
(Cyrchwyd: 20 Mawrth 2017).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015). *Population Estimates for UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2015*.
<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/latest> (Cyrchwyd: 23 Mehefin 2017).

Parsons, S. a Lewis, A. (2010) The home-education of children with special needs or disabilities in the UK: Views of parents from an online survey, *International Journal of Inclusive Education*, 14(1), 67-86.

Radford, J. (2010) *Serious case review in respect of the death of a child Case Number 14 [full overview report]*. Birmingham: Bwrdd Diogelu Plant Birmingham.

Raynes, B. (2011) *Serious case review: Executive summary: Child A*. [Ystrad Mynach, Hengoed]: Bwrdd Diogelu Plant Caerffili.

Rhodes-White, G. (2016) *Concise child practice review: re: CYSUR 2/2015*. [Sir Benfro]: Diogelu Plant a Phobl Ifanc Uno'r Rhanbarth, Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011). Caerdydd: TSO.

Rothermel, P. (2004). Home education: Comparison of home- and school-educated children on PIPS baseline assessments. *Journal of Early Childhood Research* 2(3), 273-299.

Rothermel, P. (2003) Can we classify motives for home education? *Evaluation & Research in Education*, 17(2-3), 74-89.

Rothermel, P. J. 2002. *Home-education: rationales, practices and outcomes*.
Traethawd PhD, Prifysgol Durham.

R v Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth, ex parte Talmud Torah Machzikei Hadass School Trust Times Law Reports 12 Ebrill 1985.

Re S (a child with disabilities) [2015] EWFC B40 (20 Chwefror 2015),
o Benderfyniadau Llysoedd Teulu Cymru a Lloegr,
<http://www.bailii.org/ew/cases/EWFC/OJ/2015/B40.html> (Cyrchwyd: 4 Awst 2017).

Schools Week (2015) *Education committee chair Neil Carmichael brands lack of home education register a "scandal"*, Ar gael yn:
<http://schoolsweek.co.uk/education-committee-chair-neil-carmichael-brands-lack-of-home-education-register-a-scandal/> (Cyrchwyd: 4 Awst 2017).

Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. a Sorensen, P. (2016). *Pathways to harm, pathways to protection: A triennial analysis of serious case reviews 2011-2014*. Llundain: Yr Adran Addysg

Smith, E. a Nelson, J. (2015). Using the Opinions and Lifestyle Survey to examine the prevalence and characteristics of families who home educate in the UK, *Educational Studies*, 41:3, 312-325.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd: TSO.

Sparkes, T. (2016) *Serious case review "Megan": overview report*. Thurrock: Bwrdd Lleol Diogelu Plant Thurrock.

Stafford, B. (2012) Bad evidence: The curious case of the government-commissioned review of elective home education in England and how parents exposed its weaknesses, *Evidence and Policy*, 8(3), tt. 361–381.

Taylor, E., Kendall, L. a Forrester, G. (2011) *No school like home and no home like school: parents' responses to the Badman report and its recommendations*, Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain, y Sefydliad Addysg, Llundain, 6-8 Medi 2011.

The Guardian (2015). *State must raise its game to protect home-educated children, judge insists*, Ar gael yn:

<https://www.theguardian.com/society/2015/apr/23/state-must-raise-its-game-to-protect-home-educated-children-judge-insists> (Cyrchwyd: 4 Awst 2017)

Thomas, A. a Pattison, H. (2010). Home education: precious, not dangerous, *The Guardian*, Ar gael yn:

<https://www.theguardian.com/commentisfree/2010/jul/28/home-education-khyra-isha-q-naive> (Cyrchwyd: 22 Awst 2017).

Thomas, J., Newman, M. a Sandy, O. (2013) Rapid evidence assessments to inform social policy taking stock and moving forward. *Evidence and Policy*, 9(1), 5-27.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) (1989) Ar gael yn:

https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf?_ga=2.115646982.1868124861.1498400177-129623.1498400177 (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017)

[Unnamed local safeguarding children board] (2013) *Family W: a report into the case as it relates to the law relating to home education*. [S.I.]: Cymdeithas Cadeiryddion Annibynnol Byrddau Lleol Diogelu Plant.

[Unnamed local safeguarding children board] (2013) *Family W: a serious case review [full overview report]*. [S.I.]: Cymdeithas Cadeiryddion Annibynnol Byrddau Lleol Diogelu Plant.

[Unnamed local safeguarding children board] (2013) *Family W: the executive summary of a serious case review [executive summary]*. [S.I.]: Cymdeithas Cadeiryddion Annibynnol Byrddau Lleol Diogelu Plant.

Ward, P. (2015) *Serious case review: concerning Child Y: overview report*. Leeds: Bwrdd Lleol Diogelu Plant Leeds.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Caerdydd: TSO.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*. Ar gael yn: <http://gov.wales/pubs/circulars/2007/nafwc1207en.pdf?lang=cy> (Cyrchwyd 25 Mehefin 2017).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan*. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/121121frameworkcy.pdf> (Cyrchwyd 25 Mehefin 2017).

Llywodraeth Cymru (2012) *Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cod Ymarfer*. Llywodraeth Cymru: TSO.

Llywodraeth Cymru (2012b) *Trefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaeth*. Caerdydd: TSO.

Llywodraeth Cymru (2014) *Admissions Guidance*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/Item14i.WG.AdmissionsGuidance.pdf> (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Llywodraeth Cymru (2015) *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002*. Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf> (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Llywodraeth Cymru (2015b) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion)*. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3cy.pdf> (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Llywodraeth Cymru (2015c) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)*. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4cy.pdf> (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Llywodraeth Cymru (2016b) *Deddf Iechyd Meddwl 1983: Adolygiad o God Ymarfer Cymru*. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dhss/publications/160920mentalactcy.pdf> (Cyrchwyd: 25 Mehefin 2017).

Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg ddewisol yn y cartref: Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol*. Rhif cyfeirnod 202:2016.

Llywodraeth Cymru (2017b). *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol 2016/17*.

<http://gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?skip=1&lang=cy> (Cyrchwyd: 5 Awst 2017).

Wray, A. a Thomas. A. (2013). School refusal and home education. *Journal of Unschooling and Alternative Learning* 7(13), 64-85.

Atodiad A: Dull

Roedd yr adolygiad yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth, cyfweiliadau ffôn â gweithwyr proffesiynol ac addysgwyr yn y cartref, arolwg ar-lein i addysgwyr yn y cartref, a dadansoddiad o nifer fach o adolygiadau o farwolaethau plant yn y DU lle cafodd addysg yn y cartref ei nodi fel problem. Yma, rydym yn disgrifio'r dulliau ar gyfer yr holl elfennau hyn o'r adolygiad.

Adolygiad llenyddiaeth

Er mwyn canfod y dystiolaeth o'r DU sydd wedi nodi pryderon yng nghyswllt addysg yn y cartref, defnyddiwyd dull adolygiad cyflym er mwyn gallu chwilio a dadansoddi'n drwyadl ac yn strwythuredig o fewn amserlen gyfyngedig yr adolygiad (gweler Thomas, 2013). Defnyddiodd y strategaeth chwilio (Ffigur 1 isod) amrywiaeth o gronfeydd data a ffynonellau data electronig i sicrhau bod digon o ddogfennau polisi a deddfwriaeth diweddar, llenyddiaeth lwyd a thystiolaeth academaidd yn cael eu cynnwys. Cafodd y broses chwilio ei hategu gan chwilio ar y rhynggrwyd a chwilio drwy gyfnodolion â llaw, yn ogystal ag argymhellion gan weithwyr proffesiynol.

Roedd y termau chwilio'n cynnwys 'home education', 'home school' ynghyd â pharamedrau Boole (e.e. AND/OR, NOT) 'health', 'child welfare' a 'well-being', a thrychiad (e.e. school* er mwyn cynnwys cyfeiriadau at 'school' a 'schooling'). Roedd y paramedrau chwilio'n cynnwys pob dosbarthiad tystiolaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2000 a'r presennol ar gyfer Cymru a'r DU, ac roeddent yn eithrio tystiolaeth ryngwladol a data nad ydynt yn ymwneud â'r prif themâu, sef iechyd, lles plant a diogelu (e.e. canlyniadau dysgu a'r cwricwlwm). Cafodd cyfanswm o 116 o ffynonellau posibl eu nodi, ac o blith y rheini cafodd 20 cofnod dyblyg eu tynnu, a chafodd 41 ffynhonnell arall eu heithrio gan nad oeddent yn cyfateb i'r paramedrau chwilio. Felly, cafodd 57 o ffynonellau eu cynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth (gan eithrio Adolygiadau Achos Difrifol, sy'n cael eu trafod yn yr adran olaf). Ac ystyried yr ystod eang o dystiolaeth a ddaeth i'r wyneb, crynhodd adolygiad naratif y canfyddiadau mewn cysylltiad â'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r astudiaethau a nodwyd.

Ffigur A1: Strategaeth chwilio'r adolygiad llenyddiaeth

Er mwyn canfod Adolygiadau Achos Difrifol yn ymwneud â phlant sydd wedi cael eu haddysgu gartref, aethom ati i chwilio drwy storfa'r NSPCC o adolygiadau achos cenedlaethol gan ddefnyddio'r term chwilio 'home education'. Cafodd un o'r 16

adroddiad a gynhyrchwyd ei eithrio gan mai'r rhiant, nid y plentyn yn yr adroddiad oedd wedi cael ei addysgu gartref. O blith y gweddill, roedd adroddiadau ar gael ar gyfer 11 o'r 15, yn ymwneud ag 11 o blant (lle roedd dau adroddiad wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer un adolygiad achos).

Mae gofyn i Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn Lloegr gyflwyno adolygiadau achos cyhoeddedig. Nid yw hyn yn digwydd yng Nghymru, ac nid oes storfeydd canolog eraill ar gyfer adolygiadau achos yng Nghymru chwaith, felly mae hynny'n un o gyfyngiadau posibl storfa'r NSPCC. Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiad hwn, cafodd cwestiwn ei ychwanegu at bob cyfweiliad â gweithiwr proffesiynol er mwyn pennu a oedd yno unrhyw adolygiadau achos yn ymwneud â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref. Cafodd pedwar achos ei ddatgelu yn sgil hynny, ond dim ond dau adolygiad ymarfer yr oedd modd cael gafael arnynt.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid: cyfweiliadau ac arolwg ar-lein

Er mwyn archwilio barn gweithwyr proffesiynol ac addysgwyr yn y cartref, anfonwyd e-bost at randdeiliaid allweddol yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweiliad ffôn lled strwythuredig. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus, yn ogystal ag addysgwyr yn y cartref. Er mwyn cynyddu'r cyfraddau ymateb a sicrhau cyfraniad ledled Cymru o fewn yr amserlenni, cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn. Cafodd arolwg ar-lein ei lunio i annog addysgwyr yn y cartref, a allai fod yn gyndyn o gymryd rhan mewn cyfweiliad, i gyfrannu.

Roedd y cyfweiliad ffôn a'r arolwg ar-lein yn gwahodd rhanddeiliaid i roi eu barn am y ddarpariaeth addysg yn y cartref bresennol yng Nghymru, a'r ystyriaethau posibl o ran diogelu a lles plant. Roedd y cyfweiliad a'r holiadur yn dechrau drwy ofyn i randdeiliaid am faint o gyswllt sydd rhwng addysgwyr yn y cartref a'r awdurdod lleol, y rhesymau dros gysylltu a chryfderau a gwendidau'r mesurau presennol. Roedd yr ail adran yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â diogelu, gan gynnwys a yw'r mesurau presennol yn ddigonol, ac a yw'n briodol i staff awdurdod lleol sy'n gyfrifol am addysg yn y cartref asesu lles plant.

Nodweddion y rhanddeiliaid

Cafodd 82 o randdeiliaid eu gwahodd i gael eu cyfweld fel rhan o'r adolygiad. Roeddent yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector. Cafodd y rhanddeiliaid hyn eu canfod mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, neu eu nodi gan gyfranwyr yn ystod y

cyfweliadau. O blith y rhain, cymerodd 45 o randdeiliaid ran yn yr adolygiad (Tabl A1) - cafodd 44 eu cyfweld ac ymatebodd 1 dros e-bost. Felly 55% oedd y gyfradd ymateb.

Fe wnaeth cynrychiolwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan yn y cyfweliadau ffôn. Anfonwyd gwahoddiadau at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant, yn gofyn am enwebu cynrychiolydd i'w gyfweld. Roedd gwahaniaeth rhwng awdurdodau lleol o ran pwy oedd â goruchwyliaeth strategol dros addysg ddewisol yn y cartref, a phwy oedd yn cael ei enwebu am gyfweliad. Arweiniodd hyn at gynnwys amryw o safbwyntiau, gan gynnwys rhai Cyfarwyddwyr Addysg, Rheolwyr Gwasanaeth ar gyfer dysgu, cynhwysiant a diogelu, ynghyd â chydlynwyr a Swyddogion Lles Addysg.

Cyfrannodd tri o'r chwe Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant at yr adolygiad, un ai drwy gyfrwng cyfweliad neu dros e-bost. Cyfrannodd chwech o'r un ar ddeg cynrychiolwr diogelu o'r Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru ac, ar ôl cysylltu ag addysgwr yn y cartref yn yr Alban, gofynnwyd i Gomisiynydd Plant yr Alban am sylw.

<i>Rhanddeiliaid</i>	<i>Nifer</i>
Awdurdodau Lleol	22
Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr	1
Cynrychiolwyr iechyd	5
Addysgwyr yn y cartref	6
Comisiynwyr Plant (Cymru a'r Alban)	2
Cydlynnydd gwrth-gaethwasiaeth	1
Gweithwyr proffesiynol o Lywodraeth Cymru	2
Elusennau	2
Cynrychiolwyr o Fyrddau Diogelu	2
Grwpiau gwirfoddol	2
Cyfanswm	45

Tabl A1: Cyfraniad rhanddeiliaid

Cynhaliwyd ymchwil ddesg i ganfod grwpiau cefnogi a sefydliadau addysg yn y cartref yng Nghymru. Ymysg y tri sefydliad a nodwyd, cyhoeddodd un ddatganiad ysgrifenedig i'w gynnwys yn yr adolygiad, dywedodd un ei fod yn cael anawsterau technegol, ac ni ymatebodd y llall. O ran y grwpiau cefnogi addysg yn y cartref, nid oedd modd anfon 4 o'r 15 e-bost oherwydd fod y manylion cyswllt yn hen, a allai awgrymu nad ydynt yn weithredol ar hyn o bryd. Ni dderbyniodd un o'r 11 arall y

gwahoddiad i gael eu cyfweld. Felly nid yw un o'r chwe addysgwr yn y cartref sydd wedi cael eu cyfweld yn perthyn i'r grwpiau hyn. Cafodd pedwar eu canfod drwy'r awdurdod lleol, un drwy grŵp gwirfoddol (ddim yn benodol i addysgwyr yn y cartref), a gwirfoddolodd un pan glywodd am yr ymchwil. Felly, mae'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn ymwneud yn bennaf ag ymatebwyr eraill o'r sector gwirfoddol ac o wasanaethau cyhoeddus.

Ymatebwyr i'r arolwg ar-lein

Mae ymchwilwyr wedi ei chael hi'n gymharol anodd dod o hyd i addysgwyr yn y cartref dro ar ôl tro (Rothermel, 2003; Parsons a Lewis, 2010; Nelson, 2013), a hyd yn oed ar ôl llwyddo, mae'n anodd gwybod pa mor dda mae'r ymatebwyr yn cynrychioli grŵp amrywiol iawn o deuluoedd. Mae rhai yn rhan o rwydweithiau, ac eraill yn eithaf ynysig neu'n hunangynhaliol. Yn ogystal â hynny, bydd cyfradd ymateb y rheini a ofynnwyd iddynt gymryd rhan yn amrywio. Mae'r 134 o ymatebion i'r arolwg felly'n ddefnyddiol ar gyfer darparu amrywiaeth o safbwyntiau ar addysg yn y cartref a materion diogelu - ac mae'n sampl fawr ar gyfer ymchwil ar y maes hwn yn y DU - ond nid ydym yn honni eu bod yn gynrychioladol. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn famau (N = 83%), a nododd bron i bob un 'gwyn' fel eu hethnigrwydd (N = 89%).

Cymeradwyaeth foesebol

Cafwyd cymeradwyaeth foesebol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd. Cafodd gwahoddiad e-bost ei anfon at randdeiliaid, a oedd yn disgrifio rhesymeg yr adolygiad. Roedd taflen wybodaeth a ffurflen ganiatâd wedi'u hatodi. Cafodd y rhanddeiliaid eu sicrhau y byddent yn ddiennw a'u hatebion yn gyfrinachol, er cafwyd rhai achosion lle roedd yn rhaid cymryd camau ychwanegol i sicrhau hynny. Roedd y rhain yn cynnwys yr unigolion mewn swyddi blaenllaw, lle cytunwyd y byddent yn cael y cyfle i roi eu caniatâd i'w dyfyniadau gael eu defnyddio yn yr adroddiad, a'r rhanddeiliaid hynny lle teimlwyd y byddai modd eu hadnabod o ganlyniad i'w swydd. Yn yr achosion hyn, cytunwyd na fyddai dyfyniadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio, ac y byddai gofal yn cael ei gymryd o ran sut byddai eu safbwyntiau yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad. Cyn pob cyfweiliad, cafwyd caniatâd i recordio'r cyfweiliad, ac esboniwyd y byddai'r ymatebion yn cael eu casglu at ei gilydd â'u cyflwyno mewn adroddiadau a chyhoeddiadau.

Atodiad B: Trefn y cyfweiliad

Rhan un: Mae rhan gyntaf ein hadolygiad yn ymwneud â chanfod gwybodaeth am ymarfer presennol o ran Addysg Ddewisol yn y Cartref

1. Sawl plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n cael eu haddysgu gartref yn eich awdurdod lleol chi ar hyn o bryd?
 - a. Sawl un mae'r awdurdod lleol yn gwybod amdanynt? *Ffigurau union neu fras?*
 - b. Tua sawl plentyn sy'n anhysbys i'r awdurdod lleol yn eich barn chi?
 - a. Pa mor hyderus ydych chi fod y data hyn yn gywir?
2. Sut mae eich awdurdod lleol chi'n dod yn ymwybodol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref? Ydych chi'n meddwl bod y mesurau presennol ar gyfer nodi plant yn briodol?
3. Oes gennych chi amcangyfrif o sawl plentyn sydd heb gofrestru â'r awdurdod lleol?
4. Sut mae Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cael ei threfnu yn eich awdurdod lleol chi ar hyn o bryd?
5. Ar ôl i'r awdurdod lleol ddod i wybod am blant, beth yw rôl y tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref?
 - a. I ba raddau mae'r ddarpariaeth hon yn:
 - ii. Darparu *cefnogaeth* i deuluoedd sy'n addysgu eu plentyn gartref?
 - iii. Oes gennych chi syniad o gyfran y teuluoedd sy'n defnyddio'r gefnogaeth mae'r awdurdod lleol yn ei darparu?
 - iv. Ydych chi'n cysylltu â theuluoedd yn rheolaidd?
 - v. Ydych chi'n monitro pwy sy'n ymateb?

6. Ydych chi'n meddwl bod asesu neu wirio lles y plant yn rhan o rôl y tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref?

- a. Oes problemau ynghylch lles plentyn wedi codi erioed?
 - i. Os oes, sut aethpwyd i'r afael â nhw?
- b. Beth yw cryfderau/gwendidau'r ddarpariaeth bresennol?
- c. Yw'r lefel hon o ddarpariaeth yn briodol? Sut byddai modd ei gwella?

7. Yw'r ddarpariaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref bresennol yn cynnwys cefnogaeth i blant sy'n cael eu haddysgu gartref sy'n perthyn i'r grwpiau canlynol:

- a. Plant Duon a Lleiafrifoedd Ethnig
- b. Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- c. Plant sydd ag anghenion addysgol arbennig (yn cynnwys y rheini sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal, a'r rheini sydd heb hynny)?

Os yw'r teuluoedd hyn yn cael eu gweld gan dimau ar wahân, i ba raddau maent yn cysylltu â'r tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref?

Rhan dau: Gofynnwyd i ni edrych ar y peryglon i blant sy'n cael eu haddysgu gartref o ran iechyd a lles plant.

8. Ydych chi wedi bod yn rhan o unrhyw achosion lle roeddech chi'n meddwl bod plentyn sy'n cael ei addysgu gartref mewn perygl o niwed?

- a. Sut daethoch chi'n ymwybodol?
- b. Beth wnaethoch chi?
- c. Beth ddigwyddodd?

9. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw adolygiadau ymarfer yn eich awdurdod lleol chi yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, lle roedd addysg yn y cartref yn cael ei defnyddio fel ffordd o guddio'r plentyn er mwyn ei gam-drin neu ei esgeuluso?

10. Ydych chi'n ymwybodol o'r canllawiau anstatudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr? Ydych chi'n meddwl eu bod yn mynd i'r afael â diogelwch plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddigonol?
11. Ydych chi'n meddwl bod y system bresennol yn eich awdurdod lleol chi yn briodol ar gyfer diogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref?
- Beth yw cryfderau'r dull presennol?
 - Beth yw gwendidau'r dull presennol?
 - Ym mha ffyrdd fyddech chi'n ei wella?
12. Yn eich barn chi, pwy ddylai gael y cyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref?
13. Mae Adolygiad Badman yn Lloegr yn cynnig creu proses gofrestru a monitro statudol ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu gartref. Beth yw eich barn chi am ei gynigion?
14. Oes yna rywbeth rydych chi'n meddwl dylen ni wybod amdano, ond nad ydyn ni wedi eich holi chi yn ei gylch?

Diolch i chi am roi o'ch amser.

Atodiad C: Arolwg ar-lein

Adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth o ddiogelwch plant sy'n cael eu haddysgu gartref

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi comisiynu ein tîm yn CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant) ym Mhrifysgol Caerdydd i adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaethau Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddiogel ac yn cael addysg o safon. Serch hynny, mae canfyddiadau adolygiadau achos difrifol diweddar o farwolaethau plant wedi cynnwys enghreifftiau o blant sy'n cael eu haddysgu gartref lle mae cwestiynau wedi codi ynghylch gallu gweithwyr proffesiynol i asesu diogelwch y plant hyn. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi comisiynu adolygiad o'r dystiolaeth bresennol ac ymchwil ar safbwyntiau grwpiau allweddol ar y ffyrdd gorau o amddiffyn plant sy'n cael eu haddysgu gartref. I wneud hyn, ein nod yw casglu safbwyntiau sefydliadau addysg yn y cartref, grwpiau cefnogi a rhieni sy'n addysgu eu plant gartref ar hyn o bryd, a hynny ar yr ystyriaethau cymhleth yn y maes hwn.

Mae'r arolwg hwn yn cymryd lle'r cyfweiliad, ac yn cynnwys yr un cwestiynau. Bydd eich ymatebion yn gyfrinachol, a byddant yn cael eu casglu at ei gilydd a'u cyflwyno yn yr adroddiad terfynol.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Dr Nina Maxwell (MaxwellN2@cardiff.ac.uk).

Ewch i'r dudalen nesaf i ddechrau'r arolwg. Dim ond tua 20 munud bydd yn cymryd i'w gwblhau.

1. Awdurdod Lleol

2. Ethnigrwydd

- Gwyn
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- Du neu Ddu Prydeinig
- Tsieineaidd
- Cymysg
- Arall, rhowch fanylion _____

3. Beth ydych chi?

- Mam
- Tad
- Llys-riant
- Gofalwr maeth
- Mam-gu/Tad-cu/Nain/Taid
- Arall, rhwch fanylion _____

3a. Sawl plentyn sydd gennych chi?

3b. Beth yw oedran eich plant?

4. Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn addysgu eich plentyn/plant gartref?

- Llai na blwyddyn
- 1-2 flynedd
- 3-4 blynedd
- 5-6 blynedd
- 7 mlynedd

5. Allwch chi nodi'r rheswm neu'r rhesymau dros benderfynu addysgu eich plentyn/plant gartref?

Rhan un: Mae rhan gyntaf ein hadolygiad yn bwriadu canfod gwybodaeth am ymarfer presennol o ran Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru

6. Pa wasanaethau mae'r gwasanaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref yn eu cynnig i deuluoedd sy'n addysgu gartref?

7. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref bresennol?

8. Ydy'r gwasanaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi cysylltu â chi yn ystod y 12 mis diwethaf?

- Do, rydw i wedi cael llythyr
- Do, rydw i wedi siarad â nhw ar y ffôn
- Do, rydw i wedi siarad â rhywun wyneb yn wyneb
- Naddo, dydw i ddim wedi cael unrhyw gyswllt â nhw

Amod: Mae 'Naddo, dydw i ddim wedi cael unrhyw gyswllt...' wedi cael ei ddewis. Ewch i: 9. Rhowch fanylion unrhyw sefydliad...

8a. Os 'do', beth oedd eu rheswm dros gysylltu â chi?

9. Rhowch fanylion unrhyw grwpiau cefnogi neu sefydliadau eraill rydych chi'n eu defnyddio'n rheolaidd i gael cymorth neu gefnogaeth ar gyfer addysgu eich plentyn/plant gartref.

Rhan dau: Gofynnwyd i ni edrych ar y peryglon i blant sy'n cael eu haddysgu gartref o ran iechyd a lles plant.

Mae nifer o adolygiadau achos difrifol wedi canfod bod addysg yn y cartref wedi cael ei defnyddio fel ffordd o guddio plant sy'n cael eu cam-drin. Mae hyn wedi cynnwys achosion lle nad oedd gan y rhieni y galluedd meddyliol i ddiwallu anghenion eu plentyn, lle roedd credoau crefyddol rhieni yn eu hatal rhag defnyddio gofal iechyd priodol, a lle roedd gan rieni gredoau diwylliannol ynghylch rolau rhywiau.

Mae'n bwysig amlygu'r ffaith nad yw mwyafrif y teuluoedd sy'n addysgu eu plant gartref yn peri unrhyw berygl neu bryder i'w plant. Mae gennym ni ddi-ddordeb yn y nifer fach o blant sydd mewn perygl, a'r ffyrdd gorau i ni eu hamddiffyn rhag niwed.

10. Ydych chi'n meddwl bod asesu neu wirio lles y plant yn rhan o rôl y tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref?

11. Yn eich barn chi, pwy ddylai fod yn gyfrifol am nodi a diogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref a allai fod mewn perygl?

12. Yn eich barn chi, sut mae nodi ac amddiffyn y plant hyn?

13. Ydych chi erioed wedi gwybod am bryderon, neu wedi cael pryderon eich hun, am blentyn a oedd yn cael ei addysgu gartref?

- Do
- Naddo

Amod: Wedi dewis 'Naddo'. Ewch i: 14. Mae Adolygiad Badman yn Lloegr yn cynnig....

13a. Sut daethoch chi'n ymwybodol?

13b. Beth wnaethoch chi?

13c. Beth oedd y canlyniad?

14. Mae Adolygiad Badman yn Lloegr yn cynnig creu proses gofrestru a monitro statudol ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu gartref.

14a. Fyddech chi'n fodlon i'ch enw chi fod ar gofrestr? Rhowch resymau dros eich ateb.

14b. Fyddech chi'n fodlon i staff yr awdurdod lleol gyfarfod chi a'ch plentyn/plant yn eich cartref unwaith bob blwyddyn? Rhowch resymau dros eich ateb.

15. Oes yna rywbeth rydych chi'n meddwl dylen ni wybod amdano, ond nad ydyn ni wedi eich holi chi yn ei gylch?

Diolch i chi am roi o'ch amser.

Atodiad D: Beth yw cyd-destun cyfreithiol a pholisi addysg yn y cartref?

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb byr o'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi presennol yng Nghymru. Mae gan Loegr¹⁰, Gogledd Iwerddon a'r Alban fframweithiau gwahanol ar gyfer cefnogi addysg yn y cartref a diogelu plant. Dylid nodi bod casgliad helaeth o ddeddfwriaeth, polisi a chyfraith achosion yn ymwneud ag addysg yn y cartref a diogelu plant/pobl ifanc yng nghyd-destun Cymru, ac felly ni ddylid ystyried yr adran hon yn drafodaeth gyflawn o'r materion cyfreithiol neu bolisi yng nghyswllt yr un o'r ddau bwnc hyn. Mae'r adran hon yn dechrau drwy amlinellu sail gyfreithiol addysg yn y cartref a diogelu plant/pobl ifanc, cyn trafod hawliau rhieni a phlant.

Hawl i addysg

Mae hawl plentyn i addysg wedi'i hymgorffori yn Erthygl 2, Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:

No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and to teaching, the State shall respect the right of parents to ensure such education and teaching is in conformity with their own religious and philosophical convictions.

Yn debyg i hyn, mae gan bob plentyn hawl i addysg o dan Erthygl 28¹¹ Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn¹². Mae Erthygl 29 yn ychwanegu at hynny drwy nodi:

Education must develop every child's personality, talents and abilities to the full. It must encourage the child's respect for human

¹⁰ Dylid nodi bod enghreifftiau o ymarfer da wedi'u nodi ar gyfer dau awdurdod lleol yn Lloegr yn ystod yr adolygiad hwn, sef Caerlŷr a Swydd Bedford. Gellid ymchwilio ymhellach i'r rhain er mwyn llywio gwaith yng Nghymru.

¹¹ Mae Erthyglau 24 a 32 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn hefyd yn cyfeirio at addysg. O dan Erthygl 24, mae'n rhaid addysgu plentyn am iechyd a llesiant. O dan Erthygl 32, mae'n rhaid i lywodraethau ddiogelu plant rhag 'economic exploitation and work that is dangerous, or might harm their health, development or education'.

¹² Yng Nghymru, mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc.

rights, as well as respect for their parents, their own and other cultures, and the environment.

Cyfrifoldeb y Wladwriaeth yw sicrhau bod plentyn yn cael addysg, ond nid yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol na Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi sut dylid darparu addysg. Mae Gwladwriaethau'n gallu arfer disgrisiwn o ran hyrwyddo a hwyluso addysg plant. Yn wir, mae cryn amrywiaeth o ran ffurf a phwrpas darpariaeth addysg ledled y DU, Ewrop ac o amgylch y byd. Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi caniatáu hyblygrwydd, ac wedi nodi nad oes cydsyniad ymysg Gwladwriaethau o ran presenoldeb gorfodol yn yr ysgol gynradd. Mae rhai gwledydd yn caniatáu addysg yn y cartref, ond mae eraill yn deddfu ar gyfer presenoldeb gorfodol. Yn *Konrad v Germany* (rhif cais 35534/03, 11 Medi 2006), roedd cwpwl a oedd yn addysgu gartref yn honni bod presenoldeb gorfodol yn yr ysgol yn torri eu hawliau o dan Erthyglau 8, 9 ac Erthygl 2, Protocol 1, ar y cyd ag Erthygl 14 (gwahaniaethu). Daeth y Llys i'r casgliad fod y cwynion hyn yn amlwg yn ddi-sail. Fel y gwnaeth yr Almaen, mae gan Wladwriaethau'r hawl i fabwysiadu'r safbwynt fod ennill gwybodaeth ac integreiddio i gymdeithas a chael profiadau cynnar ohoni yn nodau pwysig o ran addysg ysgol gynradd, ac nad oes modd eu cyflawni cystal drwy addysg yn y cartref, hyd yn oed os yw hynny'n rhoi gwybodaeth o'r un ansawdd i blant ag y byddent yn ei chael yn yr ysgol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddiogelu, ac nid yw'n mynd ati i ymwneud â'r dadleuon ehangach ynglŷn â'r hawl i addysgu gartref, heblaw i'r graddau y maent yn berthnasol i'r canolbwynt hwn.

Wrth ystyried hawl i addysg, mae gwrthdaro posibl rhwng hawliau plant/pobl ifanc a hawliau rhieni. Yng Nghymru, mae gan berson â Chyfrifoldeb Rhiant '*yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn yng nghyswllt y plentyn a'i eiddo yn ôl y gyfraith*'¹³. O ganlyniad, mae modd i rieni arfer cryn ddylanwad dros fywyd plentyn, sy'n gallu cynnwys pa fath o addysg mae'r plentyn yn ei gael. Mae Erthygl 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn mynnu bod pob oedolyn yn ystyried sut bydd eu penderfyniadau yn effeithio ar blant, a beth sydd orau i'r plentyn.

Mae Erthygl 12 y Confensiwn yn 'rhoi hawl i bob plentyn fynegi ei safbwyntiau, ei deimladau a'i ddymuniadau o ran pob mater sy'n effeithio arno'. Felly, dylid ystyried

¹³ Mae cymhwysedd ar gyfer Cyfrifoldeb Rhiant wedi'i nodi yn adrannau 3, 4, 4A a 4ZA Deddf Plant 1989.

teimladau plentyn am y math o addysg mae'n ei gael. Nid yw hyn fodd bynnag yn golygu bod gan safbwyntiau plant/pobl ifanc awdurdod dros rieni, mae'n golygu'n syml y dylid ystyried y safbwyntiau hynny. Wrth sefydlu hawliau plentyn i ddewis, dylid rhoi sylw priodol i'w ddirnadaeth a'i ddealltwriaeth. Mae hyn yn bwysig iawn yn sgil y defnydd o gymhwysedd Gillick, sydd wedi cael ei ddefnyddio i wirio bod plentyn yn ddigon aeddfed a deallus i ddeall natur a goblygiad cam gweithredu penodol¹⁴.

Addysg yn y cartref

Mae'r hawl i addysgu gartref yng Nghymru yn amodol ar allu rhieni i ddarparu addysg 'effeithlon' ac 'addas' i'w plant. Mae'r meini prawf ar gyfer hyn wedi'u nodi yn adran 7 Deddf Addysg 1996:

The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable –

(a) to his age, ability and aptitude, and

(b) to any special educational needs he may have,

either by regular attendance at school or otherwise.

Fodd bynnag nid yw dehongli ystyr hyn yn dasg syml. Cafodd y termau 'effeithlon' (efficient) ac 'addas' (suitable) eu diffinio gan Mr Justice Woolf yn *R v Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth, ex parte Talmud Torah Machzikei Hadass School Trust* Times Law Reports 12 Ebrill 1985 fel a ganlyn:

Efficient – An education that 'achieves that which it sets out to achieve'

Suitable – This is an education that 'primarily equips a child for life within the community of which he is a member, rather than the way of life in the country as a whole, as long as it does not foreclose the child's options in later years to adopt some other form of life if he wishes to do so'

¹⁴ Mae'r prawf ar gyfer cymhwysedd Gillick (*Gillick v West Norfolk and Wisbech Area Health Authority and Department of Health and Social Security* [1986] AC 112) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unigolion dan 16 oed. Ar gyfer unigolion 16 ac 17 oed, dylid defnyddio egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Nodwch mai dim ond i unigolion 18 oed neu hŷn y mae Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn berthnasol.

Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae'r Llys Apêl wedi nodi y gallai addysg sy'n rhy gul gael effaith andwyol ar lesiant plentyn, ac y byddai'r 'rhiant rhesymol' yn ceisio amgylchedd addysgol sy'n annog dyheadau a chyfleoedd cyfartal i ganiatáu i blentyn wneud ei ddewisiadau ei hun pan fydd yn oedolyn (*Re G (Children)* [2012] EWCA Civ 1233).

Serch hynny mae Adran 7 yn dal yn agored i'w dehongli i raddau helaeth. Nid oes diffiniad clir ar gyfer addysg 'amser llawn' at ddibenion addysg yn y cartref. Dim ond i blant/pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd y Wladwriaeth mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol. I'r rheini mewn amgylcheddau addysg yn y cartref ac addysg heblaw yn yr ysgol, nid oes angen dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ar ben hynny, nid yw'r gofyniad i ddarparu cwricwlwm 'eang a chytbwys' (gweler adran 351 Deddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002) yn berthnasol i'r rheini sy'n addysgu gartref. O ganlyniad, mae modd i addysgwyr yn y cartref lunio eu cwricwla eu hunain. Yr unig ofyniad yw eu bod yn cael eu teilwra'n ddigonol i anghenion unigol pob plentyn.

Nid oes gan Estyn, yr arolygiaeth annibynnol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru, rwymedigaeth na chylch gwaith i arolygu addysg yn y cartref neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Er nad oes dyletswydd arno i arolygu na rheoleiddio addysg heblaw yn yr ysgol, cynhaliodd Estyn Adolygiad ymarfer da o addysg heblaw yn yr ysgol (Estyn, 2016) ar gais Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn dilyn adolygiad ehangach o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yng Nghymru (McClusky et al., 2013).

Wrth bennu a yw addysg plentyn yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod, nid oes rhwymedigaeth i gynnal unrhyw fath o ymweliad â'r cartref. Mae'r canllawiau anstatudol presennol (Llywodraeth Cymru, 2017¹⁵) yn annog swyddogion awdurdodau lleol i gyfarfod â theuluoedd sy'n addysgu gartref, ond mae hynny'n ôl disgrisiwn awdurdodau lleol ac addysgwyr yn y cartref. Nid oes gan asiantaethau statudol hawl gyfreithiol i fynd i mewn i eiddo er mwyn gwirio'r ddarpariaeth addysg yn y cartref. Yn ogystal â hynny, nid oes gan awdurdodau lleol hawl gyfreithiol i fynnu cyfarfod â rhieni i drafod darpariaeth addysgol. Mae gohebiaeth drwy'r post neu gyfryngau eraill yn dderbyniol. Mae hyn yn cyd-fynd â deddfwriaeth gofal

¹⁵ Mae hyn yn cymryd lle Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 47/2006

cymdeithasol a diogelu ehangach¹⁶. Mae cyswllt mwy cyffredinol yn ôl disgrisiwn awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n addysgu gartref hefyd.

Gellir addysgu plentyn gartref o unrhyw oedran, ac nid oes rhaid i rieni gofrestru eu plentyn â'r awdurdod lleol. O ran plant/pobl ifanc sy'n cael eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn cael eu haddysgu gartref - 'datgofrestru' yw enw hyn - mae'n rhaid i rieni ysgrifennu at yr ysgol i roi gwybod yn ffurfiol am eu bwriad i addysgu gartref¹⁷. Os na wneir hyn, bydd plentyn yn parhau i fod ar gofrestr yr ysgol, ac mae'n bosibl y caiff y rhieni eu cosbi (gweler Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (2013). Ar ôl cael cais y rhiant, mae'n rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r awdurdod lleol, gan ddarparu enw a chyfeiriad y plentyn, cyn pen 10 diwrnod ysgol¹⁸. Rhaid i'r awdurdod lleol wedyn ysgrifennu at y rhieni i gydnabod ei fod wedi cael gwybod am y penderfyniad i addysgu gartref. Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a yw'r penderfyniad i dynnu plentyn o'r ysgol yn rheswm i bryderu fel y nodir yn *Addysg ddewisol yn y cartref: Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol* (Llywodraeth Cymru, 2017 - gweler tudalennau 5, 9 a 12-23).

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i nodi plant sydd ddim ar gofrestr yr ysgol ac sydd ddim yn cael addysg addas (gweler adran 436A Deddf Addysg 1996). Ar ben hynny, gall awdurdod lleol, o dan adran 437 y Ddeddf Addysg, gyhoeddi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol os nad yw'r rhiant yn gallu profi bod plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas:

(1) If it appears to a local authority that a child of compulsory school age in their area is not receiving suitable education, either by regular attendance at school or otherwise, they shall serve a notice in writing on the parent requiring him to satisfy them within the period specified in the notice that the child is receiving such education.

(2) That period shall not be less than 15 days beginning with the day on which the notice is served.

(3) If—

¹⁶ Mae gan Swyddogion yr Heddlu bwerau mynediad mewn amgylchiadau penodol (gweler y Cod Ymarfer ar gyfer Pwerau Mynediad (Y Swyddfa Gartref, 2014)).

¹⁷ Rheoliad 8(1)(d) Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2016.

¹⁸ Rheoliad 12(3) Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2016.

(a) a parent on whom a notice has been served under subsection (1) fails to satisfy the local authority, within the period specified in the notice, that the child is receiving suitable education, and

(b) in the opinion of the authority it is expedient that the child should attend school, the authority shall serve on the parent an order (referred to in this Act as a “school attendance order”), in such form as may be prescribed, requiring him to cause the child to become a registered pupil at a school named in the order.

(4) A school attendance order shall (subject to any amendment made by the local authority) continue in force for so long as the child is of compulsory school age, unless—

(a) it is revoked by the authority, or

(b) a direction is made in respect of it under section 443(2) or 447(5).

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â phennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol cyn enwi ysgol benodol mewn unrhyw lythyr o fwriad. Gall rhieni wneud cais am ddiddymu Gorchymyn Mynychu'r Ysgol o dan adran 442 Deddf Addysg 1996¹⁹. Lle na chedwir at Orchymyn Mynychu'r Ysgol, gall yr awdurdod lleol wneud cais am Orchymyn Goruchwylio Addysg o dan adran 36 Deddf Plant 1989.

Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol, na chyrrff cyhoeddus eraill, i ddarparu cymorth ariannol i'r rheini sy'n dewis addysgu gartref. Rhoddir unrhyw gymorth ariannol, neu gymorth o fath arall, yn ôl disgrisiwn.

O ran rhieni sy'n tynnu plentyn ag anghenion addysgol arbennig oddi ar gofrestr yr ysgol, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn gallu darparu'n briodol ar gyfer anghenion y plentyn cyn y bydd awdurdod lleol yn rhoi'r gorau i gynnal y datganiad. Mae modd i'r rhieni a'r awdurdod lleol ddarparu ar y cyd. Gall rhieni hefyd wneud cais am asesiad o anghenion addysgol o dan adrannau 328 a 329 Deddf Addysg 1996. I

¹⁹ Mae rhagor o wybodaeth am Orchymynion Mynychu'r Ysgol ar gael yn y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru gyfan (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011).

gael rhagor o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at dudalen 19 y canllawiau anstatudol i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2017)²⁰.

Mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol (heb fod yn ymwneud â diogelu)

Nid oes gan statws addysg unrhyw effaith ar hawl i ofal iechyd; un o egwyddorion Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yw y bydd gwasanaethau 'am ddim yn y man darparu' (A1(3)). Yn yr un modd, nid yw statws addysg yn effeithio ar hawl i wasanaethau iechyd meddwl, boed yn cael eu darparu drwy wasanaethau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed neu mewn lleoliadau cleifion mewnol²¹.

Fel iechyd, nid yw statws addysg yn effeithio ar yr hawl i ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Mae darpariaeth gofal cymdeithasol yn ymwneud ag amrywiaeth eang o wasanaethau a chefnogaeth y gallai awdurdod lleol eu cynnig i unrhyw blentyn/person ifanc a'i deulu. Gallai'r gwasanaethau hyn gynnwys cefnogaeth i blant ag anabledau, gofalwyr ifanc, diwallu anghenion gofal a chefnogaeth plentyn, a gwasanaethau ataliol ehangach. Mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu o dan amrywiol gydrannau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²² - Rhan 4 o'r Ddeddf yn bennaf. Byddai hyn yn cynnwys

²⁰ Sylwch, gallai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), sydd yng Nghyfnod 3 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd, arwain at oblygiadau i rieni â statws anghenion addysgol arbennig pan gaiff ei basio.

²¹ Noder mai Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007) yw elfennau canolog darpariaeth iechyd meddwl. Mae'r is-ddeddfwriaeth yn cynnwys y Codau Ymarfer ar gyfer y Mesur (Llywodraeth Cymru, 2012) a'r Deddfau (Llywodraeth Cymru, 2016b), a chanllawiau ehangach ar dderbyn plant a phobl ifanc mewn lleoliadau cleifion mewnol (Llywodraeth Cymru 2014). O dan adran 131A(2) Deddf Iechyd Meddwl 1983, cyfrifoldeb Rheolwr yr Ysbyty yw trefnu addysg i blant/pobl ifanc o oedran addysg gorfodol sy'n gleifion mewnol.

²² Mae 'addysg, hyfforddiant a hamdden' wedi'i nodi fel maes Llesiant yn adran 2(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cael 'poblogaeth fedrus ac addysgedig' hefyd yn un o'r nodau llesiant yn adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethol Dyfodol (Cymru) 2015. Cyn i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i rym yn 2016, roedd gwasanaethau'n cael eu darparu'n aml o dan Ddeddf Plant 1989 (adran 17 y Ddeddf hon yn arbennig), Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddf Plant 2004 a Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008. Mae rhai elfennau o'r Deddfau hyn yn dal mewn grym, fodd bynnag ers mis Ebrill 2016 mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n cael eu darparu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

gwasanaethau ataliol a darparu gwybodaeth drwy wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (gweler adran 17 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

Byddai gan ofalwyr ifanc hawl i gefnogaeth o dan ddarpariaeth gofal cymdeithasol ehangach hefyd. Mae gan unrhyw ofalwr ifanc hawl i asesiad (adran 24) a chefnogaeth (adrannau 42 a 43) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gweler hefyd y Codau Ymarfer ar gyfer Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf). Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr effaith mae gofal yn ei chael ar anghenion datblygu'r plentyn, ac a yw'n briodol iddynt ddarparu'r gofal (neu unrhyw ofal) o ganlyniad i'r anghenion hyn (Adran 24(5(C))). Nid yw bod yn ofalwr ifanc yn bryder diogelu ynddo'i hun, fodd bynnag wrth asesu plentyn mae'n rhaid ystyried yr effaith ar ei les.

Diogelu

O dan Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan bob plentyn hawl i gael ei amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod:

Governments must do all they can to ensure that children are protected from all forms of violence, abuse, neglect and bad treatment by their parents or anyone else who looks after them.

Mae hyn yn cael ei ategu ymhellach yn Erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sydd wedi'i hymgorffori yn statud y DU drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sy'n nodi bod gennym yr hawl i gael ein hamddiffyn rhag triniaeth annynol a diraddiol. Mae'r hawl hon yn ymestyn i dynnu plant o gartref peryglus. Mae gennym hawl i barch at ein Bywyd Preifat a Theuluol (Erthygl 8). Mae hon yn hawl amodol sy'n golygu gall y Wladwriaeth, pan fo angen, ymyrryd yn gymesur ac yn unol â'r gyfraith ar gyfer un nod dilys neu fwy;

- 1) er budd diogelwch gwladol;
- 2) er budd diogelwch cyhoeddus neu les economaidd y wlad;
- 3) atal trosedd neu anhrefn;
- 4) diogelu iechyd neu foesau; neu
- 5) ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

Yn achos plant a phobl ifanc, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i ddiogelu pob plentyn yn unol â Deddf Plant 1989 ac unrhyw ddeddfwriaeth

gysylltiedig arall. Yn benodol, mae ganddynt ddyletswydd i ymchwilio os oes 'ganddynt achos rhesymol dros amau bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol' a'i fod yn byw, neu y deuir o hyd iddo, yn eu hardal (adran 47 Deddf Plant 1989). Os yw mynediad at blentyn/person ifanc yn cael ei wrthod, neu ei atal mewn unrhyw ffordd, gall yr awdurdod lleol wneud cais am Orchymyn Asesu Plentyn (adran 43(1) Deddf Plant 1989)²³. Lle bo anghenion diogelu mwy brys a sylweddol yn bodoli, gellid gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys neu Orchymyn Gofal Interim, a hynny o dan Ran 4 o Ddeddf Plant 1989. Wrth gynnal ymchwiliadau, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag asiantaethau statudol eraill sy'n gorfod rhannu gwybodaeth (gweler Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b)). Gall canlyniad ymchwiliadau'r awdurdod lleol arwain at amryw o ganlyniadau; dim camau pellach (h.y. tynnu gwasanaethau'n ôl), darparu gwasanaethau drwy gynllun gofal a chefnogaeth (Rhan 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), rhoi enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, neu wneud cais i Lys, o dan Rannau 4 a 5 o Ddeddf Plant 1989. Mae rhagor o arweiniad ar hyn ar gael yn Gweithio Gyda'n Gilydd o dan y Ddeddf Plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi rhoi dyletswydd ar bartneriaid perthnasol awdurdodau lleol i roi gwybod am unrhyw reswm rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, a bod ganddo anghenion gofal a chefnogaeth (gweler adran 130 y Ddeddf)²⁴. Er na fyddai hyn yn berthnasol i addysgwyr yn y cartref, byddai yn berthnasol i unrhyw weithwyr proffesiynol a fyddai'n dod i gysylltiad â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Fel y nodir yn y canllawiau anstatudol (Llywodraeth Cymru, 2017), nid yw addysg yn y cartref yn rheswm i bryderu ynglŷn â lles plentyn/person ifanc. Mae dyletswydd awdurdod lleol i ddiogelu yn berthnasol waeth beth yw statws addysgol plentyn, er gallai methu darparu addysg addas fod yn fater diogelu mewn rhai amgylchiadau (e.e. dangos deunyddiau amhriodol i blant neu hyrwyddo cwricwlwm radicalaidd). Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried a allai unrhyw agwedd ar addysg plentyn,

²³ Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (Plant yng Nghymru, 2008) yn darparu canllawiau anstatudol ar sut dylid rheoli'r gwaith o ddiogelu. Fodd bynnag mae rhai elfennau o'r canllawiau hyn wrthi'n cael eu diweddarau. Bellach, statws 'ymarfer da' sydd gan y canllawiau statudol blaenorol, Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, a gyhoeddwyd yn 2006.

²⁴ Mae dyletswyddau tebyg yn bodoli o dan y Ddyletswydd Atal (a drafodir yn nes ymlaen) ac unrhyw bryderon o ran Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod - gweler Mandatory reporting of female genital mutilation: procedural information (Y Swyddfa Gartref, 2015).

neu ei fagwraeth ehangach, fod yn angen diogelu o dan y Ddyletswydd Atal (gweler Rhan 5 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, ac adrannau 67 a 68 Revised Prevent Duty Guidance for England and Wales (Llywodraeth EM, 2015)). Cyfeirir yn benodol at addysg yn y cartref yn adran 51 canllawiau 2015:

Local authorities should take steps to understand the range of activity and settings in their areas and take appropriate and proportionate steps to ensure that children attending such settings are properly safeguarded (which should include considering whether children attending such settings are at risk of being drawn into extremism or terrorism). In assessing the risks associated with such settings, local authorities should have regard to whether the settings subscribe to voluntary accreditation schemes and any other evidence about the extent to which the providers are taking steps to safeguard the children in their care. (Llywodraeth EM, 2015:9)

Pan fo materion diogelu yn bodoli, dylai awdurdodau lleol ystyried sut i ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael iddynt o dan Ddeddf Plant 1989 a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Gellir atgyfeirio at yr arweinydd Atal lleol hefyd, a allai, yn ei dro, atgyfeirio at y panel(i)/rhaglen(ni) Channel (gweler adrannau 36 i 41 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a Channel Duty Guidance: Protecting vulnerable people from being drawn into terrorism (Llywodraeth EM, 2015b)).

Mae canllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru (2017) ar addysg yn y cartref yn cynghori y gallai swyddogion addysg fod â phryderon am les plentyn dan rai amgylchiadau, ac efallai'n dymuno cysylltu ag asiantaethau/sefydliadau perthnasol eraill. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys:

- *Ile y nodwyd bod plentyn neu aelod o'r teulu mewn angen*
- *Ile mae plentyn neu aelod o'r teulu wedi'i atgyfeirio at sylw gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am resymau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, ac ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater*
- *Ile mae plentyn neu ei frawd neu chwaer ar y gofrestr amddiffyn plant*
- *Ile mae plentyn neu aelod o'r teulu wedi cael ei atgyfeirio ar sail gofal ac amddiffyn, a'r atgyfeiriad yn cael ei ystyried*
- *Ile mae plentyn yn destun gofyniad am oruchwylio*
- *Ile mae aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryder ynghylch lles plentyn*
- *Ile mae'n hysbys bod y plentyn yn ofalwr*

- *Ile nad yw plentyn wedi'i weld ers cyfnod hir gan unrhyw wasanaethau cyffredinol*
- *Ile mae teulu'n cadw oddi wrth wasanaethau a gofal iechyd arferol.*

(Llywodraeth Cymru,
2017:21²⁵)

Yn ogystal â chynghori ynghylch yr amgylchiadau posibl a allai gyfiawnhau ymchwiliad pellach gan swyddogion addysg, mae'r canllawiau anstatudol hefyd yn nodi y gallai addysgwyr yn y cartref ddymuno cyflogi pobl eraill, neu weithio gyda nhw, i ddarparu rhai elfennau o addysg eu plentyn. Wrth wneud hyn, dylent fod yn ymwybodol o'r anghenion diogelu a allai godi. Er nad oes rhwymedigaeth statudol i ddilyn unrhyw brotocolau penodol, mae canllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru yn pwysleisio y gallai rhai addysgwyr yn y cartref ddefnyddio'r canllawiau ar benodi unigolion sy'n gweithio gyda phlant, sydd ar gael yn *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae amrywiaeth eang o amgylchiadau posibl a allai fod yn gysylltiedig â materion diogelu yn cael eu nodi yn y canllawiau anstatudol. Mae'n bwysig cofio bod potensial i bob plentyn fod yn agored i gamdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio. Mae gan y tri phwynt olaf a nodir yn y rhestr uchod oblygiadau penodol a allai beri pryderon o ran diogelu.

Fel y nodwyd eisoes, nid yw bod yn ofalwr ifanc yn achosi angen diogelu yn awtomatig, fodd bynnag mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o amodau plant/pobl ifanc. Wrth ystyried anghenion gofalwyr ifanc, ac unrhyw blentyn, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn effro i gaethwasiaeth fodern, caethiwed, llafur gorfodol neu dan orfod; sicrhau gwasanaethau gan blant a phobl agored i niwed trwy orfodaeth, bygythiad neu gamdriniaeth (gweler Rhan 1 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015). Pan fo rhesymau i gredu bod plentyn mewn perygl o gamdriniaeth o ganlyniad i droseddau o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, rhaid atgyfeirio'r dioddefwyr ar gyfer asesiad a chefnogaeth drwy'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (nid oes angen caniatâd gan blant/pobl ifanc). Mae unrhyw amheuaeth o blentyn yn cael ei fasnachu (ar draws y DU neu ffiniau rhyngwladol²⁶) neu o unrhyw fath o gamdriniaeth, esgeulustod neu gaethiwed/llafur hefyd yn fater diogelu, a rhaid ei hystyried a rhoi gwybod amdani. Mewn sefyllfaoedd lle nad yw gwasanaethau

²⁵ Noder fod trefn y rhestr wedi cael ei haddasu rywfaint er cymorth i lif y drafodaeth ddilynol.

²⁶ O dan adran 55 Deddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnffudo 2009, mae gan Asiantaeth Ffiniau'r DU ddyletswydd i ddiogelu a hybu lles plant mae'n dod ar eu traws wrth wneud ei gwaith. Gweler hefyd Erthygl 22 (Refugee Children) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

cyffredinol wedi gweld y plentyn ers cyfnod hir, neu lle mae teulu'n cadw draw o wasanaethau arferol, gall fod yn anodd i wasanaethau fod yn ymwybodol o sefyllfa benodol y plentyn.

Yn olaf, mae modd i Fyrddau Diogelu adolygu ymarfer diogelu cyfoes lle teimlir bod hynny'n angenrheidiol a/neu'n briodol. Yn hanesyddol roedd y rhain ar ffurf Adolygiad Achos Difrifol ac yn defnyddio fframwaith tebyg ar draws Cymru a Lloegr. Ar ddechrau 2013, cafodd proses adolygu newydd ei rhoi ar waith yng Nghymru. Mae'r broses hon ar ffurf Adolygiadau Ymarfer Plant, sy'n gallu bod yn (i) gryno ac yn (ii) estynedig (am ragor o wybodaeth am y gwahaniaethau, cyfeiriwch at y Canllawiau ar Drefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol (Llywodraeth Cymru, 2012b)).

Polisiau awdurdodau lleol


Mae'r canllawiau anstatudol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd yn rhoi cryn annibyniaeth i awdurdodau lleol wrth benderfynu sut maent yn ymgysylltu â'r gymuned addysg yn y cartref ac yn rheoli materion diogelu. O blith y dogfennau a gafwyd ac a adolygwyd fel rhan o'r adroddiad hwn (gweler Atodiad F), mae manylion am y broses o dynnu plentyn o addysg brif ffrwd, a'r rheini â datganiadau AAA, wedi'u nodi'n glir, a gwneir ymgais yn aml i gasglu data ynghylch y rheswm dros dynnu'r plentyn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n mynd i'r afael â'r amrywiaeth a natur gyfyngedig y data a gasglwyd ar draws awdurdodau lleol, er mwyn ceisio dwyn gwybodaeth y gellir ei mesur a'i dadansoddi i ganfod tueddiadau cenedlaethol o ran addysg yn y cartref.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod gwahaniaethau rhwng y polisiau. Mae tŷn y dogfennau a'r dull ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned addysg yn y cartref yn amrywio yn ôl pob golwg. Mewn rhai enghreifftiau, mae'r trosolwg cyfreithiol yn gryno iawn, gydag ychydig iawn o arweiniad neu wybodaeth ategol. Mae eraill yn darparu gwybodaeth fanwl am gefnogaeth ehangach, y broses o dynnu plentyn o addysg brif ffrwd a manylion am beth i'w ddisgwyl gan yr awdurdod lleol o ran cyswllt yn y dyfodol. Mae rhai awdurdodau lleol yn nodi'n glir bod yn well ganddynt gyswllt parhaus. Mae hyn ar ffurf cyfarfod blynyddol yn aml. Mae'r amrywiaeth yn yr iaith yn awgrymu bod rhywfaint o wahaniaeth o ran sut mae addysg yn y cartref yn cael ei hystyried a'i thrin.

Mae'n ymddangos hefyd bod amrywiaeth sylweddol o ran pwy mewn awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ymgysylltu ag addysgwyr yn y cartref. Cafodd Swyddogion

Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref a Chynghorwyr Addysgol oll eu nodi yn y dogfennau (mae'r term Swyddog Addysg yn cael ei ddefnyddio yn y canllawiau anstatudol). Ni chafodd cefndir na swyddogaeth y rolau hyn ei nodi. Byddai rhagor o gysondeb o ran cyfrifoldeb dros gyswllt addysg yn y cartref yn briodol yn ôl pob golwg.

Atodiad E: Datganiad Education Otherwise



Atebwch i'r cyfeiriad hwn:
Education Otherwise Association
Ltd Office 7,
35-37 Ludgate Hill, London,
EC4M 7JN

Anfonwyd dros e-bost

At: Dr Nina Maxwell (MaxwellN2@cardiff.ac.uk)

4 Ebrill 2017

EDUCATION OTHERWISE ASSOCIATION LIMITED (EO), ymateb i adolygiad CASCADE (Prifysgol Caerdydd) ar gyfer gwella gwasanaethau Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru o'r enw 'Adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth o ddiogelwch plant sy'n cael eu haddysgu gartref'.

Annwyl Dr Maxwell

Ar ddechrau'r arolwg hwn ceir y datganiad canlynol:

'Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddiogel ac yn cael addysg o safon. Serch hynny, mae canfyddiadau adolygiadau achos difrifol diweddar o farwolaethau plant wedi cynnwys enghreifftiau o blant sy'n cael eu haddysgu gartref lle mae cwestiynau wedi codi ynghylch gallu gweithwyr proffesiynol i asesu diogelwch y plant hyn. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi comisiynu adolygiad o'r dystiolaeth bresennol ac ymchwil ar safbwyntiau grwpiau allweddol ar y ffyrdd gorau o amddiffyn plant sy'n cael eu haddysgu gartref. I wneud hyn, ein nod yw casglu safbwyntiau sefydliadau addysg yn y cartref, grwpiau cefnogi a rhieni sy'n addysgu eu plant gartref ar hyn o bryd, a hynny ar yr ystyriaethau cymhleth yn y maes hwn.'

Mae hyn yn codi nifer o bryderon yn syth:

1. 'canfyddiadau adolygiadau achos difrifol diweddar'. Canfu dadansoddiadau EO o bob adolygiad achos difrifol a deunyddiau cysylltiedig a gyhoeddwyd ers 2008 sy'n cynnwys y termau 'home education', 'home schooling' neu 'education otherwise' nad oedd unrhyw rwystr i weithwyr proffesiynol rhag cael mynediad at blant a oedd yn cael eu haddysgu gartref lle roedd pryderon gwirioneddol wedi'u mynegi am lesiant y plant, a chafodd y rhain eu hatgyfeirio at y

gweithwyr proffesiynol perthnasol (h.y. yr Heddlu, gweithwyr proffesiynol Gwaith Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol).

2. 'y ffyrdd gorau o amddiffyn plant'. Mae angen diffiniad clir o'r hyn mae 'amddiffyn' yn ei olygu ar Education Otherwise. Eu hamddiffyn rhag beth a phwy? Hoffwn nodi fod gan blant sy'n cael eu haddysgu gartref hawl i'r un parch ac amddiffyniad o dan y gyfraith â phlant sy'n mynd i'r ysgol. O'n safbwynt ni, gwahaniaeth mympwyol yn unig a geir wrth wahaniaethu rhwng plentyn sy'n cael ei addysgu gartref a phlentyn sy'n mynd i'r ysgol.

Education Otherwise Association Ltd, Office 7, 35-37 Ludgate Hill, London, EC4M 7JN

3. A fyddech cystal ag esbonio'r datganiad 'ystyriaethau cymhleth'? Mae mor amwys, mae bron yn ddiystyr.

Ym marn EO, mae'r ddeddfwriaeth addysg bresennol yn diogelu hawl pob plentyn unigol i addysg i bob pwrpas. Mae'n gwneud hynny drwy roi'r ddyletswydd ar gyfer addysg ar rieni / gofalwyr i ddarparu addysg addas, un ai drwy ysgwyddo cyfrifoldeb uniongyrchol dros addysg, neu ddirprwyo eu cyfrifoldeb i'r ysgol.

Nid yw EO yn credu bod y Deddfau Addysg, nac addysg yn y cartref ei hun, yn rhwystro'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer llesiant ac amddiffyniad plant sydd wedi'i hymgorffori yn y Deddfau Plant.

Mae EO yn credu'n gryf mai rhagfarn sefydliadol yn erbyn addysg yn y cartref yw'r mater mwyaf taer y mae'n rhaid amddiffyn plant a'u teuluoedd rhagddo. Mae polisi a gweithdrefnau awdurdodau lleol yng nghyswllt Addysg Ddewisol yn y Cartref yn camliwio eu dyletswyddau a'u pwerau o ran addysg a 'diogelu' yn gyson. Mae hyn yn arwain at lefel uchel o densiwn, sy'n codi'n bennaf oherwydd fod awdurdodau lleol yn mynnu pethau gan deuluoedd sy'n addysgu gartref, ond nad yw'r pethau hyn wedi'u cefnogi gan y gyfraith nac yn cael eu mynnu yn yr un modd yng nghyswllt plant sy'n mynd i'r ysgol. Mae'n rhaid cael gwared ar y rhagfarn sefydliadol yn erbyn addysg yn y cartref.

Ni fydd EO yn ymateb i'r cwestiynau penodol yn yr arolwg, gan ein bod yn credu bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r agwedd anghywir at addysg yn y cartref, o safbwynt addysg ac o safbwynt diogelu.

Mae'r arolwg ei hun yn rhagdybio diffyg diogelwch i blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Mae EO yn anghytuno'n llwyr â hyn. Rhieni sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu buddiannau eu plant. Gall y Wladwriaeth ymyrryd â bywyd teuluol os profir bod plant yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol y gellir ei briodoli i rianta afresymol. Nid yw ysgwyddo cyfrifoldeb uniongyrchol dros addysg plentyn yn enghraifft o rianta afresymol.

Mae EO yn credu bod yn rhaid meithrin teimlad newydd o hyder ac ymddiriedaeth mewn awdurdodau lleol. Mae'n sicr ac yn glir mai ar yr awdurdod lleol ei hun mae'r cyfrifoldeb dros ddechrau'r broses a fydd yn creu'r teimlad hwnnw. Mae'n rhaid i arweinwyr awdurdodau lleol archwilio pob elfen o'u polisiâu a'u hymarfer er mwyn asesu a yw canlyniad eu camau gweithredu yn creu neu'n cynnal patrymau o ragfarn yn erbyn addysg yn y cartref. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau mae awdurdodau lleol yn eu darparu i'r cyhoedd amrywiol fod yn briodol ac yn broffesiynol bob amser, gyda phob teulu ac unigolyn yn cael ei drin â pharch gan swyddogion awdurdod lleol, a hynny'n unol â'r gyfraith bresennol. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnig gwasanaeth sy'n cydnabod gwahanol brofiadau, canfyddiadau ac anghenion cymdeithas amrywiol.

Ar ben hynny, mae angen ailysgrifennu'r canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, er mwyn ategu'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Nid yw'r ffaith fod teulu yn addysgu un plentyn neu fwy gartref yn bryder diogelu.
- Dylid tybio bod rhieni a gofalwyr sy'n addysgu gartref yn cyflawni eu dyletswydd i ddarparu addysg effeithlon ac addas.

Education Otherwise Association Ltd, Office 7, 35-37 Ludgate Hill, London, EC4M 7JN

- Dylid tybio bod rhieni a gofalywyr sy'n addysgu gartref yn cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu llesiant eu plant ac i hybu eu buddiannau.
- Bydd swyddogion awdurdod lleol sydd angen rhywfaint o wybodaeth gan riant / gofalwr yn gofyn amdani mewn ffordd barchus, heb fygwth atgyfeirio at wasanaethau Plant sy'n Colli Addysg neu Ofal Cymdeithasol Plant.
- Gall swyddogion awdurdod lleol gynnig ymweliad cartref neu gynnig cyfarfod â rhieni / gofalywyr mewn lleoliad arall, a gall rhieni ddewis derbyn neu wrthod y cynnig heb ddod i gasgliad yn sgil y naill ddewis na'r llall.
- Dewis y rhieni yw'r ffordd maen nhw'n dewis cyflwyno gwybodaeth am eu darpariaeth addysg. Efallai y bydd yn well ganddynt ddarparu adroddiad ysgrifenedig, samplau o waith, neu gael trydydd parti i gymeradwyo eu darpariaeth addysg.
- Mae'n rhaid i arweinwyr awdurdodau lleol weithio'n frwd i sicrhau bod holl bartneriaid perthnasol yr awdurdod, ac unigolion neu gyrff eraill sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod, yn cael gwybod mewn modd addas am gyfreithlondeb addysg yn y cartref, ac nad yw'n bryder diogelu ynddi'i hun.

Yn gywir

Graeme Evans

Ar ran yr Ymddiriedolwyr, EDUCATION OTHERWISE ASSOCIATION LIMITED

Education Otherwise Association Ltd, Office 7, 35-37 Ludgate Hill, London, EC4M 7JN

Atodiad F: Dogfennau polisi Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (2016) *Elective Home Education Policy*. Ar gael yn:

http://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/aksblaenau_gwent/images/att6114.pdf
(Cyrchwyd 25.06.17)

Cyngor Caerdydd (Di-ddyddiad) *Elective Home Education – Education Service Information Leaflet*. Ar gael yn: <http://edyourself.org/cardiffEHEinfobooklet.pdf>
(Cyrchwyd 25.06.17)

Cyngor Caerdydd (Di-ddyddiad) *Elective Home Education – Advice and Guidance*.
Caerdydd: Cyngor Caerdydd

Cyngor Caerdydd (Di-ddyddiad) *Revised Flow Chart*. Caerdydd: Cyngor Caerdydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Di-ddyddiad) *Elective Home Education – Protocol for Parents*. Conwy: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ddinbych (Di-ddyddiad) *Addysg Ddewisol yn y Cartref - Taflen Wybodaeth*. Sir Ddinbych: Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir Ddinbych (Di-ddyddiad) *Addysg Ddewisol yn y Cartref - Protocol i Rien*.
Sir Ddinbych: Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful²⁷ (Di-ddyddiad) *Addysg Ddewisol yn y Cartref - Llyfryn Canllaw*. Merthyr Tudful: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd (2016) *Elective Home Education Policy*.
Casnewydd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Di-ddyddiad) *Elective Home Education Information Leaflet*. Ar gael yn:
<http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Social%20Care/Children%20and%20Family%20Services/Local%20Safeguarding/Elective%20Home%20Education%20-%20info%20leaflet.pdf> (Cyrchwyd 25.06.17)

²⁷ Mae hwn yn rhan o gonsortiw rhwng Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr a Bro Morgannwg.

Atodiad G: Data yr arolwg ar-lein ar gyfer addysgwyr yn y cartref

Mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg ar-lein i addysgwyr yn y cartref. Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys nifer o eitemau penagored sydd heb gael eu cyflwyno er mwyn eu cadw'n ddienw. Felly er bod y tablau data yn darparu trosolwg cyffredinol, mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddadansoddiad manylach o'r ymatebion ansoddol.

G.1 Awdurdodau Lleol

Roedd y 96 o ymatebwyr yng Nghymru yn dod o 20 o'r 22 awdurdod lleol, gyda nifer ychydig yn uwch o Gonwy, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin (Tabl G1). Ni chafwyd ymatebion gan unrhyw un yng Ngheredigion na Merthyr Tudful. Mae hynny'n peri rywfaint o syndod, oherwydd yn ôl y ffigurau awdurdodau lleol a adroddwyd gan Lywodraeth Cymru (2016), Ceredigion sydd â'r gyfran uchaf o addysg yn y cartref ers 2011/12, a chyfradd o 15.0 fesul 1,000 yn 2015/16 (2016).

Tabl G1: Addysgwyr yn y cartref fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer	Canran o'r wlad	Awdurdod Lleol	Nifer	Canran o'r wlad
CYMRU			LLOEGR		
Ynys Môn	3	3	Berkshire	1	6
Blaenau Gwent	2	2	Dyfnaint	1	6
Pen-y-Bont ar Ogwr	4	4	Dorset	1	6
Caerffili	2	2	Swydd Gaerloyw	2	13
Caerdydd	8	8	Manceinion Fwyaf	2	13
Sir Gaerfyrddin	12	13	Hampshire	2	13
Ceredigion	0	-	Swydd Hertford	1	6
Conwy	16	17	Swydd Gaerhirfryn	1	6
Sir Ddinbych	10	10	Northampton	1	6
Sir y Fflint	2	2	Swydd Amwythig	1	6
Gwynedd	2	2	Gwlad yr Haf	1	6
Merthyr Tudful	0	-	Swydd Warwick	1	6
Sir Fynwy	5	5	Gorllewin Canolbarth Lloegr	1	6
Castell-nedd Port Talbot	5	5			
Casnewydd	3	3			
Sir Benfro	3	3			

Powys	6	6			
Rhondda Cynon Taf	2	2			
Abertawe	1	1			
Torfaen	1	1			
Bro Morgannwg	2	2			
Wrecsam	3	3			
Awdurdod Lleol dienw yng Nghymru	4	4			
Cyfanswm	96	100	Cyfanswm	16	100

Data ar goll = 22

G.2 Ethnigrwydd a rôl

Gwyn oedd yr ethnigrwydd a nodwyd gan bron i bawb (N = 88%) Mamau oedd y rhan fwyaf o addysgwyr yn y cartref (N = 82%), wedyn tadau (N = 13%) ac wedyn mam-gu/tad-cu/nain/taid (N = 2%). O'r 4% a ddisgrifiwyd eu hunain fel 'arall', darparodd ddau fanylion pellach; roedd un yn blentyn sy'n cael ei addysgu gartref, ac un yn weithiwr proffesiynol ym maes addysg yn y cartref.

Tabl G2: Nodweddion addysgwyr yn y cartref

Ethnigrwydd	Nifer	Canran
Gwyn	118	88
Cymysg	5	4
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	3	2
Arall	6	5
CYFANSWM	132	99
Rôl	Nifer	Canran
Mam	109	82
Tad	18	13
Mam-gu/Tad-cu/Nain/Taid	2	2
Arall	5	4
CYFANSWM	134	101

Efallai na fydd y canrannau'n cyfateb i 100 o ganlyniad i dalgrynnu

G.3 Sawl plentyn sydd gennych chi?

Roedd gan yr ymatebwyr rhwng 1 ac 11 o blant. 4 neu lai oedd gan y mwyafrif. Mae'r sampl yn cynrychioli cyfanswm o 264 o blant yng Nghymru. Ac ystyried y nifer bras ar gyfer Cymru, mae hyn yn awgrymu bod rhieni 9%-13% o bob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref wedi ymateb.

Tabl G 3: Nifer y plant

Nifer y plant*	Nifer	Canran	Nifer	Canran
----------------	-------	--------	-------	--------

	CYMRU		LLOEGR	
Un	18	20	3	19
Dau	33	36	6	38
Tri	21	23	1	6
Pedwar	8	9	4	25
Pump	6	7	1	6
Chwech	-	-	-	-
Saith	1	1	1	6
Wyth	2	2	-	-
Naw	-	-	-	-
Deg	1	1	-	--
Un ar ddeg	2	2	-	-
Cyfanswm y teuluoedd	92	100	16	100
Cyfanswm y plant	264	-	46	-

*Roedd un ymatebydd yn blentyn sy'n cael ei addysgu gartref
ar goll = 25

Data

G.4 Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn addysgu gartref?

Roedd yr addysgwyr yn y cartref yn amrywio o'r rheini sydd wedi bod yn addysgu gartref am lai na blwyddyn i'r rheini sydd wedi bod yn addysgu gartref am fwy na saith mlynedd.

Tabl G 4: Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn addysgu eich plentyn gartref?

Hyd	Nifer	Canran
Llai na blwyddyn	24	18
1 - 2 flynedd	27	20
3 - 4 blynedd	22	16
5 - 6 blynedd	13	10
7 mlynedd	48	36
Cyfanswm	134	100

G.5 Ymarfer presennol o ran addysg yn y cartref yng Nghymru

O'r 108 o addysgwyr yn y cartref a ymatebodd (Tabl G5), dywedodd 41% fod yr awdurdod lleol wedi cysylltu â nhw yn ystod y deuddeg mis blaenorol, a dywedodd 58% nad oeddent wedi cael cyswllt o'r fath.

Tabl G 5: Cyswllt â'r awdurdod lleol

Cyswllt yn ystod y 12 mis blaenorol	Nifer	Canran
Dim cyswllt	63	58

Wedi cael llythyr	27	25
Wedi siarad â rhywun wyneb yn wyneb	10	9
Wedi siarad â nhw ar y ffôn	8	7
Cyfanswm	108	100

Data ar goll = 26

G.6 Lles plant, pryderon, cofrestru a monitro

Mae Tabl G6 yn dangos nad oedd mwyafrif helaeth yr addysgwyr yn y cartref yn credu bod gweithiwr proffesiynol addysg yn unigolyn addas ar gyfer asesu lles plentyn. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent erioed wedi cael pryderon, neu wedi gwybod am bryderon ynglŷn â phlentyn a oedd yn cael ei addysgu gartref, dywedodd 15 eu bod wedi, ac ar ôl dadansoddi'r ymatebion ansoddol, gwelwyd fod addysgwr yn y cartref arall wedi nodi pryderon o'r fath hefyd.

Nid oedd y rhan fwyaf o addysgwyr yn y cartref yn fodlon cael eu henw ar gofrestr addysg yn y cartref, na chymryd rhan mewn cyfarfodydd blynyddol â staff yr awdurdod lleol. Serch hynny, dywedodd bron i un o bob pum addysgwr yn y cartref y byddent yn fodlon cael eu henw ar gofrestr, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd â staff yr awdurdod lleol.

Tabl G 6: Rôl addysg o ran asesu lles plant

Eitem	✓		✗		Cyfanswm	
	N	%	N	%	N	%
Ydych chi'n meddwl bod asesu lles plant yn rhan o rôl y tîm Addysg?	10	12	75	88	85	100
Ydych chi erioed wedi gwybod am bryderon, neu wedi cael pryderon eich hun, am blentyn a oedd yn cael ei addysgu gartref?	15	16	82	84	97	100
Fyddech chi'n fodlon i'ch enw chi fod ar gofrestr?	18	20	72	80	90	100
Fyddech chi'n fodlon i staff yr awdurdod lleol gyfarfod chi a'ch plentyn/plant yn eich cartref unwaith bob blwyddyn?	19	22	69	78	88	100

